# Pembrokeshire County Council
# Cyngor Sir Penfro

## Cynllun Gwerthuso Cymeriad a Rheoli Ardal Gadwraeth Wdig

## Mabwysiadwyd Tachwedd 2016

**Dr Steven Jones B.A.(Anrh),D.M.S., M.B.A., Ph.D., M.C.I.M.**
**CYFARWYDDWR DATBLYGU**

## Byrfoddau

| | |
|---|---|
| AG | Ardal Gadwraeth |
| CDL | Cronfa Dreftadaeth y Loteri |
| ARh | Adeilad Rhestredig |
| CDLl | Cynllun Datblygu Lleol |
| CSP | Cyngor Sir Penfro |
| CDAH | Cymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol |
| NCT | Nodyn Cyngor Technegol - Polisi Cynllunio Llywodraeth Cymru |
| GCC | Gorchymyn Cadw Coed |
| Deddf CG&Th | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 |

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ....6

Rhan 1: Cynllun Gwerthuso Cymeriad a Rheoli Ardal Gadwraeth ....9

1. Cynllun Gwerthuso Cymeriad Ardal Gadwraeth Wdig .... 9
   - 1.2 Cefndir .... 10
   - 1.3 Ardal Gadwraeth Wdig .... 11
   - 1.4 Pwrpas a Chwmpas y Gwerthusiad .... 11
   - 1.5 Methodoleg .... 12

2. Cyd-destun Deddfwriaeth a Pholisi Cynllunio .... 12
   - 2.1 Deddfwriaeth, Polisïau a Chanllawiau Cenedlaethol .... 12
   - 2.2 Polisi Cynllunio a Chanllawiau Lleol .... 14
   - 2.3 Strategaeth Gorfodi .... 14

3. Diffinio Diddordeb Arbennig .... 16

4. Asesu Diddordeb Arbennig .... 16
   - 4.1 Lleoliad a Gosodiad .... 16
   - 4.2 Datblygiad Hanesyddol ac Archeoleg: Gwreiddiau a Datblygiad Hanesyddol yr Ardal . 19
   - 4.3 Dadansoddiad Gofodol .... 21
   - 4.4 Dadansoddiad Cymeriad .... 28
   - Ardal Cymeriad 1: Canol y Dref .... 28
   - Ardal Cymeriad 2: Tir i'r Gogledd .... 36
   - Ardal Cymeriad 3: Tir i'r De .... 41
   - 4.5 Adeiladau’r Ardal Gadwraeth .... 43
   - 4.6 Crynodeb o Gymeriad yr Ardal Gadwraeth .... 48

5. Adolygiad Ffiniau ac Argymhellion .... 50
6. Crynodeb o'r Materion dan sylw .... 53
7. Cynigion Rheoli .... 55
8. Monitro .... 58

Rhan 2: Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Wdig ........ 60
1. Crynodeb o Ddiddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth ........ 60
Adnabod Materion Cadwraeth ........ 60
1.1 Amodau Cyffredinol (Dadansoddiad SWOT) ........ 60
1.2 Materion Cadarnhaol ac Asedau ........ 62
1.3 Materion Negyddol a Phroblemau ........ 63
2. Canllawiau Polisi ac Egwyddorion Dylunio ........ 63
2.1 Egwyddorion Dylunio ........ 63
2.2 Cyd-destun Datblygiad yr Ardal Gadwraeth ........ 64
2.3 Polisi Datblygu ac Egwyddorion Dylunio Ardal Gadwraeth ........ 65
2.4 Canllawiau Dylunio er mwyn Gwella Adeiladau Presennol ........ 65
2.5 Polisïau ar gyfer datblygiad newydd o fewn ardaloedd treftadaeth ........ 72
3. Canllawiau Penodol ar gyfer Adeiladau, Safleoedd Arwyddocaol a Thir y Cyhoedd ........ 73
3.1 Dyluniad Tir y Cyhoedd ........ 73
4. Argymhellion Rheoli ........ 75
Gwneud penderfyniadau gan gynnwys rhestriad lleol, newidiadau i ffiniau a Chyfarwyddiadau Erthygl 4 ........ 75
4.1 Rhestru lleol yn yr Ardal Gadwraeth ........ 75
4.2 Ailasesu ffiniau'r Ardal Gadwraeth ........ 75
4.3 Cyfarwyddyd Erthygl 4 a Datblygiad a Ganiateir ........ 75
4.4 Monitro a Gorfodi: ........ 76
4.5 Deall Cadwraeth ........ 77
4.6 Anghenion Adnoddau ........ 77
4.7 Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ........ 77
4.8 Cynaliadwyedd ........ 78
5. Rhaglen Weithredu ........ 80
5.1 Adnoddau ar gyfer gweithredu yn yr Ardal Gadwraeth ........ 80
5.2 Crynodeb o'r Cynllun Gweithredu ........ 80
5.3 Monitro ........ 81
5.4 Arolwg Ffurfiol ........ 81

Atodiad 1 Mapiau'r Ardal Gadwraeth ........ **Error! Bookmark not defined.**
Atodiad 2: Gwybodaeth Ddefnyddiol ........ **Error! Bookmark not defined.**

# Crynodeb Gweithredol

i Mae'r Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth a'r Cynllun Rheoli hwn wedi'u paratoi a'u cyfuno er mwyn diffinio diddordeb arbennig Ardal Gadwraeth Wdig, er mwyn helpu i gadw a gwella ei chymeriad, gan osod sail ar gyfer gwneud penderfyniadau cynaliadwy i'r dyfodol.

ii Yn Rhan 1 ceir dadansoddiad y Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth, ac yn Rhan 2 ceir y Cynllun Rheoli, y cynigion a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu'r ddwy ran.

iii Mae'r ddogfen hon yn ategu Cynllun Datblygu Lleol Sir Penfro (CDLl) 2013-2021, a bydd yn ystyriaeth berthnasol ar gyfer unrhyw gynllun datblygu a fabwysiedir ar ôl hynny, o safbwynt amddiffyn a gwella'r amgylchedd hanesyddol o fewn yr Ardal Gadwraeth. Mae'n ystyriaeth berthnasol ar gyfer penderfyniadau cynllunio a cheisiadau adeiladau rhestredig ynghyd â'r Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol.

**Rhoddir cyd-destun polisi i'r gwerthusiad gan**

- **Gylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 (para 20)** sy'n datgan mai ansawdd lle ddylai fod yn brif ystyriaeth wrth nodi, gwarchod a gwella Ardaloedd Cadwraeth. Mae hyn yn dibynnu ar fwy nag adeiladau unigol. Cydnabyddir y gall cymeriad arbennig lle ddeillio o nifer o ffactorau, gan gynnwys grwpiau o adeiladau, eu graddfa a'u perthynas â mannau awyr agored a manylion pensaernïol.

- Mae **Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Rhifyn 8, Ionawr 2016** (para 6.5.17) yn datgan os byddai unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn gwrthdaro â'r amcan o gadw neu wella cymeriad neu olwg Ardal Gadwraeth, neu ei lleoliad, bydd rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio.

iv Crynhoir isod yr elfennau allweddol sy'n cyfrannu at ddiddordeb arbennig a chymeriad Ardal Gadwraeth Wdig:

- Treftadaeth forwrol hir - â thystiolaeth o anheddiad cyn oes y Rhufeiniad, sefydliad harbwr pysgota i sylfaenu'r porthladd fferis.
- Nodweddion naturiol - mae'r dirwedd arfordirol a'r tirffurfiau sylfaenol wedi dylanwadu ar ffurf a chynllun heriol strydoedd y dref gyfan ac yn darparu ei lleoliad arfordirol dramatig
- Mae'r tirffurf wedi darparu llethrau serth a sicrhau bod yr ardaloedd adeiledig yn amlwg yn weledol yn gyffredinol
- Golygfeydd pwysig i mewn, allan o ac o fewn yr Ardal Gadwraeth.
- Cymysgedd amrywiol o arddull a math o adeiladu, gyda'r mwyafrif yn tarddu o'r 19$^{eg}$ ganrif.

- Adeilad rhestredig ac adeiladau anarferol sy'n deilwng o'u cofnodi sy'n ychwanegu diddordeb a chymeriad i'r strydlun.
- Adeiladau amlwg gyda chymeriad pensaernïol nodedig.
- Ei lleoliad strategol mewn perthynas â chysylltiadau ag Iwerddon
- Y teras braf o wynebau siop oes Fictoria mewn cyflwr da ar hyd Main Street â llety byw uwchben.

**Materion Allweddol**

v Mae nifer o faterion allweddol wedi'u nodi fel materion sy'n cael effaith negyddol ar natur Ardal Gadwraeth Wdig. Mae'r rhain yn sail ar gyfer y Cynigion Rheoli a amlinellir yn adran 7 (tudalen 54) y ddogfen hon ac sydd wedi'u crynhoi isod:

***i Colli manylion pensaernïol a mân addasiadau i adeiladau hanesyddol***

Mae'r mwyafrif o'r adeiladau sydd heb ei rhestru a llawer o'r rhai rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth wedi'u heffeithio'n andwyol oherwydd colled manylion pensaernïol a deunyddiau adeiladu gwreiddiol. Mae'r defnydd o ffenestri uPVC yn broblem benodol i'r Ardal Gadwraeth hon.

***ii Cynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau (Adeiladau mewn Perygl)***

Mae rhai o'r adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth yn dangos arwyddion o ddirywiad oherwydd diffyg cynnal a chadw ac mae angen monitro'u cyflwr a blaenoriaethu cyllid yn unol â hynny.

***iii Rheoli Datblygiadau Newydd***

Nid yw rhai datblygiadau newydd yn cadw na'n gwella'r ardal a gall amharu ar ei chymeriad. Mae'n rhaid asesu cynigion yn y dyfodol yn unol â Chanllawiau a Pholisi Cynllunio a dylent gyflenwi cymeriad yr ardal sydd eisoes yn bodoli.

***iv Tir y Cyhoedd***

Mae datblygiadau anghydnaws a'r defnydd o ddeunyddiau amhriodol yn nhir y cyhoedd yn broblem yn yr Ardal Gadwraeth ac mae'n rhaid osgoi hyn yn y dyfodol. Mae nodweddion ymwthiol fel polion telegraff a gwifrau hefyd yn cael effaith negyddol mewn rhai ardaloedd.

***v Ardaloedd agored / gwyrdd, tirlunio a rheoli coed***

Gall tirlunio priodol gynnig cyfleoedd i wella llawer o'r mannau cyhoeddus a strydoedd trwy ychwanegu gwead, lliw a chynyddu bioamrywiaeth. Gall waliau a ffensys ffin a pharseli tir wedi'u hesgeuluso gael effaith ar gymeriad yr ardal.

***vi Wynebau siop, arwyddion a hysbysebu***

Mae adeiladau manwerthu gwag a cholled nodweddion traddodiadol yn amharu ar graidd hanesyddol yr Ardal Gadwraeth. Mae adeiladau masnachol a ddyluniwyd mewn dull traddodiadol mewn perygl o ddirywio oherwydd gwaith cynnal a chadw gwael a phwysau i'w datblygu ar gyfer pwrpasau amgen.

**Rhan 2: Mae'r Cynllun Rheoli** yn nodi materion cyfredol yr Ardal Gadwraeth cyfredol ac yn manylu ar Gynigion Rheoli a threfniadau ar gyfer eu gweithredu, gyda'r camau canlynol wedi'u nodi ar gyfer gweithredu buan:

**Polisi a Strategaeth Cynllunio:**

- CSP i fabwysiadu Cynllun Gwerthuso a Rheoli Ardal Gadwraeth Wdig

**Cyfranogiad y gymuned:**

- Hyfforddi a Datblygu Staff Cadwraeth;
- Cynyddu ymwybyddiaeth o gadwraeth;
- Datblygu gwefan Gadwraeth CSP;
- Cyhoeddi Bwletin(au) Cadwraeth Wdig; a
- Sicrhau bod y Cynllun Gwerthuso Cymeriad a Rheoli Ardal Gadwraeth ar gael yn lleol.

**Mesurau Cynllunio:**

- Cwblhau fersiwn terfynol o'r Rhestr Leol ddrafft i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd;
- Gweithredu Strategaeth Adeiladau mewn Perygl ar gyfer yr Adeiladau Rhestredig hynny sydd mewn perygl neu dan fygythiad
- Nodi Ardaloedd sy'n Sensitif yn Archeolegol fel y bo'n briodol

**Fframwaith ar gyfer Safonau Dylunio:**

- Paratoi rhaglen ar gyfer paratoi nodiadau canllawiau cynllunio ychwanegol ar faterion cadwraethol;
- Sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer mesurau gorfodi, a'u pwysigrwydd, yn cael eu deall a'u gweithredu ledled CSP;
- Hyrwyddo Nodiadau Canllawiau Cynllunio a 'Cynnal a Chadw!' Cadw ar y wefan
- Paratoi briffiau datblygu sy'n benodol i safle, lle mae'n briodol

# Rhan 1: Cynllun Gwerthuso Cymeriad a Rheoli Ardal Gadwraeth

## 1. Cynllun Gwerthuso Cymeriad Ardal Gadwraeth Wdig

### 1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Dynodwyd Ardal Gadwraeth Wdig yn 1975, ac mae'n cydnabod diddordeb pensaernïol a hanesyddol craidd hanesyddol y dref, gan ganolbwyntio'n bennaf ar ddatblygiad oes Fictoria a ddigwyddodd wrth adeiladu'r rheilffordd a'r porthladd yn niwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif.

1.1.2 Diffinnir Ardaloedd Cadwraeth, a ddynodwyd o dan Adran 69 Deddf Cynllunio (Adeilad Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, fel ardaloedd "…*o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, sydd â chymeriad y mae'n ddymunol ei gadw neu wella*"[1]

1.1.3 Mae'r dynodiad yn rhoi amddiffyniad i'r ardal gyfan, ar adeiladau, grwpiau o adeiladau, ar leoedd rhwng adeiladau ac ar goed. Gall amddiffyniad ychwanegol fod yn addas drwy'r defnydd o Gyfarwyddyd[2] ar gyfer rhan o'r Ardal Gadwraeth, a elwir yn Gyfarwyddyd Erthygl 4. Mae Cyfarwyddyd o'r fath yn dileu hawliau datblygu a ganiateir i newid neu ymestyn adeiladau dynodedig a thrwy hynny felly'n amddiffyn yr amgylchedd hanesyddol ymhellach.

1.1.4 Mae'r gwerthusiad hwn yn diffinio ac yn cofnodi cymeriad pensaernïol a hanesyddol arbennig Ardal Gadwraeth Wdig, yn ystyried materion cyfredol, y cyd-destun statudol a pholisi cyfredol, ac yn nodi cyfleoedd i wella a darparu fframwaith ar gyfer penderfyniadau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol, a chyfranogiad y gymuned leol wrth ei weithredu. Mae'n bodloni gofynion y ddeddfwriaeth, '*i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella*'[3] ac, '*wrth wneud penderfyniad ar gais am ddatblygu ...... rhoddir sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu olwg yr ardal honno*'[4], ac sy'n rhoi sail gadarn ar gyfer asesu ceisiadau am ddatblygu a chynigion ar gyfer gwelliannau o fewn yr Ardal Gadwraeth.

---

[1] Deddf Cynllunio (Adeilad Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
[2] A wnaed dan Erthygl 4 o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995, a gadarnhawyd ar 28 Mehefin 2010
[3] Adran 71 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
[4] Adran 72 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

1.1.5 Rhoddir y cyd-destun statudol a pholisi ar gyfer y gwaith gan:

- Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 [5]
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref 1995 (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995
- PCC Rhifyn 8 ( Ionawr 2016)
- Cylchlythyr 61/96[6] a Chylchlythyr 1/98[7]
- Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro (CDLl) 2013-2021.

## 1.2 Cefndir

1.2.1 Crëwyd Ardaloedd Cadwraeth gan Ddeddf Mwynderau Dinesig 1967 pryd y penderfynwyd nad yw rhestru adeiladau hanesyddol yn unigol yn ddigon i ddiogelu grwpiau o adeiladau, sydd, er nad ydynt wedi'u rhestru yn unigol yn cyfrannu at gymeriad y lle yn ei gyfanrwydd, a'u lleoliad. Sylweddolwyd hefyd bod y mannau rhwng adeiladau a choed hefyd yn elfennau pwysig. Penderfynwyd bod yr holl ardaloedd hyn i'w gwarchod a'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth.

1.2.2 Dylai dynodiad Ardal Gadwraeth gael ei hystyried fel y prif fodd o gydnabod, diogelu a gwella hunaniaeth mannau sydd â chymeriad arbennig. Dylai ansawdd y lle fod yn brif ystyriaeth wrth nodi Ardaloedd Cadwraeth er na ellir cael un fanyleb gyffredin ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth. Nid yw dynodiad Ardal Gadwraeth yn rhwystro newidiadau i adeiladau na'r ardal o'u cwmpas yn y dyfodol. Mae'n golygu, fodd bynnag, bod yn rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol, wrth ystyried ceisiadau cynllunio, gan gynnwys y rhai sydd y tu allan i Ardal Gadwraeth ond a fyddai'n effeithio ar ei lleoliad, roi ystyriaeth arbennig gref i'r ffaith a fyddai'r newidiadau arfaethedig yn "cadw neu'n gwella cymeriad neu olwg yr Ardal Gadwraeth ".

1.2.3 Mae'r Ddeddf bellach wedi'i hymgorffori a'i ehangu i mewn i Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 sy'n rhoi sail statudol ar gyfer rheolaeth gynllunio o fewn Ardaloedd Cadwraeth. Mae'r Ddeddf hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i adolygu'u mannau dynodedig yn rheolaidd, i ddynodi ardaloedd newydd os yn briodol ac yn dilyn dynodiad, lunio a chyhoeddi cynigion diogelu a gwella, ac i ddefnyddio'u pwerau cynllunio ar gyfer diogelu a gwella.

1.2.4 Fel arfer, dynodir Ardal Gadwraeth ar sail asesiad manwl o gymeriad pensaernïol a hanesyddol arbennig yr ardal. Mae'r asesiadau hyn yn cael eu hadnabod fel Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth.

[5] a ddisodlodd yr hen Ddeddf Mwynderau Dinesig 1967
[6] Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth
[7] Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Cyfarwyddiadau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru

1.2.5 Mae Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth yn bwysig ar gyfer yr awdurdod lleol, ar gyfer datblygwyr a'r cyhoedd. Gellir eu defnyddio ar y cyd â pholisïau a chanllawiau cynllunio presennol; gallant gynorthwyo gyda rheolaeth barhaus Ardaloedd Cadwraeth; ffurfio sail ar gyfer rhaglenni gwella; a darparu sail gadarn, a ellir ei hamddiffyn ar apêl, ar gyfer polisïau cynllun lleol a phenderfyniadau rheoli datblygu. Mae gan Werthusiadau hefyd ddefnydd ehangach fel dogfennau addysgol a dogfennau gwybodaeth ar gyfer y gymuned leol.

### 1.3 Ardal Gadwraeth Wdig

1.3.1 Mae gan Sir Penfro (ac eithrio Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) 24 o Ardaloedd Cadwraeth, gydag un ohonynt yn Wdig.

1.3.2 Dynodwyd Ardal Gadwraeth Wdig gan yr hen Sir Benfro yn 1975. Gerllaw, mae dwy Ardal Gadwraeth yn Abergwaun, un yng Nghwm Abergwaun ac un yn Nhref Abergwaun.

1.3.3 Yn y gorffennol, nid yw Ardal Gadwraeth Wdig wedi cael gwarchodaeth Cyfarwyddyd Erthygl 4. Byddai hyn yn dileu hawliau datblygu sydd eisoes yn bodoli, ac yn golygu bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer atgyweiriadau ac estyniadau, er mwyn sicrhau bod dulliau a deunyddiau adeiladau traddodiadol yn cael eu defnyddio. Byddai hyn yn fodd o atal erydiad a cholli manylion pensaernïol hanfodol sy'n rhoi statws 'ardal o ddiddordeb arbennig' i'r Ardal Gadwraeth. Ystyriwyd y posibilrwydd o gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) yn Ardal Gadwraeth Wdig. Ceir rhagor o wybodaeth am broses Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) yn Rhan 2 (adran 4.3) yr adroddiad hwn.

### 1.4 Pwrpas a Chwmpas y Gwerthusiad

1.4.1 Wedi ei dynodiad yn 1976, cydnabuwyd Ardal Gadwraeth Wdig fel ardal o gymeriad pensaernïol a hanesyddol arbennig sydd angen ei chadw a'i gwella.

1.4.2 Diben yr astudiaeth hon yw cynnal gwerthusiad o gymeriad[8] yr Ardal Gadwraeth hon, fel rhan o raglen dreigl y Cyngor Sir o adolygu Ardaloedd Cadwraeth. Mae'n disgrifio nodweddion pensaernïol a hanesyddol arbennig Ardal Gadwraeth Wdig ac yn darparu dadansoddiad manwl o'i chymeriad a'i golwg, gan ddod i'r casgliad bod cyfiawnhad amlwg dros ei dynodiad fel Ardal Gadwraeth.

[8] yn dilyn y canllawiau cyffredinol a nodir yng nghyhoeddiad Historic England 'Understanding Place: Conservation Area Designation, Appraisal and Management, 2011.

1.4.3 Mae'r Gwerthusiad Cymeriad hwn yn cefnogi polisïau Cynllun Datblygu Lleol Sir Penfro. Rhaid ei ddefnyddio fel ystyriaeth berthnasol wrth asesu a phenderfynu ar geisiadau am ddatblygu o fewn yr Ardal Gadwraeth, ac fel cymorth i lywio ei rheolaeth yn y dyfodol.

**Bydd y ddogfen hon yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.**

**Gall datblygiadau anghyfreithlon arwain at gamau gorfodi yn cael eu cymryd.**

### 1.5 Methodoleg

> *Dylid ystyried [Gwerthusiad Ardal Gadwraeth] fel y cam cyntaf mewn proses ddeinamig, ble mai'r nod yw gwarchod a gwella cymeriad a golwg yr ardal ddynodedig - a darparu sail ar gyfer gwneud penderfyniadau cynaliadwy am ei dyfodol drwy ddatblygiad cynigion rheoli.*
>
> (former English Heritage 2006[9])

1.5.1 Nod y Gwerthusiad Cymeriad hwn yw ail-asesu'r ardal ddynodedig o ran adolygu ei ffiniau a chofnodi'i diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig yn gryno, ac yn canolbwyntio ar yr elfennau pwysig o gymeriad ardal.

1.5.2 Arfarniad hwn yn ystyried yr Ardal Gadwraeth ' Conservation Area Designation, Appraisal and Management' Historic England 2016 as a guide, and the following objectives:

Bydd y gwerthusiad hwn yn cael ei gynnal gyda'r amcanion canlynol mewn golwg:

I. Amlinellu ac egluro datblygiad hanesyddol ac esblygiad yr ardal;
II. Diffinio a dadansoddi cymeriad arbennig a nodweddion diddorol yr Ardal Gadwraeth, ac o'i chwmpas, o ran ei phensaernïaeth, topograffi, ardaloedd a thirwedd agored, a'r berthynas rhyngddynt;
III. Ar sail yr asesiad, adolygu ffiniau'r Ardal Gadwraeth bresennol, a
IV. Nodi cyfleoedd posibl a chynigion rheoli ar gyfer gwarchod a gwella'r ardal.

## 2. Cyd-destun Deddfwriaeth a Pholisi Cynllunio

### 2.1 Deddfwriaeth, Polisïau a Chanllawiau Cenedlaethol

2.1.1 Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Cynllunio (Adeiladau

9 Yn 2015 newidiodd Historic Buildings and Monuments Commission for England ei enw o English Heritage i Historic England.

Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (Cymru a Lloegr) wedi atgyfnerthu deddfwriaeth gadwraeth gynharach.

2.1.2 Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn gofyn i awdurdodau lleol ddynodi fel Ardaloedd Cadwraeth "*unrhyw ardal o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig ble mae'n ddymunol cadw neu wella ei chymeriad neu olwg*".

2.1.3 O dan Adran 69 o'r Ddeddf, mae dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i adolygu Ardaloedd Cadwraeth o bryd i'w gilydd drwy baratoi a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella Ardaloedd Cadwraeth ac i ystyried p'un ai oes galw am ddynodiadau pellach o Ardaloedd Cadwraeth. Mae'n werth nodi y cyflwynwyd y Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) gan Lywodraeth Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar Mai 1 2015[10].

2.1.4 Dylai'r Gwerthusiad hwn gael ei ddarllen ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cenedlaethol a chanllawiau megis PCC, Rhifyn 8 (Ionawr 2016), a gryfhawyd gan Gylchlythyr 61/96 a Chylchlythyr 1/98. Mae'r dogfennau hyn yn rhoi cyngor ar ddynodi Ardaloedd Cadwraeth ac yn arbennig, yn rhoi canllawiau penodol ar gyfer asesu eu diddordeb arbennig.

2.1.5 Mae Cylchlythyr 61/96 (para 20) yn datgan mai ansawdd lle ddylai fod yn brif ystyriaeth wrth adnabod, gwarchod a gwella Ardaloedd Cadwraeth. Mae hyn yn dibynnu ar fwy nag adeiladau unigol a chydnabyddir y gall cymeriad arbennig lle ddeillio o nifer o ffactorau, gan gynnwys grwpiau o adeiladau, eu graddfa a'u perthynas â mannau awyr agored a manylion pensaernïol, ac ati.

2.1.6 Mae'r cyd-destun presennol ar gyfer polisi cynllunio defnydd tir yng Nghymru yn PCC Rhifyn 8 (Ionawr 2016) sy'n rhoi arweiniad penodol ar gyfer dynodi, rheoli cadarnhaol ac adolygu Ardaloedd Cadwraeth. Mae PCC yn egluro rôl awdurdodau cynllunio lleol wrth lunio polisïau Ardal Gadwraeth a gweithredu swyddogaethau rheoli datblygu mewn Ardaloedd Cadwraeth. Rhoddir sylw penodol i baratoi Gwerthusiadau Cymeriad Ardaloedd Cadwraeth a all gynorthwyo awdurdodau cynllunio wrth iddynt weithredu'u swyddogaethau cynllunio a rheoli datblygu.

2.1.7 Mae Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 8 (para 6.5.17) yn datgan os byddai unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn gwrthdaro â'r amcan o gadw neu wella cymeriad neu olwg Ardal Gadwraeth, neu ei lleoliad, bydd rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio.

[10] Ym mis Tachwedd 2015, roedd y Bil yng Nghyfnod 2 'ystyriaeth fanwl gan Bwyllgor y Bil'.

2.1.8 Ategir PCC gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (NCT). Mae NCT 12: Dylunio, er enghraifft, yn berthnasol i Ardaloedd Cadwraeth gan ei fod yn amlinellu nifer o amcanion dylunio da, gan gynnwys yr angen i ddatblygiad ymateb i gymeriad a chyd-destun.

## 2.2 Polisi Cynllunio a Chanllawiau Lleol

2.2.1 Bydd y Gwerthusiad yn cryfhau polisïau lleol drwy ddarparu mwy o fanylion am yr elfennau arbennig sy'n rhoi ei chymeriad i Ardal Gadwraeth Wdig, ac felly mae'n darparu sail gadarn ar gyfer asesu ceisiadau am ddatblygu. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r fframwaith polisi cynllun datblygu ehangach a gynhyrchwyd gan y Cyngor Sir.

2.2.2 O ran polisi cynllunio lleol perthnasol i'r gwerthusiad hwn, mabwysiadwyd y CDLl[11] ar gyfer Sir Benfro ym mis Chwefror 2013 ac ynddo nodir polisïau'r Cyngor ar gyfer diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol.

2.2.3 O bwysigrwydd arbennig mae'r polisïau penodol sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig hanesyddol, gan gynnwys:

- SP 1 Datblygu Cynaliadwy
- SP14 Trefi Hwb
- SP 16 Cefn Gwlad
- GN.1 Polisi Datblygu Cyffredinol
- GN.2 Dylunio Cynaliadwy
- GN.3 Isadeiledd a Datblygiadau Newydd
- GN.4 Effeithlonrwydd Adnoddau a Chynigion Ynni Adnewyddadwy a charbon-isel
- GN.11 Addasu neu Newid Defnydd Adeiladau Amaethyddol
- GN.37 Amddiffyn a Gwella Bioamrywiaeth
- GN.38 Amddiffyn a Gwella'r Amgylchedd Hanesyddol

2.2.4 Am ddisgrifiad llawn o'r polisïau sy'n rhoi'r cyd-destun ar gyfer asesu cynigion datblygu o fewn Ardaloedd Cadwraeth y Sir gweler y Cynllun Datblygu Lleol[12] a fabwysiadwyd.

## 2.3 Strategaeth Gorfodi

2.3.1 Mewn perthynas â gweithredu uniongyrchol mewn Ardal Gadwraeth, mae'r

[11] Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro

[12] Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro

pwerau sydd ar gael i Awdurdodau Lleol yn cynnwys:

- Camau gorfodi yn erbyn datblygu heb ei awdurdodi - hysbysiadau torri rheolau cynllunio / hysbysiadau torri amodau / hysbysiadau gorfodi / hysbysiadau atal / a gwaharddebau;
- Cyflwyno hysbysiadau Atgyweirio, Gwaith Brys ac Adran 215[13];
- Gorchmynion Caffaeliad Gorfodol;
- Hysbysiadau Cadw Adeilad sy'n ymestyn rheolaeth Adeilad Rhestredig dros adeiladau heb eu rhestru am gyfnod dros dro; a
- Nodi a dynodi Ardaloedd Archeolegol Sensitif fel rhan o baratoi'r cynllun datblygu, dylai dynodiad o'r fath sicrhau ystyriaeth gynnar i faterion archeolegol posibl.

2.3.2 Mae’n rhaid ystyried adeiladau a safleoedd sydd y tu allan i'r Ardal Gadwraeth, ond sy’n ffinio â’r ardal, fel rhan o'i lleoliad, ac felly mae angen defnyddio ystyriaethau cynllunio tebyg.

[13] ‘Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

## 3. Diffinio Diddordeb Arbennig

3.1.1 Er nad yw'n rhestr holl gynhwysfawr, daw'r gwerthusiad hwn i'r casgliad bod arbenigedd Ardal Gadwraeth Wdig yn deillio o'r nodweddion allweddol canlynol:

- Treftadaeth forwrol hir - â thystiolaeth o anheddiad cyn oes y Rhufeiniad, sefydliad harbwr pysgota i sylfaenu'r porthladd fferis.
- Nodweddion naturiol - mae'r dirwedd arfordirol a'r tirffurfiau sylfaenol a thopograffi serth wedi dylanwadu ar ffurf a chynllun heriol strydoedd y dref gyfan ac yn darparu ei lleoliad arfordirol dramatig
- Mae'r tirffurf wedi darparu llethrau serth a sicrhau bod yr ardaloedd adeiledig yn amlwg yn weledol yn gyffredinol
- Golygfeydd pwysig i mewn, allan o ac o fewn yr Ardal Gadwraeth.
- Cymysgedd amrywiol o arddull a math o adeiladu, gyda'r mwyafrif yn tarddu o'r 19$^{eg}$ ganrif.
- Adeilad rhestredig ac adeiladau anarferol sy'n deilwng o'u cofnodi sy'n ychwanegu diddordeb a chymeriad i'r strydlun.
- Adeiladau amlwg gyda chymeriad pensaernïol nodedig.
- Ei lleoliad strategol mewn perthynas â chysylltiadau ag Iwerddon
- Y teras braf o wynebau siop oes Fictoria mewn cyflwr da ar hyd Main Street â llety byw uwchben.

## 4. Asesu Diddordeb Arbennig

### 4.1 Lleoliad a Gosodiad

4.1.1 Saif Wdig 1 milltir i'r gogledd o'i chwaerdref Abergwaun ar arfordir gogleddol Sir Benfro a saif 17 milltir i'r gogledd o'r dref Sirol Hwlffordd, yn agos at Barc Cenedlaethol Penfro. Daw'r enw Wdig (Goodwick) o'r gair 'Godvic' sef yr enw Sgandinafaidd am harbwr da.

4.1.2 Yn wreiddiol roedd tref Wdig yn harbwr pysgota a saif ar gyfuchlinau llethrau a gloddiwyd yn dda uwchben dyffryn cors aberol llydan o'r enw Rhos Wdig. Mae'r rhos yn ffin glir rhwng trefi Wdig ac Abergwaun ac mae dynodiadau tirwedd yn atal cyfuno'r aneddiadau hyn. Mae blaen y rhos wedi'i amgáu gan gefnen gro a adeiladwyd ar draws y bae, sef y Parrog.

4.1.3 Mae Ardal Gadwraeth Wdig yn cynnwys 29.53 hectar ar hyn o bryd ac yn cwmpasu craidd hanesyddol y dref forwrol hon yn ogystal â rhai o'r strydoedd hanesyddol ehangach. Mae'r Gwerthusiad Cymeriad hwn yn dadansoddi a gwerthuso'r Ardal Gadwraeth bresennol o ran cymeriad ac yn asesu a yw unrhyw newidiadau i'r ffin yn briodol, ac yna'n argymell ar reolaeth yr ardal yn y dyfodol.

***Cymeriad cyffredinol a ffurf***

4.1.4 Mae Ardal Gadwraeth Wdig yn drefol ei natur yn bennaf, â chysylltiad morwrol cryf, ac mae'n cynnwys strydoedd neu derasau o eiddo preswyl yn bennaf sy'n eistedd mewn rhesi ar y bryn uwchben y bae a harbwr fferis Wdig.



Golygfa o Wdig o St Teresa's, Abergwaun (26.3.15)

4.1.5 Ceir tystiolaeth o gymeriad tref Wdig o'r strydoedd o adeiladau o oes Fictoria yn bennaf sy'n tramwyo'r llethrau serth uwchben ardal yr harbwr. Mae tai teras a safleoedd manwerthu ar hyd Main Street a ddatblygodd o ganlyniad i ehangiad sydyn y porthladd fferis o bwys arbennig gyda llawer ohonynt yn amlwg iawn ac yn edrych allan dros y bae. Hefyd ceir nifer o adeiladau unigol a grwpiau o adeiladau, a'r ardaloedd mawr o goetiroedd a llethrau arfordirol sy'n brigo sy'n nodweddu'r dref.

4.1.6 Mae tir i'r de o'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys datblygiadau preswyl yn bennaf mewn rhesi ar y llethrau arfordirol, ac ardaloedd o brysgwydd a chreigiau'n ffurfio'r glannau. Adeiladwyd llawer o'r eiddo i fanteisio ar y golygfeydd arfordirol ardderchog. Mae eiddo ar yr ochr ddeheuol i New Hill ac Wdig Hill, ar hyd Ffordd y Cei, Clement Road a darn o Ffordd Glanymor, er enghraifft, yn edrych allan dros y bae a chefn yr eiddo yn ymddangos ar hyd ochr y ffordd. I'r de orllewin, ond y tu allan i ffin yr Ardal Gadwraeth, mae Wdig Hill yn troi'n sydyn tua'r gogledd ac yn arwain i fyny'r llethr i Heol Penlan sydd yna'n cysylltu â'r tai sy'n dyddio o'r cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd ar Hill Street, Precelly Crescent, Cae Gerddi, Park Street, Brynawelon, a Maesgrug.

4.1.7 Ar gyrion yr Ardal Gadwraeth mae llawer o nodweddion gwreiddiol ardaloedd fel Pentre'r Harbwr i'r gogledd, wedi cael eu haddasu ac, er bod eu hoedran yn gyson â llawer o'r adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth, mae eu cymeriad wedi lleihau'n sylweddol, felly o ganlyniad maent wedi'u heithrio o'r Ardal Gadwraeth. Yn yr un modd i'r gogledd mae ardal 'Stop and Call', a oedd yn anheddiad ar wahân yn wreiddiol. Mae map 1843 -1893 yn dangos Stop and Call fel pentrefan bach o dai ychydig y tu hwnt i'r gogledd o Wdig Hill, ond mae'r ardal hon bellach wedi ymuno â gogledd orllewin y dref.

4.1.8 Mae'r harbwr naturiol i'r de ddwyrain o dref Wdig yn chwarae rôl sylweddol wrth ddiffinio cymeriad a lleoliad yr Ardal Gadwraeth. Sefydliad terfynfa Rheilffordd y Great Western a harbwr yn Wdig (a elwir yn Harbwr Abergwaun yn fasnachol) ar ddiwedd y 19eg Ganrif a dechrau'r 20fed Ganrif oedd ysgogiad allweddol twf yn y dref, ac felly dyma ffactor trechol yn ei chymeriad hanesyddol.




Plac Coffaol Rheilffordd Wdig, i bobl Wdig a fu'n gweithio ar y rheilffordd ers ei dyfodiad ym 1899, ger mynediad Roslyn a Beach House, Rhiw'r Orsaf (26.3.15)

### *Gosodiad y dirwedd*

4.1.9 Saif Wdig ar ochr de ddwyreiniol penrhyn Pencaer ac mae'r prif ffyrdd mynediad mewn rhesi i ddilyn y llethr arfordirol. Yn gyffredinol gellir disgrifio natur y dirwedd gyfagos fel gwledig, â thopograffi tonnog i'r gogledd a rhostir agored i'r de, a golygfeydd deniadol i mewn ac allan o'r ardal. Un o nodweddion cryf yr ardal yw'r ystodau mawr o dir serth heb ei ddatblygu, ardaloedd o greigiau agored a llystyfiant naturiol fel eithin a grug. Mae'r clogwyn ei hun yn nodwedd weledol bwysig o'r Ardal Gadwraeth ac wedi cyfyngu datblygiad y dref. Mae effeithiau gweledol a ffisegol y llethr arfordirol yn golygu ei fod yn nodwedd amlwg yng nghymeriad a golwg yr ardal.

4.1.10 I'r gogledd o'r anheddiad nid oes llawer o ddatblygiad oherwydd bod y topograffi yn greigiog a serth yn bennaf, ac i'r gogledd a'r gorllewin ceir prysgdir yn bennaf â rhedyn, eithin a chreigiau'n brigo. Mae cymysgedd o goed wrth ymyl ffin yr Ardal Gadwraeth gan gynnwys drain gwynion, cordderw, coed criafol, ffawydd, masarn a masarn bach. Mae'r ardal goediog iawn i'r gogledd o Westy Fishguard Bay yn nodi ffin gogledd orllewinol yr Ardal Gadwraeth, ac eithrio eiddo Pentre'r Harbwr.

## 4.2 Datblygiad Hanesyddol ac Archeoleg: Gwreiddiau a Datblygiad Hanesyddol yr Ardal

***Cynnar – 17eg Ganrif***

4.2.1 Yn hysbys yn hanesyddol fel pwynt angori diogel, defnyddiwyd y bae yn Wdig fel harbwr mor bell yn ôl ag oes y Rhufeiniad. Yn rhan olaf y 10fed Ganrif, daeth gorsafoedd masnachol ac aneddiadau Llychlynnaidd i'r amlwg, a sefydlwyd tref gyfagos Abergwaun ynghyd â'r porthladd yn Wdig rhwng 950 – 1000AD.

4.2.2 Cyfeirir at yr anheddiad, a oedd hefyd yn cael ei alw'n Pwllgwdig, mor gynnar â 1074AD pan oedd yr ardal yn rhan o'r Cantref canoloesol Pebidiog, ac ym meddiant uniongyrchol Esgob Tyddewi.

4.2.3 Mae'r morfeydd heli a godwyd yn Rhos Wdig yn arddangos tystiolaeth o adfer tir, gan gynnwys camlesu nant Wdig a nifer o gloddweithiau. Yn hanesyddol roedd pentrefan bach Dyffryn er enghraifft, ar ynys o dir wedi'i amgáu gan forfeydd heli ac ymddengys ei fod wedi datblygu o dŷ bonedd. Mae'n sicr bod y tŷ, sydd efallai wedi'i grybwyll mewn gweithred yn ddyddiedig 1595, yn bresennol ym 1624, ac mae'n parhau hyd heddiw.

***18fed – 19eg Ganrif***

4.2.4 Mae mapiau hanesyddol o'r ardal (Atodiad 1) yn dangos bod Tŷ Wdig, i'r gogledd, yn enghraifft o dŷ bonedd a adeiladwyd ar ran o Gomin Pwllhir yn edrych dros yr harbwr cyn 1702. Adeiladwyd cei ar safle morglawdd yr harbwr erbyn yr adeg hon ac mae wedi'i ddangos ar fap o 1815.

4.2.5 Mae map degwm 1845 yn dangos tair elfen wahanol o'r hyn a fyddai'n datblygu i ddod yn Wdig - cei'r pysgotwyr ag anheddiad bach, clwstwr bach o dai ar y groesffordd ar y blaen traeth, a phentrefan Dyffryn. Mae'r map hwn yn dangos llawer iawn o lwybrau troed yn croesi'r llethr arfordirol, a nifer o byllau gro wedi'u nodi ar hyd New Hill presennol. Defnyddiwyd grwyn carreg gwneud ar draeth Wdig fel lloc dal pysgod ac mae dal i fod yn ganfyddadwy o'r awyr heddiw.

***20fed Ganrif***

4.2.6 Datblygwyd harbwr newydd yn Wdig yn 1906, a oedd yn gallu delio â phacedlongau mawr a oedd yn hwylio cefnforoedd, ac yna sefydlwyd cysylltiadau rheilffordd cyflym gan Reilffordd y Great Western ar yr adeg honno. Daeth Rheilffordd

y Great Western â buddsoddiad newydd a sefydlwyd maestref gardd newydd i weithwyr y rheilffordd. Hefyd cafodd Gwesty Wyncliffe ei ymestyn a'i ail-frandio fel Gwesty Fishguard Bay crand. Yn y gorffennol roedd ym meddiant Cwmni Harbwr a Rheilffyrdd Abergwaun a Rosslare. Mae Gwesty Fishguard Bay yn parhau i fod yn un o'r unig enghreifftiau yn y rhanbarth o westy rheilffordd mawr a adeiladwyd yn bwrpasol ar gyfer masnach ar draws yr Iwerydd, ac mae'n cadw llawer o'i gymeriad gwreiddiol heddiw.

4.2.7 Yn ogystal â darparu'r daith fferi fyrraf i dde Iwerddon, a chysylltiadau trên cyflym i Lundain, deliodd Wdig â thraffig sylweddol ar ffurf llongau mawr a oedd yn croesi'r Iwerydd yn gynnar yn yr 20$^{fed}$ Ganrif. Roedd llongau mawr yn hwylio i Lerpwl ac oddi yno, ac yn stopio yn y bae i ollwng neu godi post a theithiwr a oedd yn gallu cadw dydd ar daith ar draws yr Iwerydd. Parhaodd hyn nes i Southampton gael ei agor fel prif borthladd yr Iwerydd.

4.2.8 Er gwaethaf newidiadau mewn masnachu morwrol, parhaodd porthladd Wdig i fod yn bwysig yn ystod y rhan fwyaf o'r 20$^{fed}$ Ganrif yn cysylltu tir mawr Prydain ag Iwerddon. Yn 1972 gosodwyd cyfleuster ‘gyrru ymlaen, gyrru i ffwrdd’ yn harbwr Wdig (bellach yn cael ei alw'n Harbwr Abergwaun), â'r cyfle dilynol i draffig cludo nwyddau trwm ac allforio/mewnforio anifeiliaid byw, sydd wedi sicrhau dyfodol y porthladd.

4.2.9 Yn ogystal â dylanwadau diwydiannol mewn cysylltiad â'r rheilffordd a'r porthladd, dylanwad a chyflogwr mawr arall yn Wdig yn ystod dechrau a chanol yr 20$^{fed}$ Ganrif oedd gwaith brics, a sefydlwyd oddeutu 1906. Yn gysylltiedig â'r rheilffordd adeiladwyd cilffordd rheilffordd arbennig i gludo deunyddiau crai, â'r gwaith yn darparu'r rhan fwyaf o'r brics ar gyfer adeiladu yn y dref. Parhaodd i weithredu hyd y 1960au.

4.2.10 Yn olaf, o ran diddordeb hanesyddol, o Wdig aeth yr hedfaniad cyntaf o Brydain i Iwerddon yn 1912, wedi'i goffau gan blac ger yr A40 sy'n darllen: *“The 1st successful flight from Britain to Ireland was made from Goodwick village on 22.4.1912 by Denys Corbett Wilson flying a Bleriot X1’’.*

**Archeoleg**

4.2.11 Ymhlith yr arwyddion o ddeiliadaeth ddynol gynnar yn yr ardal mae carreg forthwylio y credir ei fod yn dyddio o'r cyfnod Neolithig a ddarganfuwyd ar y llethr uwchben Pwynt Pen-cw, a llawr gweithio fflint posibl, crug crwn and a broetsh bylchgrwn canoloesol pwysig a adferwyd o draeth Wdig.

4.2.12 Mae hefyd nifer o garneddau neu dwmpathau artiffisial yn y cyffiniau, sy'n arwydd bod amddiffynfeydd wedi eu hadeiladu yma yn ystod rhyfeloedd rhwng y Cymry a'r Sacsoniaid goresgynnol. Nodwyd safleoedd Oes Neolithig ac Efydd gerllaw yn

1. **Penrhiw** (SM942390) beddrod siambr Neolithig (SAM),
2. **Carreg Samson / Garn Wern** (SM 948,390) Mynwent beddrod siambr Neolithig, sy'n cynnwys tair siambr gladdu yn agos i'w gilydd (SAM),
3. **Garn Wern** (SM947390) Crug crwn o'r Oes Efydd,
4. **Castell Mwrtach** (SM 953365) Lloc amddiffynnol o'r Oes Haearn, a
5. **Y Caerau** (SM967366) Bryngaer o'r Oes Haearn.

### 4.3 Dadansoddiad Gofodol

### Cymeriad a Chydberthynas Gofodau o fewn yr Ardal

***Llwybrau***

4.3.1 Mae hierarchaeth glir o lwybrau o fewn yr Ardal Gadwraeth sy'n cynnwys y prif sianeli symud.

1. **Rhiw'r Orsaf** sy'n cysylltu Wdig ag Abergwaun ar hyd y glannau. Mae'n darparu mynediad i Wdig o'r de ac yn rhannu i ddarparu mynediad i'r Porthladd fferis i'r dwyrain a Gorsaf Wdig i'r gorllewin cyn mynd i mewn i Wdig.

2. **Ffordd y Cei** yn darparu mynediad i eiddo preswyl a Gwesty Fishguard Bay.

3. **Wdig Hill** yn darparu mynediad i Stop and Call ac yn codi ar hyd y llechwedd. Mae'r ffordd yn gul mewn mannau ac nid oes llwybrau troed ar gyfer y rhan fwyaf o'i hyd. Mae'r llwybr yn cynnig golygfeydd o Abergwaun a'i leoliad a golygfeydd o'r môr.

4.3.2 O ran mynediad i gerddwyr, ceir nifer o lwybrau troed oddi ar y stryd neu anffurfiol yn rhedeg trwy'r ardal, ynghyd â thramwyfeydd cul rhan adeiladau o'r enw "vennels". Mae llawer o'r llwybrau yn hanesyddol eu natur a gellir dod o hyd iddynt ar fapiau hanesyddol o'r dref (Atodiad 1). Mae nifer o hawliau tramwy hefyd yn cysylltu â'r rhwydwaith priffyrdd a 'Llwybr y Pererinion', sy'n cysylltu eglwysi a safleoedd hanesyddol bwysig yng ngogledd Sir Benfro, sydd hefyd yn teithio trwy'r Ardal Gadwraeth o'r gogledd i'r de.

4.3.3 Yn gyffredinol mae'r cyfuniad o lethrau serth, ffyrdd cul a chorneli tynn yn cyfyngu symudiad cerbydau yn Ardal Gadwraeth Wdig, a gall y diffyg llwybrau troed mewn rhai rhannau achosi gwrthdaro posibl rhwng cerbydau a cherddwyr/beicwyr. Yn

y 1980au ceisiwyd darparu lle ar gyfer galwadau cynyddol cerbydau ar y dref, a chafodd cynllun y ffyrdd ei wella i'r de o'r dref wrth ailddatblygu Wern Road a mynedfa newydd i'r porthladd, yn tynnu traffig i ffwrdd o ardaloedd tagfaol Main Street.

***Mannau agored ardaloedd cyhoeddus***

4.3.4 Yn gyffredinol, mae topograffi serth tref Wdig yn pennu bod nifer fach iawn yn unig o fannau cyfarfod cyhoeddus ffurfiol. Mae agosrwydd nifer o gyffyrdd ffordd, fodd bynnag, a'r llwybrau sy'n igam-ogamu o amgylch y dref, yn cyfrannu at "gymeriad arbennig" y dref ac yn arwain at bwyntiau nodol anffurfiol.

4.3.5 Ymhlith y prif fannau nodol mae:

- Cornel Main Street sydd wedi cael ei 'wella' i gynnwys seddau cyhoeddus, cysgodfa, planhigion a chysylltiad â maes parcio bach ar lefel isel y tu nôl i Fferyllfa Myrtle.
- Mae'r gyffordd â Rhiw'r Orsaf, Ffordd y Cei a Wdig Hill, yng nghyffiniau'r Rose & Crown, yn bwynt nodol arall, â golygfeydd yn edrych i lawr y bryn ac ar draws y bae.





Ardal Gyhoeddus ar gornel Main Street / Wdig Hill (26.3.15) Cyffordd rhwng Rhiw'r Orsaf, Ffordd y Cei a Wdig Hill (26.3.15)

- Mae'r ardal o'r enw'r Sgwâr, o flaen Gwesty Glendower a Court House, a'r gyffordd rhwng Wdig Hill, Main Street a New Hill yn darparu canolbwynt i gerbydau. Gall cerbydau mwy yn enwedig achosi problemau tagfeydd yn yr ardal hon.



Y gyffordd rhwng Wdig Hill, Main Street a New Hill (26.3.15)

## Barnau Allweddol

4.3.6 Yn yr Ardal Gadwraeth ceir nifer o olygfeydd a fistâu pwysig sy'n cyfrannu'n sylweddol at gymeriad yr ardal. Nid yw'r rhestr ganlynol yn gynhwysfawr ond fe ddengys bod y golygfeydd o fewn, wrth edrych i mewn ac wrth edrych allan o'r Ardal Gadwraeth yn ffurfio rhan bwysig o gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth ac felly y dylid eu gwarchod a'u gwella lle bynnag y bo hynny’n bosibl.

4.3.7 Ymhlith golygfeydd a fistâu pwysig yn nhref Wdig mae golygfeydd panoramig ar draws y bae o lawer o bwyntiau yn y dref; mae'r rhain yn un o nodweddion allweddol yr Ardal Gadwraeth oherwydd lleoliad y dref ar ochr bryn serth. Mae llawer o'r tai yn yr Ardal Gadwraeth, fel y rheiny ar Wdig Hill, Ffordd Glanymor, New Hill a Main Street, â gogwydd i fanteisio'n llawn ar y golygfeydd godidog o'r môr.



Golygfeydd i'r de ddwyrain o eiddo preswyl ar New Hill (26.3.15)

4.3.8 Mae fistâu o'r dref o'r de, yng nghyffiniau Traeth Wdig a'r Parrog, yr un mor bwysig i

gymeriad yr Ardal Gadwraeth. Ceir golygfeydd clir o Westy Fishguard Bay (â Phentre'r Harbwr uwchben) o'r Parrog, a golygfeydd ar draws y bae o harbwr Cwm Abergwaun sy'n cyfrannu'n sylweddol at leoliad Tref Wdig.



Golygfeydd o'r dref o Draeth Wdig (26.3.15)

4.3.9 Mae llawer o olygfeydd diddorol byrrach yng nghanol y dref, fel yr olygfa i'r de ar hyd Main Street tuag at Eglwys Sant Pedr, ac yn edrych i'r gogledd, cipolygon ar y llethr arfordirol garw yn y pellter, hefyd yn bwysig i Gymeriad yr Ardal Gadwraeth a'i lleoliad.



Golygfeydd i'r gogledd ddwyrain ar hyd Main Street tuag at New Hill (26.3.15)

**Adeiladau Allweddol Arwyddocaol**

4.3.10 Roedd twf cynnar tref Wdig Hill o amgylch Ffordd y Cei, Main Street ac Wdig Hill, fel y dangosir gan Gyfnod 1 1843-1893 (Atodiad 1). Ymhlith adeiladau pwysig ar hyd y llwybrau hyn mae'r Gwesty Wyncliffe fel yr oedd, Penrhyn, ac adeiladau crefyddol fel Eglwys Sant Pedr, sy'n parhau i fod yn bwyntiau cyfeirio amlwg a chryf yn yr Ardal Gadwraeth heddiw. Yn arbennig mae'r Gwesty Wyncliffe eiconig, sydd bellach yn cael ei alw'n Westy Fishguard Bay, a'r Beach House, ar oedd yn westy ond sydd bellach angen ychydig o sylw, yn adeiladau mawr a thrawiadol sy'n sefyll yn falch yn erbyn cefndir wyneb clogwyn (Wyncliffe) a thref Wdig (Beach House), y

ddau'n dirnodau amlwg sy'n weladwy iawn yn yr ardal gyfagos.






Gwesty Fishguard Bay, uwchlaw Bae Abergwaun (26.3.15), The Beach House, uwchlaw Parrog a Harbwr Wdig (26.3.15)

4.3.11 Mae grwpiau o adeiladau fel y tai tref Fictoraidd ac Edwardaidd yn darparu mwy o bwyntiau cyfeirio gweledol cryf yn yr Ardal Gadwraeth. Yn benodol mae Main Street Wdig yn arddangos adeiladau â gwahanol uchderau, amrywiaeth o doeon goleddol dormer, ffenestri Oriel ar y llawr cyntaf, ffenestri bae ar y llawr gwaelod â thoeon llechi, ac mewn mannau llinell adeiladu anwastad. Mae'r holl elfennau hyn yn ychwanegu at ddiddordeb a chymeriad y strydlun.



Golygfeydd i'r de orllewin ar hyd Main Street Wdig (26.3.15)



Plac Coffaol Rhiw'r Orsaf (26.3.15)

**Tir y Cyhoedd**

4.3.12 Ledled yr Ardal Gadwraeth mae elfennau tir y cyhoedd fel celfi stryd, goleuadau a phlanhigion yn gymysgedd cyffredinol o arddulliau a deunyddiau, â chanolbwynt ar gornel Main Street, lle ceir seddau a chysgodfa a phlanhigion (gweler ffotograff 3) sy'n cynnwys elfennau o fanylion sy'n benodol i'r lleoliad, gan gynnwys rheiliau addurnol tuag at y maes parcio islaw. Mewn mannau eraill, mae deunyddiau palmant yn amrywiol ac wedi cael eu cyweirio, eu hatgyweirio a gosodwyd rhai newydd â deunyddiau amrywiol yn cynnwys tarmac, concrid a slabiau. Mae llwybrau anffurfiol hefyd yn nodwedd yn yr ardal. Tramwyfeydd cul yw'r 'vennels' trwy adeiladau sy'n tramwyo'r topograffi serth trwy'r ardal.

4.3.13 Ymhlith perthnasau pwysig rhwng tir y cyhoedd a thriniaethau ffin mae'r rheiliau ar hyd ochr gogleddol Main Street, ar waelod Wdig Hill a'r waliau carreg a bric ar hyd Main Street a Ffordd Glanymor. Mae'r rhain yn darparu deunyddiau cadarnhaol a thraddodiadol ar y cyfan yn yr Ardal Gadwraeth. Fodd bynnag, ceir nodweddion tir y cyhoedd sy'n defnyddio dyluniad a deunyddiau modern safonol, gan gynnwys arosfan bws Main Street.

**Ardaloedd Gwyrdd ac Agored, Coed a Thirlunio**

4.3.14 Er nad oes llawer o ardaloedd gwyrdd neu agored ffurfiol sy'n hawdd eu cyrraedd yng nghraidd yr Ardal Gadwraeth, mae lleoliad tref Wdig ar ochr bryn yn cyfrannu'n sylweddol at ei chymeriad a'i lleoliad. Mae ardaloedd gwyrdd agored a golygfeydd a fistâu o'r môr a'r harbwr yn bwysig i gymeriad y lleoliad, gan gysylltu'r dref ar ochr bryn â'r dirwedd wledig a morwrol o'i hamgylch. Mae grŵp gwirfoddol lleol yn cynnal a gwella'r mannau gwyrdd.

4.3.15 Mae nifer o rywogaethau yn dominyddu coed o fewn Wdig, gan ddibynnu ar eu sefyllfa, sydd yn eu tro'n cael eu diffinio gan y defnydd tir a'r topograffi. Mae'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys ardal sylweddol o lystyfiant rhostir fel grug ac eithin â choed criafol, helyg, bedw, onn a masarn ifanc sy'n dod i'r amlwg. Dyma dir serth iawn anhydrin â phridd bas dros greigiau sy'n brigo'n aml, i greu llystyfiant naturiol nodweddiadol iawn sydd wrth galon yr anheddiad. Lle mae llethrau'n llai serth a phriddoedd ychydig yn fwy trwchus, mae padogau bach yn gwthio allan o'r clystyrau o aneddiadau i fyny'r llethrau. Ar un adeg byddai'r rhain wedi cael eu defnyddio i fagu anifeiliaid neu dyfu llysiau ond mae'r rhan fwyaf wedi cael eu gadael dros y blynyddoedd ac mae tyfiant coed wedi ymwthio i mewn. Mae hyn wedi tueddu i ddechrau yn y ffiniau sy'n cael eu diffinio yn nodweddiadol gan waliau cerrig a dyma le mae'r coed mwy aeddfed. Oherwydd y ffordd mae llawer o dai a therasau wedi cael eu torri i mewn i ochr y bryn serth, bellach yn aml gwelir y coed hyn sydd wedi'u hesgeuluso yn uchel dros iardiau cefn, gerddi a thoeau'r aneddiadau ac yn darparu cefndir meddal i olygfeydd hirach o'r anheddiad.

4.3.16 Mae cymysgedd o goed a rhostir /prysgwydd yn ymylu ffin yr Ardal Gadwraeth ag ardal goediog iawn i'r gogledd o Westy Fishguard Bay. Mae hyn yn nodi ffin gogledd orllewinol yr Ardal Gadwraeth sy'n cyfrannu'n fawr at ei lleoliad. Mae llwybr Pant-yr-Ychain yn ymlwybro i'r gogledd fel cwm coediog drwy'r Ardal Gadwraeth. I'r de orllewin, mae datblygiad preswyl yn ymylu ffin yr Ardal Gadwraeth ond mae'n cadw'r cefndir o goed a phrysgwydd yn bennaf wrth i'r tir godi i'r gorwel. Mae'r dirwedd agored ar ben y bryn ar ddiwedd Pant-Yr-Ychain a'r coetir gerllaw wrth gyrraedd y brig yn bwysig i gymeriad yr Ardal Gadwraeth ac yn rhoi golygfeydd i mewn iddi ac allan ohoni. Mewn gwirionedd mae'r dirwedd agored uwchben Wdig Hill ei hun yn caniatáu terasau'r dref i barhau i fod yn weladwy o bellter a cheir elfennau eraill o ofod gwyrdd rhwng y terasau hyn sy'n caniatáu rhywfaint o wahanu sy'n bwysig ar gyfer y cymeriad unigryw hwn o fewn yr Ardal Gadwraeth.

4.3.17 Y tu allan i'r Ardal Gadwraeth, ond yn gwneud cyfraniad cyfartal at ei lleoliad, ceir nifer o ddynodiadau tirwedd, gan gynnwys y rheiny ar Ros Wdig, sy'n gwarchod hunaniaeth a lleoliad tref Wdig. Mae rhannau o rostir Wdig hefyd wedi'u dynodi'n Ardal Agored Hamdden, ac mae'r ardal yn elwa o nifer o ddynodiadau natur yn ogystal â statws Lletem Las. Ymhellach, ceir dynodiad Gardd a Pharc Hanesyddol ar dir i'r gogledd a'r dwyrain i Westy Fishguard Bay, a dynodiad Ardal Agored Amwynder yn

edrych dros y prif harbwr. Mae'r casgliad mwyaf o goed o unrhyw daldra y tu ôl i Westy Fishguard Bay, lle mae llinach hir o'r un defnydd tir gan y gwesty wedi galluogi coetir aeddfed i ddatblygu, a nodweddir gan rywogaethau coed conwydd a llwyni bythwyrdd dieithr. Fodd bynnag mae'r rhain wedi cael eu hesgeuluso yn y blynyddoedd diwethaf gan atal mynediad i gerddwyr ac mae'r haen llwyni, llawryf yn bennaf, wedi mynd yn dal ac yn ddominyddol. Mae'r holl ddynodiadau hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol at leoliad tref Wdig ac felly'r Ardal Gadwraeth.

4.3.18 Mae tiroedd Gwesty Fishguard Bay wedi'u cofrestru fel Gardd Hanesyddol[14] gan Cadw. Mae'r gerddi yn ardd Edwardaidd sy'n goroesi i raddau helaeth o ardaloedd teras a choetir helaeth, a osodwyd pan gymerodd Cwmni Rheilffordd y Great Western y gwesty drosodd ym 1898. Er bod rhai enghreifftiau cain o goed a llwyni'n parhau o'r rheiny a blannwyd yn yr oes Edwardaidd, sy'n cynnwys rhywogaethau meddal a dieithr, mae lleoliad yr ardd yn darparu cymeriad unigryw i ymyl dwyreiniol yr Ardal Gadwraeth â golygfeydd panoramig allan ar draws Bae Abergwaun.

## 4.4 Dadansoddiad Cymeriad

4.4.1 Gellir rhannu Ardal Gadwraeth Wdig yn 3 gwahanol ardal cymeriad, pob un â'i nodweddion ei hun. Er nad yw ffiniau’r ardaloedd yn sefydlog na phendant, mae gwahaniaethau amlwg rhyngddynt o ran defnydd tir a gweithgareddau presennol a blaenorol, ffurf adeiladu, cynllun, nodweddion a manylion unigol a datblygiad hanesyddol.

- **Canol y Dref** Yn cynnwys Back Lane, Ffordd Glanymor, Wdig Hill, Main Street, Y Sgwâr, rhan o Clement Road, Pant yr Ychain
- **Tir i'r Gogledd** Yn cynnwys Ffordd y Cei a New Hill
- **Tir i'r De** Yn cynnwys Plasygamil Road, Church Terrace a St Davids Place

4.4.2 Mae’r 'Map ardaloedd cymeriad' yn dangos maint bob ardal cymeriad (gweler Atodiad 1). Mae pob adran isod yn trafod yn gryno’u datblygiad hanesyddol ac yn crynhoi prif nodweddion y parth.

### Ardal Cymeriad 1: Canol y Dref

4.4.3 Mae ardal cymeriad canol y dref yn cwmpasu prif graidd Fictoraidd tref Wdig gan gynnwys Main Street, Wdig Hill, Rhan o Ffordd Glanymor, Clement Road a

[14] Cofrestr Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro o Dirluniau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Rhan 1 Parciau a Gerddi, Cadw 2002.

Phant-yr-ychain. Ceir map o Ffiniau'r Ardal Cymeriad yn Atodiad 1.

*Main Street*

4.4.4 Mae'r manylion gwreiddiol a'r undod ar hyd Main Street yn golygu ei bod yn enghraifft wych o dreflun masnachol Fictoraidd, a fyddai wedi bod yn ganolbwynt y gymuned a datblygodd mewn ymateb i'r ffyniant a ddaeth yn sgil y rheilffordd. Mae'r rhan fwyaf o'r wynebau siop wedi cadw nodweddion gwreiddiol, gan gynnwys arddull ffenestri a drysau, ond bellach mae llawer o'r eiddo yn breswyl eu defnydd yn unig ac mae llawer wedi colli eu harwyddion. Yn wreiddiol byddai llawer o'r siopau wedi cael llythrennau wedi'u paentio â llaw ar yr astell dywydd bren ac mae'n debyg bod ganddynt gysgodlenni plygu allan a oedd yn cynnwys hysbysebion. Mae'r eiddo'n gallu cael eu hadfer i siopau â llety byw uwchben os bydd y cyfle'n codi.



Golygfa o Wyneb Siop Traddodiadol ar Main Street Wdig, Golygfa o Gwalia House a'r gogledd ar hyd Main Street (26.3.15)



4.4.5 O ran cymeriad ac arddull, mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau ar hyd Main Street yn cynnwys dau i dri o loriau, llawer ag ystafelloedd wedi'u creu yn y to. Mae'r llinell bondo yn ddi-dor ar y cyfan ar hyd Main Street, ond mae talcenni yn ei thorri mewn mannau, â ffenestri wedi'u gosod ar lefel bondo neu uwch. Mae gan rhai eiddo ffenestri bae ar y llawr gwaelod, mae gan rai eraill ffenestri oriel ar y llawr cyntaf, ac mae gan rai ffenestri bae parhaus y cyfan wedi'u hadeiladu o bren a'u paentio, ac maent yn torri ar rythm ffasâd y stryd. Mae'r ffenestri traddodiadol sydd wedi'u cadw yn ffenestri codi, â phedwar paen yn bennaf, ond mae pob un â phwyslais fertigol ac wedi'u gosod i mewn i agoriadau oddeutu 75 mm - 100mm o ffasadau. Ceir cryn dipyn o enghreifftiau o ffenestri pren casment a rhai â'r rhan uchaf yn agor, ond yn gyffredinol mae'r rhain i ffwrdd o Main Street. Mae gan ffenestri tri o'r adeiladau ag wyneb brics amgylchynol sydd wedi'u hadeiladu mewn bric o wahanol liw sy'n pwysleisio'r agorfa ac yn ei haddurno (gweler ffotograff 11). Yn anffodus, ers canol y 1960au bu colled raddol o ffenestri pren y llawr cyntaf, a gosodwyd ffenestri upvc yn

lle nifer fach ohonynt.

4.4.6 O ran cymeriad y deunyddiau a'r toeau, mae goledd y toeau 35 - 45 gradd ar y cyfan, wedi'u gorffen â llechi o chwarel lleol, ac mae gan lawer o deils crib clai wedi'u haddurno, â nifer fawr o derfyniadau clai wedi'u haddurno a simneiau bric â llawer o fanylion. Mae llawer o doeau wedi cael eu haddasu'n fewnol i ddarparu ystafelloedd ychwanegol â ffenestri ‘Velux’ wedi'u gosod yn y goleddau, hyd yn oed mewn adeiladau â ffasadau uwchraddol. Fodd bynnag, mae gorffeniadau wal yn amrywiol; mae gan rai rendr calch neu sment â chonglfeini â manylion plastr a godwyd ac o amgylch agoriadau, mae rhai wedi'u paentio, mae ffasadau gwaith carreg wedi'u pwyntio gan rai, â manylion bric coch o amgylch yr agoriadau, ac mae rhai o frics deuliw.



Golygfeydd o Goedwig Villas, Main Street Wdig (26.3.15)

4.4.7 Ar hyn ochr gogleddol Main Street mae gan yr eiddo dau i dri o loriau, rhai â thoeau goleddol ffenestri dormer mawr serth iawn sy'n rhan o'r ffasâd, a rhai â ffenestri dormer wedi'u gosod yn ôl ar do goleddol. Mae rhai ffenestri bae ar y llawr gwaelod hefyd, â gerddi blaen bach wedi'u hamgáu gan waliau carreg a rheiliau a gatiau haearn gyr wedi'u paentio. Mae'r cyfuniad ac amrywiaeth hwn o nodweddion yn sicrhau grŵp o adeiladau sy'n ddymunol yn esthetig, nodweddiadol Fictoraidd, mewn cyflwr heb eu haddasu ar y cyfan gan greu "gwerth grŵp" cryf a ffurfio strydlun dymunol.

*Wdig Hill*

4.4.8 Mae eiddo ar hyd llethr serth Wdig Hill yn dyddio o ddechrau i ganol y 19$^{eg}$ Ganrif, wedi'u hadeiladu ar yr ochr o'r ffordd sy'n wynebu'r de ddwyrain ar draws y bae. Mae'r eiddo hyn yn tramwyo'r llethrau serth â nifer o geinciau mynediad, ac yn cynnwys amrywiaeth o arddulliau ac oedrannau adeiladu, ond yn gyffredinol maent yn dai teras dau lawr neu dai ar wahân mwy o faint.

4.4.9 O ran cymeriad ac ymddangosiad, nid yw un disgrifiad pensaernïol yn addas ond ymhlith y manylion sy'n uno mae pwyslais fertigol ffenestri codi pren wedi'u

paentio ac amrywiaeth o ffurfweddiadau paen o 2 i 12 paen. Mae'r amrywiaeth o ffenestri dormer mewn toeau a ffenestri bae pren, rhai ar y llawr gwaelod â thoeau wedi'u gorchuddio â phlwm gyrru, rhai ar y llawr cyntaf, a rhai'n ffurfio baeau uchder llawn sy'n rhan o'r ffasâd strwythurol, â ffenestri pren wedi'u gosod i mewn i'r estyniadau, rhai â thoeau bron â bod yn fflat wedi'u gorchuddio â phlwm, a rhai â thoeau llechi goleddol drostynt ar wahân i'r prif do, ag estyll tywydd addurnol, yn ychwanegu'n fawr at gymeriad a diddordeb arbennig y strydlun. Yn aml yn estyniad o'r ffasâd, mae gan lawer o eiddo goleddau serth 40 – 45 gradd, â manylion addurniadol fel estyll tywydd, terfyniadau a theils crib addurnedig, â ffenestri wedi'u gosod uwchben, hanner ffordd neu islaw'r llinell bondo, ac yn gymesur fel eu bod yn llai na'r ffenestri ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf, ond yn debyg o ran arddull. Mae bondo agos ag estyll tywydd 150mm o ddyfnder nwyddau dŵr glaw haearn bwrw hanner crwn yn gysylltiedig, simneiau bric coch, gorffeniadau cerrig wedi'u pwyntio neu rendr calch / sment wedi'u paentio, bandiau plastr a godwyd o amgylch agoriadau a chonglfeini â manylion plastr a godwyd hefyd yn ychwanegu diddordeb at y strydlun. Mae gan lawer o eiddo ar hyd llethrau serth y ffordd waliau blaen cynhaliol, y rhan fwyaf wedi'u hadeiladu o gerrig, a rhai â rendr.





Golygfa o Stone Hall, Wdig Hill (26.3.15)

Golygfa o Dŷ Glandwr a Gwylfa, Wdig Hill (26.3.15)

*Ffordd Glanymor*

4.4.10 Mae Ffordd Glanymor yn rhedeg yn yr un cyfeiriad ag Wdig Hill ond ar lefel is ac mae'r eiddo ar yr ochr gogleddol wedi datblygu yn raddol. Mae eiddo Fictoraidd bric coch â thri llawr â phedair ffenestr bae bric uchder llaw a manylion unigol ar y to yn torri i fyny llinellau plaen yr eiddo eraill, â manylion bandiau bric melyn, a simneiau bric addurniadol mawr â photiau clai.

4.4.11 Yn gyffredinol ceir llinell adeiladu wedi'i diffinio'n dda ar hyd Ffordd Glanymor, o fewn yr Ardal Gadwraeth, â'r rhan fwyaf o eiddo wedi cynnwys a'u gwarchod rhag ochr y ffordd gan gerddi blaen bach wedi'u hamgáu gan waliau bric neu gerrig â cholofnau a meini copa gatiau, rhai ag enghreifftiau da o waith haearn gyr o ddiwedd

y 19$^{eg}$ Ganrif, ac amrywiaeth o gatiau pren neu haearn gyr wedi'i baentio. Nid oes unrhyw lwybrau troed ffurfiol yma, felly mae'n cael ei ystyried fel lôn, ond ceir dau lwybr troed serth a llwybr i gerbydau o'r enw Back Lane, sy'n cysylltu ag Wdig Hill.

4.4.12 Mae'r tai teras a saif o fewn yr Ardal Gadwraeth ar hyd Ffordd Glanymor yn cynnwys nifer o barau o dai dau lawr syml sy'n dynodi bod y teras wedi'i adeiladu yn raddol, ac mae pob pâr yn arddangos amrywiaeth o fanylion unigol, sy'n gwneud y strydlun yn ddiddorol.Ymhlith yr elfennau sy'n uno'r eiddo mae simneiau bric coch, toeau llechen naturiol goledd 35 gradd â theils crib ag uniad bôn, ffenestri codi pren â phwyslais fertigol â ffenestri llawr gwaelod sy'n fwy na rhai'r llawr cyntaf, bandiau plaster addurniadol a godwyd uwchben neu o amgylch agoriadau a chonglfeini â manylion ar gorneli, manylion bondo agos ag estyll tywydd syml a chwteri dŵr glaw haearn bwrw hanner cylch a phibau dŵr 75mm o ddiamedr yn gysylltiedig â'r wynebau. Mae rendrau'n amrywio o blastrau calch llyfn wedi'u paentio, i rendrau chwipio â gro hunan-lliwio, ag agoriadau addurniadol gan gynnwys cornisiau, bandiau plastr o godwyd o amgylch agoriadau a chonglfeini plaster wedi'u paentio.





Golygfa o Rewey Terrace, Ffordd Glanymor (26.3.15) a (Ffotograff 18a) o French Walk Abergwaun

4.4.13 Mae Rewey Terrace (uchod) ym mhen gorllewinol Ffordd Glanymor yn cynnwys dau bâr o filâu Edwardaidd drych-ddelwedd, pob un â ffenestri bae uchder llawn sy'n estyn allan. Mae mynedfeydd cyfagos ag un canopi / balconi cul yn rhedeg rhwng y ffenestri bae a rheiliau addurnol o haearn gyr cain, gorffeniadau plastr llyfn â bandiau plastr llorweddol a chonglfeini â manylion a godwyd, yn nodweddu'r filâu sy'n sefyll fel teras llorweddol ar ochr y bryn.

4.4.14 I grynhoi, mae Ffordd Glanymor yn cynnwys adeiladau syml dau lawr o ddiwedd y 19$^{eg}$ a dechrau'r 20$^{fed}$ Ganrif, pob un â golygfeydd panoramig ar draws Bae Wdig a thu hwnt. Mae'r eiddo hyn wedi datblygu yn raddol ers adeiladu Glanymor ac yn arddangos amrywiaeth o arddulliau a gorffeniadau, ac mae llawer o'r manylion gwreiddiol yn dal i'w gweld o fewn yr Ardal Gadwraeth.

*Clement Road a Phant-yr-ychain*

4.4.15 Ymhellach i'r gogledd ar hyd y llethr arfordir yng nghyffiniau Clement Rd a Phant-yr-ychain ceir amrywiaeth o dai o ddechrau'r 19eg Ganrif, ar rhai eiddo hŷn ar Clement Road, pob un yn manteisio ar olygfeydd panoramig ar draws y bae. Yn gyffredinol mae adeiladau ar y llethrau arfordirol wedi gogwyddo i fanteisio ar y golygfeydd o'r môr, yn edrych dros y bae, a'u lleoliad, yn uchel i fyny ar y llethrau yn y dirwedd arfordirol naturiol. Mae'r golygfeydd o'r rhan hon o'r Ardal Gadwraeth yn ychwanegu'r fawr at swyn a diddordeb arbennig y dref wrth edrych o'r de.

4.4.16 Mae Clement Terrace ar ben gogleddol Clement Road yn deras ar raddfa fwy o eiddo o ganol i ddiwedd y 19eg Ganrif â phen teras crand o dri phâr o ddwy fila drych-ddelwedd. Adeiladwyd pob fila â ffenestri bae yn codi i ffurfio ffenestri dormer mawr yn y to uwchben llinell bondo'r eiddo ac â chanopïau pren dros fynedfeydd sy'n gysylltiedig yn agos. Mae'r eiddo tal hyn yn un o nodweddion trawiadol y dref wrth edrych o'r de.





Clement Terrace, i'r gogledd o Clement Road, Spring Gardens a Bronwydd, Pant-yr-ychain (26.3.15)

4.4.17 Dyffryn serth a choediog yw Pant-yr-ychain ar bwynt gogledd orllewinol Ardal Gadwraeth Wdig. Mae gan bob eiddo yn y cyffiniau ei gymeriad unigryw ei hun sy'n gysylltiedig â'i bwrpas gwreiddiol, naill ai fel llety i weithwyr chwarel, tai gwaith, neu, wrth i'r boblogaeth ehangu ac i fwy o gyfoeth gael ei gronni, ychwanegwyd tai gwledig mwy, a mwy uchelgeisiol, at y stoc tai. Ym mhen gogleddol Pant-yr-ychain, yng nghyffiniau Phoenix House, ceir hen chwarel gerrig.

4.4.18 Ymhlith yr aneddiadau nodedig ym Mhant-yr-ychain mae grŵp o bedwar bwthyn carreg mewn cyflwr da o ddechrau i ganol y 19fed Ganrif o'r enw Spring Hill, Cerrig Dwr, Spring Gardens and Bronwydd, mae'r ddau isaf yn cynnwys nodwedd dŵr yn rhedeg trwodd sy'n dynodi tystiolaeth debygol o'u defnydd cynharach fel adeiladau melin.

4.4.19 Ymhellach, ar frig y lôn serth iawn hon mae Penseren sy'n ymddangos fel dau

fwthyn o'r 19eg ganrif. Mae gan y bythynnod hyn doeau llechi goledd isel a thai allan tua'r gogledd, ac yn anarferol, yn wynebu'r gogledd ddwyrain. Mae ffenestri dormer y bythynnod yn fwy na ffenestri'r llawr gwaelod ac yn edrych yn anghymesur, â waliau calchfaen wedi'u pwyntio â rwbel ar hap.



Penseren, Pant-yr-ychain (26.3.15)

4.4.20 Yn gyffredinol mae'r Parth Cymeriad hwn yn cynnwys craidd hanesyddol tref Wdig ag adeiladau hanesyddol sy'n amrywio mewn oedran o ddechrau'r 1800au i ddechrau'r 1900au. Adeiladwyd yr adeiladau hyn o ganlyniad i elwa ar ochr y bryn ar gyfer chwarelu, ac mae'r map hanesyddol o 1843 (Atodiad 1) yn dangos lleoliad tri phwll graean ar hyd New Hill yn ogystal â chwareli i'r gogledd a'r de i'r dref.

4.4.21 Mae canol y dref a'r terasau ar hyd Main Street yn allweddol i gymeriad yr ardal hon, â thai a siopau Fictoraidd mewn cyflwr da yn ganolbwynt yr Ardal Gadwraeth yn y parth cymeriad hwn. Mae adeiladau ar hyd Main Street o werth sylweddol, yn unigol ac at ei gilydd fel gwerth grŵp. Dylid annog adfer nodweddion traddodiadol gan ddefnyddio deunyddiau lleol traddodiadol ym mharth cymeriad ehangach canol y dref er mwyn cadw ei statws 'ardal o ddiddordeb arbennig'.

4.4.22 Mae eiddo o fewn yr Ardal Gadwraeth sy'n ymestyn ar hyd Wdig Hill (i'r de o Precelly Crescent), ar hyd Glanymor Road ac ar hyd Clement Road a Pant-yr-ychain â nodweddion eraill sy'n cyfrannu'n sylweddol at ei chymeriad, er colli manylion ar rai eiddo.Cynigir newidiadau i ffin yr Ardal Gadwraeth yn yr ardal i'r gogledd o Wdig Hill i gynnwys eiddo ychwanegol â manylion pwysig, a'u cwrtilau, oherwydd eu bod yn cyfrannu at gymeriad yr Ardal Gadwraeth.

**Ardal Cymeriad: 1 Crynodeb ac Argymhellion.**

**Yn gyffredinol mae'r Parth Cymeriad hwn yn cynnwys craidd hanesyddol tref Wdig ag adeiladau hanesyddol sy'n amrywio mewn oedran o ddechrau'r 1800au**

**i ddechrau'r 1900au. Adeiladwyd yr adeiladau hyn o ganlyniad i elwa ar ochr y bryn ar gyfer chwarelu. Roedd tri phwll graean ar hyd New Hill yn ogystal â chwareli i'r gogledd a'r de i'r dref.**

**Mae canol y dref a'r terasau ar hyd Main Street yn allweddol i gymeriad yr ardal hon, â thai a siopau Fictoraidd mewn cyflwr da yn ganolbwynt yr Ardal Gadwraeth yn y parth cymeriad hwn. Mae'r pwyslais masnachol yn helpu i'w gynnal fel canolbwynt i'r gymuned, er bod llawer o eiddo bellach yn breswyl maent wedi cadw'r wynebau siop hanesyddol.**

**Dylid cadw'r nodweddion hyn oherwydd eu bod yn gydran fawr o 'ddiddordeb arbennig' yr Ardal Gadwraeth. Yn benodol, lle cynigir newidiadau i eiddo masnachol, dylid cadw wynebau siop hanesyddol a thraddodiadol.**

**Er bod nifer o ardaloedd lle mae golygfeydd panoramig yn bosibl, mae diffyg llwybrau troed ar hyd Wdig Hill yn rhwystr sylweddol i gerddwyr. Mae iardiau blaen bach yn cyfyngu'r cyfle i barcio o fewn cwrtilau yn y rhan fwyaf o leoedd a dylid cadw'r rhain i atgyfnerthu cymeriad yr ardal.**

**Mae'r ardal cymeriad hon yn arddangos amrywiaeth o strwythurau a ffurfiau pensaernïol, ond mae manylion sy'n uno'n cynnwys ffenestri codi â phwyslais fertigol. Er y nodwyd rhywfaint o golli manylion, ar y cyfan colled ffenestri pren traddodiadol yw hyn, ac mae'r golled hon yn wrthdroadwy. Ceir cryn dipyn o enghreifftiau o ffenestri pren casment a rhai â'r rhan uchaf yn agor, ond yn gyffredinol mae'r rhain i ffwrdd o Main Street.  Dylai'r Cyngor annog ail-osod manylion o ddeunyddiau traddodiadau lleol trwy ganllawiau dylunio priodol.**

**Yn yr Ardal Gadwraeth dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn gosod dysglau lloeren a cheblau a gwifrau cyfleustodau ar brif ffasâd adeiladau, ond gellir cuddio gwifrau hanfodol, os byddant yn cael eu rhedeg ar hyd llinell y bondo.**

**Dylai'r defnydd o ddeunyddiau yn nhir y cyhoedd fod yn addas a chydnaws â chymeriad hanesyddol yr ardal a cheisio lleihau dyluniadau ac arddulliau modern gymaint â phosibl.**

**Er mwyn sicrhau bod deunyddiau adeiladu traddodiadol yn cael eu defnyddio, argymhellir ymchwilio pellach i mewn i gael gwared ar hawliau Datblygu a Ganiateir trigolion trwy Gyfarwyddyd Erthygl 4 i helpu i ddiogelu nodweddion sy'n elfennau allweddol o gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth.**

**Cynigir newidiadau i ffin yr Ardal Gadwraeth yn yr ardal i'r gogledd o Wdig Hill i gynnwys eiddo ychwanegol â manylion pwysig, a'u cwrtilau, oherwydd eu bod yn cyfrannu at gymeriad yr Ardal Gadwraeth.**

## Ardal Cymeriad 2: Tir i'r Gogledd



Golygfeydd sy'n cynnwys y rhan fwyaf o Ardal Cymeriad 2 o'r Parrog (23.11.15)

4.4.23 Mae'r Tir yr ardal cymeriad Gogledd yn cwmpasu cornel gogledd ddwyreiniol yr Ardal Gadwraeth ar hyd New Hill a Ffordd y Cei. Oherwydd y topograffi eithafol, ynghyd â'r rhwydwaith strydoedd ffurfiol, cafodd system o lwybrau troed hynafol eu cerfio trwy ddefnyddio (yn ddiweddarach cawsant eu ffurfioli i ddod o hawliau tramwy a llwybrau caniataol) yn dynodi'r parth cymeriad hwn (Atodiad 1). Mae'r llwybrau hyn, a datblygodd o amgylch y dref ar ffurf llethrau igam-ogam a cheinciau serth, yn creu cysylltiadau ychwanegol a mwy uniongyrchol o'r strydoedd gogleddol, caeau pellennig, chwareli ac ati, â'r glannau, canol y dref a'r tai ar hyd y llethr arfordirol serth. Ar hyn o bryd mae eiddew yn heidio dros lawer o'r tir hwn, a rhywogaethau coed sydd wedi hunan-hadu ac sy'n dirywio y mae angen eu tocio neu gael gwared arnynt i gynnal y cysylltiadau a llwybrau troed hanesyddol sy'n rhan annatod o gymeriad yr Ardal Gadwraeth.

*New Hill*

4.4.24 Mae New Hill yn rhedeg i'r gogledd o ganol tref Wdig ac yn cynnwys ardal breswyl yn uchel uwchben yr harbwr, yn y pen draw yn ymuno â Phentre'r Harbwr i'r Gogledd, sydd y tu allan i'r Ardal Gadwraeth. Yn estyn i'r gogledd heibio Eglwys Bresbyteraidd Berachah, Adeilad Rhestredig Gradd II sy'n dyddio'n wreiddiol o 1830, yn nodweddiadol mae New Hill yn wyrdd a deiliog ei natur, â chymysgedd o arddulliau a mathau o eiddo preswyl a wal cerrig cryf yn eich tywys i fyny i'r gogledd o'r Dref.



Uchod, Laurels Cottages, i'r gogledd o Eglwys Bresbyteraidd Berachah, New Hill.



Chwith: Sunnyside, New Hill (26.3.15)

4.4.25 Ymhlith eiddo sylweddol yn y parch cymeriad hwn mae Heather Cop, Coach House a Sunnyside. Fila Fictoraidd fawr traddodiadol â dau lawr yw Heather Cop (a adeiladwyd 1891-1912) yn uchel i fyny o'r ffordd ac i fyny ffordd serth, â tho llechi goledd 40 gradd, simneiau bric â rendr, dwy ffenestr bae ar y llawr gwaelod â thoeau llechi goledd a ffenestri codi uwchben, a ffenestr ganolog ar y llawr cyntaf. Ger Heathercop mae Coach House (1891-1912), eiddo a gafodd ei foderneiddio'n helaeth a bellach mae'r rhan fwyaf o'i nodweddion gwreiddiol o ddiwedd y 19$^{eg}$ Ganrif wedi mynd. Sunnyside yw'r cynharaf yn y grŵp, ac mae'n ymddangos ar fap hanesyddol 1843– 93 (Atodiad 1) fel New Hill Cottage.  Tŷ traddodiadol a adeiladwyd o garreg â dau lawr yw Sunnyside, â tho goledd 30 - 35 gradd, simneiau bric ar bob pen, ffenestri codi 'wedi'u gosod i mewn', â gwahanol fandiau addurnol o amgylch agoriadau a wal blaen gwaith bloc modern sy'n gwahanu'r tŷ o'r ffordd.

4.4.26 Dau eiddo tŷ pâr preswyl nodedig pellach ar derfyn gogleddol yr Ardal Gadwraeth yw Heatherland a Tenby House. Mae'r eiddo hyn yn filâu ôl-Edwardaidd nodweddiadol mawr a adeiladwyd rhwng 1919 - 1943 â tho a llinell bondo di-dor, ond gwahanol fanylion ffenestri a ffasâd. Mae gan y ddau adeilad bresenoldeb trawiadol ar ochr y bryn, yn rhannol oherwydd talcen mawreddog Heatherland sy'n wynebu'r de. Ceir nifer o adeiladau allanol yng nghefn yr eiddo, a defnyddiwyd un o'r adeiladau hyn fel sinema fach yn y 1950au.





Heatherland a Tenby House, New Hill a Ffotograff 25: Landscape Cottage, New Hill (26.3.15)

4.4.27 Yn gyffredinol mae'r tir i'r gogledd a'r dwyrain i'r eiddo hyn yn cael ei eithrio o'r Ardal Gadwraeth, oherwydd yn gyffredinol mae'n ddatblygiad mwy modern yn yr ardal

o'r enw Pentre'r Harbwr. Yr eithriad i hyn yw'r eiddo o'r enw New Hill Villas 9-14, sydd â nodweddion tebyg i  New Hill Villas 1-8 ac Upper a Lower Porthceri sydd eisoes wedi cael eu cynnwys o fewn Ffin yr Ardal Gadwraeth, a hefyd bwthyn traddodiadol un llawr sy'n wynebu'r ffordd o'r enw Landscape Cottage, sy'n dau  llawr mewn gwirionedd wrth edrych o'r de-ddwyrain. Ar un adeg roedd Landscape cottage yn swyddfa gydlynu ar gyfer preswylwyr Harbour Village a oedd yn gweithio i adeiladau'r rheilffordd a'r fferi.Mae eiddo o'r fath yn cynrychioli ymyl craidd hanesyddol Tref Wdig, ac yn darparu ffin gref ar gyfer yr Ardal Gadwraeth, cyn symud i mewn i'r Pentre'r Harbwr mwy modern.

*Ffordd y Cei*

4.4.28 Mae Ffordd y Cei yn rhedeg islaw New Hill ac yn cynnwys nifer o adeiladau unigol o ddechrau i ganol y 19$^{eg}$ Ganrif mewn amrywiaeth o arddulliau a meintiau. Mae adeiladau'n amrywio o fythynnod syml i weithwyr ar raddfa fach â 2 lawr, i barau o dai bric arddull fila d â 3 llawr. Mae gorffeniadau'r adeiladau hefyd yn amrywio o rendr llyfn wedi'i baentio, mowldin plastr addurniadol, i'r rheiny â manylion bric addurniadol, rhai â thoeau llechi plaen a rhai â thoeau a ffenestri dormer goleddol mawr. Mae'r adeiladau cynharach o'r 19$^{eg}$ Ganrif yn adlewyrchu gweithgareddau'r adeg pan gawsant eu cysylltu'n bennaf â gweithgareddau amaethyddiaeth, pysgota a chwarelu. Yn ddiweddaraf gwnaeth tai mwy crand ymuno ag eiddo o'r fath a oedd yn gysylltiedig ag anheddau trigolion mwy cyfoethog i'w briodoli i well hygyrchedd drwy ffyrdd a rheilffyrdd, a phoblogrwydd cynyddol Wdig fel tref arfordirol gysgodol.

Siriole 1-2, Ffordd y Cei a  Ffotograff 27: Stanley House, Ffordd y Cei (26.3.15)





4.4.29 O ran cymeriad ac arddull, mae'r manylion yn amrywio rhwng adeiladau Fictoraidd ac Edwardaidd dau lawr a dau a hanner llawer sydd wedi datblygu'n raddol yn y parth cymeriad hwn. Mae'r rhan fwyaf o adeiladau wedi cadw eu manylion gwreiddiol, ac yn enwedig, y ffenestri bae codi traddodiadol â nifer o baenau â mowldin manwl iawn ar gyfer y myliynau a thransomau. Ymhlith manylion sy'n uno'r adeiladau Fictoraidd ac Edwardaidd hwyrach mae ffenestri bae llawr

gwaelod â thoeau plwm fflat, ffenestri bae â ffenestri codi fertigol wedi'u gosod i mewn i'r blaen a'r ochrau, toeau llechi naturiol goledd 40 gradd ar y cyfan, ac estyniadau bae dwbl â ffenestri dormer to goledd tal yn ffurfio estyniad o'r ffasadau , ac yn terfynu uwchben lefel y bondo â thoeau ar wahân. Mae gan y rhan fwyaf o eiddo erddi blaen bach, â wal, uwchben y ffordd, a cheir amrywiaeth o ran arddull y gwaith haearn gyr yn ogystal ag adeiladwaith y wau, mae rhai yn gerrig wedi'u pwyntio, mae rhai wedi'u rendro neu'n frics, ac mae gan bob un â cholofnau a meini copa sgwâr gatiau ac amrywiaeth o reiliau a gatiau haearn gyr gwreiddiol wedi'u paentio, sy'n ychwanegu at wead ac amrywiaeth y strydlun. Ymhellach, mae gan lawer o'r tai ar hyd Ffordd y Cei erddi serth, haenog i'r cefn, sy'n ychwanegu diddordeb ar hyd y ffordd, oherwydd gellir eu gweld yn glir yn y bylchau rhwng yr eiddo.

4.4.30 O ran manylion eiddo penodol, mae'r eiddo olaf ar hyd Ffordd y Cei, Rocket Cottage, wedi cael ei addasu'n ddiweddar yn helaeth o'i ffurf wreiddiol, ei ymestyn ag agoriadau traddodiadol ac arddull gothig, ffenestri dormer to modern, ac ystafell wydr fodern a theras wedi'i adeiladu dros 2 garej. Saif ar wahân i weddill y teras ond nid yw'n amharu'n ddifrifol ar y tai traddodiadol, sy'n ddigyffwrdd yn bennaf, ar hyd y ffordd hon. Ymhellach, ychydig y tu hwnt i fynedfa Gwesty Fishguard Bay mae Penrhyn, fila fawr o ddiwedd y 19$^{eg}$ Ganrif ymhell uwchben lefel y ffordd. Mae'r holl fanylion gwreiddiol yn gyflawn â manylion sgroliau plastr Rococo unigryw wedi'u hadeiladu uwchben y bondo'n addurno'r cilbyst ar bob ochr i'r ddwy ffenestr dormer; mae ganddo ffenestr gain ar y llawr cyntaf â linteri bwa isel, a myliynau a thronsomau manwl iawn i ffenestri bae'r llawr gwaelod.



Penrhyn, Ffordd y Cei (26.3.15)

4.4.31 Daw Ffordd y Cei i derfyn yng Ngwesty Fishguard Bay (Ffotograff 9), Adeilad Rhestredig Gradd II â phresenoldeb pensaernïol mawr, yn erbyn cefndir coetir dramatig â golygfeydd ysblennydd yn edrych i'r de ar draws y bae a thuag at Abergwaun. Mae'r adeilad yn dirnod eiconig wrth edrych o'r de ar hyd Parrog Wdig ac

o dref Abergwaun (Ffotograff 1), fel y dirwedd naturiol sydd o'i amgylch.

**Ardal Cymeriad: 2 Crynodeb ac Argymhellion.**

**4.4.32 Mae datblygiad ar hyd lethr serth a garw agwedd ogleddol Ardal Gadwraeth Wdig wedi bod yn broses raddol a gyfyngwyd gan dopograffi serth. Mae'r tai wedi datblygu o fythynnod gweithwyr ac adeiladau sy'n gysylltiedig â gwaith o ddechrau'r 19eg Ganrif i'r terasau o dai Fictoraidd a adeiladwyd i roi cartref i weithwyr wrth ehangu fferis a'r porthladd, ac yn ddiweddarach eiddo unigol Fictoraidd ac Edwardaidd a adeiladwyd ar gyfer y gweithwyr proffesiynol mwy cyfoethog. Adeiladwyd rhai eiddo yn benodol fel gwestai, tafarndai neu lety ar gyfer teithwyr a phobl ar eu gwyliau.**

**4.4.33 Mae angen monitro a chynnal llawer o'r waliau carreg ger llwybrau troed ac wrth ochrau ffyrdd sy'n rhan o'r diddordeb arbennig. O ran colli nodweddion traddodiadol, ffenestri a drysau yn bennaf, gellir gwrthwneud llawer o'r golled hon trwy ailosod ffenestri a drysau pren traddodiadol.**

**4.4.34 O ran pwysau uniongyrchol ar yr Ardal Gadwraeth, mae'n annhebygol y bydd galw sylweddol am ddatblygu ar hyd ymyl gogleddol ffin yr Ardal Gadwraeth oherwydd natur y dirwedd a'r ffiniau anheddiad llym a orfodwyd gan y Cynllun Datblygu ar gyfer Sir Benfro a fabwysiadwyd, a dylid cadw at y dull hwn o weithredu ar gyfer unrhyw adolygu neu ddisodli yn achos y Cynllun Datblygu Lleol. Fodd bynnag cynigir newidiadau i ffin yr Ardal Gadwraeth yng nghyffiniau Filâu New Hill a Landscape Cottage er mwyn eu cynnwys yn yr Ardal Gadwraeth a chael eu hamddiffyn ymhellach gan y dynodiad.**

**4.4.35 Yn gyffredinol mae annibendod gweledol wedi'i gyfyngu i bolion telegraff a goleuadau stryd ar y cyd a dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod hyn yn parhau i gael ei leihau gymaint â phosibl. Byddai canllawiau ynghylch lleoliad priodol dysglau lloeren, ceblau a gwifrau ar gefn ddrychiadau yn helpu i leihau ymyrraeth weledol.**

**4.4.36 Ni ddylid bychanu pwysigrwydd gosodiad y dirwedd ac ardal goetir yn y parth cymeriad hwn, ac felly cynigir ymestyn ffin yr Ardal Gadwraeth i'r de o Ffordd y Cei. Yn gyffredinol mae'r tir dan mewn perchnogaeth breifat a dylai'r Cyngor gynghori ar ei reolaeth tymor hir. Gall tir heb ei ddatblygu ac ardaloedd bach o dir sydd wedi'u hesgeuluso ac mewn cyflwr gwael yn y parth cymeriad hwn gyfrannu'n sylweddol at ei gymeriad. Felly dylid annog perchnogion i gynnal yr ardaloedd hyn yn briodol i sicrhau eu bod yn cynnal eu rôl wrth gyfrannu at gymeriad yr ardal. Mae Gerddi Hanesyddol Gwesty Fishguard Bay yn gwneud cyfraniad sylweddol ac mae'n bwysig eu cadw a'u cynnal.**

**Ardal Cymeriad 3: Tir i'r De**

4.4.37 Mae'r Tir i'r De o'r ardal cymeriad yn cwmpasu cornel deheuol yr Ardal Gadwraeth, yn cynnwys eiddo preswyl yn bennaf ar hyd Church Terrace a Plasygamil Road, St Davids Place ac yn cynnwys Dyffryn House.

*Church Terrace a Phlasygamil Road*

4.4.38 Mae Church Terrace yn deras o 8 eiddo gyferbyn Eglwys Sant Pedr sy'n Rhestredig Gradd II, eglwys arddull gothig a adeiladwyd yn 1910-1911 (gweler Atodiad 1). Mae llawer o fanylion gwreiddiol Church Terrace wedi cael eu colli trwy foderneiddio, ac eithrio rhif 5 sydd wedi cadw'r holl fanylion gwreiddiol a dylid ei gadw felly – gweler isod.



Rhif 5 Church Terrace (26.3.15)

4.4.39 Mae Church Terrace yn cysylltu â therasau hir Plasygamil Road, stryd Fictoraidd draddodiadol o 40 eiddo. Nifer fach o ffenestri bae llawr gwaelod yw'r unig bethau sy'n torri ar y ffryntiad di-dor â rendr ar hyd y stryd, ac mae gan bob un gerddi blaen bach â waliau cerrig wedi'u paentio o'u hamgylch ag amrywiaeth o reiliau a gatiau haearn gyr arnynt. Mae agoriadau drws a ffenestr y rhan fwyaf o'r aneddiadau â bwâu isel, ac mae gan lawer o'r agoriadau bandiau plastr a godwyd o'u hamgylch, a manylion plastr llorweddol di-dor rhwng y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf. Mae natur ddi-dor y llinell bondo a'r gefnen, yr un lled a staciau simneiau brics coch cytbell, a thebygrwydd o ran manylion y ffyrntiadau'n creu rhythm trawiadol a nodedig ar hyd y stryd, ac fel Main Street mae'n enghraifft dda o dreflun Fictoraidd, ond bellach mae gan y rhan fwyaf o eiddo ffenestri upvc ansawdd gwael yn lle'r rhai gwreiddiol.



Plasygamil Road, golygfa tuag at Eglwys Sant Pedr (26.3.15)

*St Davids Place a Dyffryn House*

4.4.40 Ar ymyl deheuol Ardal Gadwraeth Wdig mae St Davids Place, stryd breswyl sy'n arddangos arddull gwahanol iawn i'r rheiny mewn mannau eraill yn yr Ardal Gadwraeth. Adeiladwyd eiddo yma i ddarparu cartrefi i weithlu a oedd yn ehangu'n gyflym wrth adeiladu'r porthladd yn y 1960au ac nid oes ganddynt lawer o gysylltiad pensaernïol â datblygiad hanesyddol gweddill y dref ynghyd â manylion a gorffeniadau deunydd ar wahân. Adeiladwyd yr eiddo â choncrit, mae ganddynt doeau goledd uchel clai coch arddull pyramid, ac mae gan bob un bron iawn ddrysau a ffenestri upvc yn lle'r rhai gwreiddiol ac mae gan bob un ffenestr fwa gantilifrog ar y llawr cyntaf ar sil corbelaidd. Mae waliau amgaeedig yr ardd wedi'u hadeiladu o waith bloc concrit nadd. Adeiladwyd yr eiddo hyn ar hyd ceinciau cul-de-sac byr ac mae'r aneddiadau ar y naill ben i'r stryd a'r llall yn fwy, sy'n awgrymu ei bod yn debyg y cawsant eu hadeiladu i weithwyr mewn swyddi rheoli/goruchwylio.



St. Davids Place (26.3.15)

4.4.41 Ar ben deheuol St Davids’ Place mae'r hyn sy'n debygol o fod yn dŷ hynaf tref Wdig sy'n goroesi, Dyffryn House, hen dŷ bonedd rhestredig Gradd II sy'n dyddio o'r 16$^{eg}$-17$^{eg}$ Ganrif (gweler Atodiad 1). Yn anffodus mae Dyffryn House wedi dioddef gan lawer o addasiadau amhriodol dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys ffenestri upvc a osodwyd yn y cefn.

**<u>Ardal Cymeriad 3: Crynodeb ac Argymhellion.</u>**

**4.4.42 Yn gyffredinol mae'r parth cymeriad hwn yn cael ei nodweddu gan gartrefi teuluol bach syml, a adeiladwyd gan ddefnyddio deunyddiau adeiladu lleol ac maent yn adeiladweithiau syml a godwyd â manylion unigol. Er bod rhai eiddo yn yr ardal wedi cael eu moderneiddio a cheir rhagoriaeth o ffenestri upvc, yn gyffredinol mae digon o undod a manylion gwreiddiol yn parhau i sicrhau eu bod yn cadw hunaniaeth grŵp gref ac yn adlewyrchu'r cyfnod yn glir a'r rheswm dros eu hadeiladu.**

**4.4.43 Fodd bynnag, mae St Davids Place, yn eithaf gwahanol o ran arddull a ffurf i'r ardaloedd eraill preswyl yn y parth cymeriad hwn. Fel y manylwyd uchod, mae'n cynnwys adeiladau mewn concrit o'r 1960au yn bennaf heb lawer o werth hanesyddol neu bensaernïol, ac am y rhesymau hyn cynigir ei eithrio o unrhyw ffin Ardal Gadwraeth yn y dyfodol. Ymhellach dylai Dyffryn House, i'r de o St Davids Place, gael ei eithrio o ffin yr Ardal Gadwraeth oherwydd, ei gwaethaf ei statws rhestredig Gradd II, mae wedi colli llawer o fanylion hanesyddol yn y blynyddoedd diwethaf. Ni fydd eithrio'r eiddo yn effeithio ar ei statws rhestredig, ond bydd yn caniatáu canolbwyntio'n gliriach ar graidd Fictoraidd tref Wdig, yn enwedig ar Main Street.**

**4.4.44 Yn yr Ardal Gadwraeth dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn gosod dysglau lloeren a cheblau a gwifrau cyfleustodau ar brif ffasâd adeiladau, ond gellir cuddio gwifrau hanfodol, os byddant yn cael eu rhedeg ar hyd llinell y bondo.**

**4.4.45 Dylai'r defnydd o ddeunyddiau yn nhir y cyhoedd fod yn addas a chydnaws â chymeriad hanesyddol yr ardal a cheisio lleihau dyluniadau ac arddulliau modern gymaint â phosibl.**

### 4.5 Adeiladau'r Ardal Gadwraeth

*Mathau o Adeiladau*

4.5.1 Nid oes unrhyw Henebion Rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth ond mae gan y dref nifer o adeiladau rhestredig Gradd II yn Wdig, yn ogystal ag adeiladau heb eu rhestru sy'n cyfrannu at y strydlun ac yn ychwanegu diddordeb o fewn yr Ardal Gadwraeth.

Mae adeiladau a therasau unigol sy'n werth eu crybwyll am eu bod yn cyfrannu at gymeriad cyffredinol y dref

- Rosslyn, Rhiw'r Orsaf
- Sefydliad Wdig
- Gwesty Fishguard Bay
- Penrhyn, Ffordd y Cei
- Eglwys Sant Pedr
- Gwylfa, Wdig Hill
- Swansea House
- 5 Church Terrace

4.5.2 Mae llawer o'r adeiladau yn Ardal Gadwraeth Wdig wedi datblygu yn raddol ac yn arddangos amrywiaeth o oedrannau, sy'n arwain at ddiffyg un dull pensaernïol o weithredu. Serch hynny, yn nodweddiadol mae terasau o aneddiadau yn Fictoraidd

ac wedi'u hadeiladu'n gyffredinol o frics coch a chalchfaen a gloddiwyd yn lleol, â rendrau smentaidd[15] yn seiliedig ar galch a nodweddion plastr addurniadol amrywiol, rhai â ffasadau cerrig nadd[16] llinellog, rhai wedi'u hadeiladu mewn bric menyn a choch Fictoraidd, a rhai â gorffeniad calchfaen wedi'i bwyntio. Yn gyffredinol mae toeau o lechi naturiol glas tywyll / llwyd, ac mae gan lawer o gribau deils crib clai coch (un o nodweddion cyffredin y dref), terfyniadau, a cheir llawer o staciau simnai hardd clai melyn a choch, fel arfer â phedwar neu fwy o botiau clai. Mae amrywiaeth o ffenestri dormer yno, â rhai ffenestri dormer talcen yn estyniad o ffenestri bae fertigol, ac yn rhan o ffryntiad yr adeilad, mae rhai yn llai â thoeau goledd ar wahân drostynt, ac wedi rhai wedi'u gosod yn ôl o'r bondo. Mae gan ffenestri bwyslais fertigol ac maent wedi'u gosod i mewn o'r ffasadau fel arfer hyd at 75mm, mae gan rai amgylchynau sy'n sefyll allan mewn brics neu fandiau plastr a godwyd.

4.5.3 Mae gan lawer o dai gerddi blaen bach, â waliau amgáu solid wedi'u hadeiladu o gerrig neu frics, rhai wedi'u rendro i gyfateb i'r tŷ. Mae waliau o'r fath yn cynnwys amrywiaeth o gatiau a rheiliau haearn gyr, ac mae llawer o adeiladau wedi'u rendro wedi'u paentio mewn amrywiaeth o liwiau pastel ysgafn.

*Adeiladau Rhestredig*

4.5.4 Mae adeilad rhestredig yn un sy'n cael ei gynnwys ar Restr Statudol y llywodraeth o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol Arbennig. Mae'r adeiladau hyn yn cael eu diogelu gan y gyfraith ac mae angen caniatâd oddi wrth Gyngor Sir Penfro cyn i unrhyw waith addasu, ymestyn neu ddymchwel gael ei gynnal. Ar hyd o bryd mae Adeilad Rhestredig Wdig yn cynnwys 10 adeilad rhestredig, pob un yn Radd II. Mae'r rhan fwyaf yn dyddio o'r 19$^{eg}$ ganrif.

Adeiladau mewn Perygl

4.5.5 Mae nifer o adeiladau hanesyddol sydd angen gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio cyffredinol, yn arbennig. Yn ogystal, mae nifer o'r Adeiladau Rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth hefyd yn dangos arwyddion o esgeulustod, dadfeiliad a dirywiad oherwydd diffyg cyllid neu gynnal a chadw ac mae'n bosibl y gallai'r rhain effeithio ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth. Efallai bydd cyfleoedd cyllido ar gyfer adeiladau hanesyddol ar gael gan Cadw neu ffynonellau eraill, er gall y meini prawf cymhwyso fod yn llym[17].

4.5.6 Nid oes unrhyw adeiladau mewn perygl ar y Gofrestr Adeiladau mewn Perygl

[15] Mae'r deunyddiau smentaidd yn cynnwys y glud sy'n dal concrit ynghyd. Maent yn cynnwys sment Portland traddodiadol neu gall fod yn lludw neu galchfaen er enghraifft.

[16] Gwaith maen wedi'i naddu'n gain, fel arfer wedi'i sgwario

[17] Cadw website http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/grants/historicbuildings/?lang=en as at Sept 16

ar ddyddiad ar arolwg sef Medi 2014. Fodd bynnag, ceir dau adeilad rhestredig yr ystyrir eu bod yn agored i niwed ar y Gofrestr Adeiladau mewn Perygl. Sef

1. Cofeb y Bad Achub sy'n darparu diddordeb hanesyddol sy'n blac i'r bywydau a achubwyd gan gyfres o fadau achub Abergwaun rhwng 1856 a 1961 sydd angen gwaith trwsio mân neu gynnal a chadw
2. Mae eiddo domestig Rosslyn yn agored i niwed ac mae angen gwaith trwsio mawr a mân arno.

4.5.7 Mae'n bwysig monitro cyflwr adeiladau a safleoedd sydd mewn perygl a blaenoriaethu cyllid ar gyfer yr adeiladau hynny a nodwyd ar Gofrestr Adeiladau mewn Perygl y Cyngor Sir.

*Adeiladau Allweddol heb eu Rhestru*

4.5.8 Yn ogystal â nifer o'r adeiladau rhestredig, mae gan yr Ardal Gadwraeth nifer o adeiladau, hanesyddol yn aml, heb eu rhestru sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal. Yn gyffredinol, mae'r adeiladau 'cadarnhaol' hyn yn adeiladau unigol neu grwpiau o adeiladau sy'n cadw'r cyfan, neu gyfran uchel, o'u manylion pensaernïol gwreiddiol ac sy'n ychwanegu diddordeb a bywiogrwydd i olwg yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- The Beach House
- The Rose & Crown a'r Hope & Anchor
- Fferyllfa Myrtle
- Capel Ebenezer
- Swyddfa'r Post
- Capel Bethesda
- Capel Bedyddwyr Goedwig
- Yr Hen Dŷ Heddlu
- Gwylfa
- Tŷ Glyndŵr
- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Penrhyn

*Deunyddiau Adeiladu a Manylion Lleol*

4.5.9 O fewn yr Ardal Gadwraeth, mae’r deunyddiau adeiladu traddodiadol fel a ganlyn:

- Waliau: calchfaen wedi'i gloddio'n lleol ar gyfer waliau, amrywiaeth o fowldinau plastr addurniadol a waliau amgáu a adeiladwyd o garreg a ffasadau rendr, rhai â manylion plastr a godwyd

- Toeau: llechen naturiol ar gyfer toeau a ffenestri dormer, simneiau bric coch a

melyn neu galchfaen ac mae cribau teils clai coch addurniadol yn un o nodweddion cyffredin y dref. Mae uchderau to ac ymylon yn amrywiol, rhai â ffenestri dormer, rhai hebddynt.

- Ffenestri: ffenestri dormer mawr, rhai'n rhan o'r ffasâd, pwyslais fertigol yn bennaf y ffenestri codi casment, ffenestri amrywiol - rhai â 4 paen, rhai â 12 paen, felly mae'n rhaid pwysleisio nad yw un disgrifiad pensaernïol yn addas.

- Drysau: canopïau pren addurniadol ar draws mynedfeydd

*Manylion lleol yn cynnwys:*

- Rheiliau: ag amrywiaeth o gatiau a rheiliau haearn gyr o wahanol arddulliau.

- Mae nwyddau dŵr glaw haearn bwrw a gyr addurniadol yn dal i fod. Fodd bynnag mewn rhai achosion gosodwyd rhai newydd sy'n defnyddio deunyddiau modern.

### *Blaenau siopau, hysbysebion ac arwyddion*

4.5.10 Ceir nifer o wynebau siop sydd wedi eu haddasu'n gwbl neu'n rhannol yn ogystal â nifer o enghreifftiau da o wynebau siop hanesyddol a gadwyd. Ceir nifer o wynebau siop sydd wedi cael eu moderneiddio gan ddefnyddio arddulliau a deunyddiau amhriodol.

Dyma'r problemau mwyaf cyffredin:

- Estyll tywydd rhy ddwfn, yn cuddio manylion gwreiddiol.
- Defnyddio lliwiau llachar.
- Defnyddio llythrennau plastig anaddas.
- Goleuadau amhriodol.
- Defnyddio deunyddiau adeiladau amhriodol.

4.5.11 Mae rhai o’r arwyddion ffyrdd a’r goleuadau traffig, er yn angenrheidiol er mwyn rheoli symudiad y traffig a cherddwyr, wedi’u lleoli'n wael mewn perthynas ag adeiladau rhestredig ac yn cyfrannu at annibendod gweledol sy’n tynnu sylw.

### *Pensaernïaeth eglwysig*

4.5.12 Yn ystod y 18$^{fed}$ a'r 19$^{eg}$ ganrif gwelodd Wdig dwf sylweddol mewn ymateb i'r fasnach fordwyol gynyddol ac adeiladwyd nifer o gapeli ar gyfer gwahanol enwadau i ddarparu mannau addoli i'r amrywiaeth crefyddol. Weithiau cafodd y capeli hyn eu hadeiladu gan y gymuned ac mae'n yn rhan annatod o gymeriad hanesyddol a phresennol Wdig ac mae ganddynt rôl amlwg yng nghymeriad a diddordeb arbennig y strydlun.

**Capel Presbyteraidd Berachah, New Hill**

4.5.13 Capel y Methodistiaid Calfinaidd o 1906-7 dyluniwyd gan y Parch William Jones o Bentre, Rhondda, yn cymryd lle capel o 1830. Costiodd £1,700. Mae'r enw anarferol yn cyfeirio at y Dyffryn o Fendith lle gorffwysodd Josaphat a gŵyr Jiwdea ar ôl dianc rhag lluoedd Ammon, Moab ac Edom (II Cron. 20, 26). Mae gan y capel wyneb o haen carreg frown ag addurniadau cerrig nadd tywodfaen llwyd, to llechi a theils crib coch terracotta.

**Capel Bethesda, Main Street**

4.5.14 Sefydlwyd ym 1873, ac wedi'i orchuddio mewn haearn rhychog yn 1908, roedd y capel hwn ar Main Street ar agor hyd 1998. Roedd yr haearn rhychog yn ffordd gyflym a hawdd o adeiladu mannau addoli ar adeg y diwygiant Cymreig.

**Capel Annibynwyr Ebenezer, Wdig Hill**

4.5.15 Capel annibynwyr Saesneg a adeiladwyd ym 1828, adferwyd yn 1907 ac eto yn 1928. Mae'r capel presennol yn dyddio o 1828, a chafodd ei adeiladu mewn arddull Gothig â mynedfa ar dalcen.

**Capel Bedyddwyr Wdig, Main Street**

4.5.16 Sefydlwyd ym 1873 fel capel anghydffurfiol o gerrig wedi'u pwyntio'n fras a ffenestri, drysau ac addurniadau bwaog

**Eglwys Sant Pedr, Church Terrace**

4.5.17 Rhestredig Gradd II, yn dyddio i 1910 mae'r eglwys hon ar Church Terrace ac mae'n ganolbwynt golygfeydd ar hyd lawer o Strydoedd Wdig, a golygfeydd pellach o Abergwaun a'r de. Gan E M Bruce Vaughan o Gaerdydd mewn arddull Gothig hwyr o addurn anarferol i'r rhanbarth. Mae'r eglwys blwyf hon wyneb o haen carreg ‘Shanrock’ llwyd-brown o Iwerddon ag addurniadau calchfaen ‘Box Ground’ a llechi gwyrdd Bangor ar y to.

***Ffactorau Negyddol neu Niwtral (maint yr ymyrraeth neu ddifrod)***

4.5.18 Rhwng 1992-1996 roedd Cynllun Tref yn gweithredu yn Ardal Gadwraeth Wdig, gan ddarparu grantiau ar gyfer gwaith trwsio traddodiadol a gwaith gwella amgylcheddol i wella tir y cyhoedd. Er gwaethaf y cyfle hwn mae nifer o elfennau sy'n tynnu oddi wrth gymeriad arbennig Ardal Gadwraeth Wdig, ac sy'n cynnig cyfleoedd posibl ar gyfer eu gwella.
Mae'r rhain yn cynnwys:

- Effaith gynyddol newidiadau ac estyniadau i lawer o adeiladau hanesyddol sydd wedi peri colled sylweddol o nodweddion traddodiadol, gan erydu cymeriad a golwg arbennig yr ardal;
- Adeiladau manwerthu gwag;

- Gwifrau a pholion telegraff ymwthiol;
- Waliau a ffensys ffin, parseli tir wedi'u hesgeuluso;
- Mae nifer o'r adeiladau rhestredig a rhai heb eu rhestru, mewn cyflwr gwael,
- Nid yw effaith niwtral datblygiadau mwy modern yn cadw na'n gwella cymeriad.

**Ardaloedd Niwtral**

4.5.19 Mae datblygiadau mwy modern yn yr Ardal Gadwraeth yn tueddu i gael effaith niwtral ar yr Ardal Gadwraeth, heb na chadw na gwella'i chymeriad. Mae rhai o'r ardaloedd / adeiladau hyn yn cael eu nodi isod:

- Dyluniad anghydnaws aneddiadau pâr o ddechrau'r 20fed ganrif yn New Hill sydd o dan lefel y ffordd ond yn weladwy wrth edrych o'r de.
- St Davids Place lle mae eiddo mwy modern yn ddiffygiol mewn dyluniad gwreiddiol (Argymhellir eithrio'r ardal hon o'r Ardal Gadwraeth).

## 4.6 Crynodeb o Gymeriad yr Ardal Gadwraeth

4.6.1 Tref forwrol hanesyddol yw Wdig y mae ei chraidd yn cynnwys adeiladau Fictoraidd ardderchog a adeiladwyd mewn cyfnod cymharol fyr cyn dechrau'r 20fed ganrif.

4.6.2 Mae'r gwahanol 'ardaloedd cymeriad' yn yr Ardal Gadwraeth yn amrywio o'r eiddo preswyl Fictoraidd ac Edwardaidd yn y de, y lleoliadau coetir yng nghyffiniau Pant-yr-ychain a Ffordd y Cei, i'r ardaloedd mawr o lethr arfordirol wedi'u gorchuddio â phrysgwydd ac eithin sy'n rhoi cefndir i'r dref gyfan. Mae'r rhan fwyaf o adeiladau wedi'u hadeiladu ar ochr ffurfweddiadau ffordd ar lethr serth ar ochr y penrhyn, y rhan fwyaf yn mwynhau golygfeydd panoramig ar draws y môr i'r gorllewin, ac i'r de ar draws y Parrog, Abergwaun ac arfordir garw gogledd Sir.

4.6.3 Main Street yw canolbwynt y gymuned ac mae'n ffurfio craidd yr Ardal Gadwraeth. Mae'n cynnwys adeiladau sydd o werth unigol ac fel grŵp. Bu rhywfaint o fewnlenwi gan ddatblygiad modern mewn plotiau gwag, ond nid yw hyn wedi cael effaith andwyol sylweddol ar gymeriad hanfodol yr Ardal Gadwraeth.

4.6.4 Ceir datblygiadau sydd wedi amharu ar ansawdd cyffredinol yr Ardal Gadwraeth, er enghraifft y ceinciau oddi ar Wdig Hill, ond yn gyffredinol nid yw hyn wedi andwyo ar gymeriad cyffredinol y dref, ond mae'n atgyfnerthu pwysigrwydd yr amddiffyniad mae'r dynodiad Ardal Gadwraeth yn rhoi i 'graidd' y dref.

4.6.5 Yn wahanol i lawer o Ardaloedd Cadwraeth, yn gyffredinol nid yw'r defnydd o ddeunyddiau modern wedi cael gormod o effaith andwyol ar gymeriad cyffredinol y dref. Mae'r Ardal Gadwraeth sy'n bodoli wedi dioddef rhywfaint o golled manylion

hanfodol yn bennaf â defnydd ffenestri newydd upvc, a rhywfaith o waith adnewyddu o ansawdd gwael. Efallai y gellir cywiro hyn trwy ddefnyddio mesurau fel Cyfarwyddyd Erthygl 4, sy'n asesu'n glir nodweddion hanesyddol a phensaernïol arbennig yr ardaloedd ac mewn gwirionedd yn tynnu'n ôl hawliau datblygu a ganiateir yn y parth a nodwyd.

# 5. Adolygiad Ffiniau ac Argymhellion

5.1.1 Mae cymeriad ac ansawdd treflun tref forwrol hanesyddol Wdig wedi'u ffurfio gan gyfuniad o'r ffurf adeiledig a lleoliad a natur agored y dref.

5.1.2 Fel rhan o'r broses Gwerthuso Cymeriad, ymgymerwyd ag arolwg trylwyr o ffiniau presennol yr Ardal Gadwraeth. Roedd hyn yn cynnwys asesiad o:

- Hanes yr ardal a'i datblygiad
- Golwg y gwahanol barthau cymeriad
- Dadansoddiad o berthnasau gofodol
- Cyflwr a ffabrig yr adeiladau
- Effaith gadarnhaol/negyddol y rheolaethau ar yr Ardal Gadwraeth

5.1.3 Mae ailwerthusiad ffin bresennol yr Ardal Gadwraeth wedi nodi newidiadau arfaethedig, ag addasiadau i eithrio lleoliadau o fewn y ffin sy'n cynnwys adeiladau neu safleoedd nad ydynt bellach yn rhan annatod o ansawdd a ffurf lleoliad yr Ardal Gadwraeth ei hun, a chynnwys tir ac eiddo sy'n cyfrannu at nodweddion arbennig yr ardal. Mae'r map yn Atodiad A yn darlunio'r newidiadau arfaethedig i ffin Ardal Gadwraeth Wdig fel y manylwyd yn nogfen Gwerthuso Cymeriad yr Ardal Gadwraeth hon.

**Argymhellion**

5.1.4 Yn gyffredinol mae ymyl gogleddol ffin Ardal Gadwraeth Wdig yn rhedeg ar hyn cyfuchlinau sydd wedi'u diffinio'n glir h.y. ymylon ffyrdd a chaeau, felly'n gyffredinol dylai aros heb ei newid. Yr eithriad i hyn yw'r ardal yn y gogledd ddwyrain eithaf, tir yng nghyffiniau Landscape Cottage a Filâu New Hill. Fel y disgrifiwyd yn Nadansoddiad Cymeriad Ardal Cymeriad 2, mae'r eiddo yn yr ardal hon yn rhannu nodweddion pensaernïol tebyg i rai eraill sydd wedi'u cynnwys yn yr Ardal Gadwraeth ac o ddiddordeb hanesyddol nodedig gan ffurfio ffin naturiol i graidd hanesyddol y Dref, gan ei gwahaniaethu o ardal fwy modern Pentre'r Harbwr.

> **Argymhelliad 1: bod ffin yr Ardal Gadwraeth yn cael ei newid i ?gynnwys? New Villas 9-14 a Landscape Cottage a'u cwrtilau o fewn y ffin.**

5.1.5 Ar hyn o bryd mae ffin yr Ardal Gadwraeth sy'n ffinio ardal yr harbwr yn dilyn Ffordd y Cei. Cynigir bod tir ychwanegol islaw Ffordd y Cei yn cael ei gynnwys o fewn ffin yr Ardal Gadwraeth yn yr ardal hon oherwydd bod y tir yn gwneud cyfraniad sylweddol at leoliad yr ardal. Mae'r dirwedd agored naturiol hon i'r gogledd o draciau'r rheilffordd yn diffinio lleoliad cymeriad yr Ardal Gadwraeth gyfan.

**Argymhelliad 2: Argymhellir bod y ffin yn cael ei newid i gynnwys tir agored i'r de o Ffordd y Cei (i'r gogledd o'r rheilffordd).**

5.1.6 Eto mae ymyl de orllewinol ffin yr Ardal Gadwraeth yn gyffredinol yn dilyn nodweddion a ddiffiniwyd, fel cwrtilau adeiladau a strydoedd, sy'n briodol ar y cyfan. Er enghraifft, yn gyffredinol mae eiddo ar hyd Plasygamil Road wedi cadw'r rhan fwyaf o'u manylion gwreiddiol, gan golli'r unedau ffenestr traddodiadol yn unig, colled y gellir ei wrthdroi. Fodd bynnag mae angen newid ffin yr Ardal Gadwraeth ar hyd St. Davids Place, lle mae eiddo'n fwy modern ac wedi dioddef colled manylion traddodiadol.

**Argymhelliad 3: Bod ffin yr Ardal Gadwraeth yn cael ei newid i gynnwys eiddo i'r gogledd orllewin o Plasygamil Road, hyd at ac yn cynnwys Oakleigh.**

**Argymhelliad 4: Bodd ffin yr Ardal Gadwraeth yn cael ei diwygio i eithrio eiddo ar hyd St Davids' Place, â'r ffin ddiwygiedig yn terfynu ar gyffordd y ffordd rhwng Main Street a Church Terrace.**

5.1.7 Oherwydd ei leoliad i'r gorllewin o St Davids Place argymhellir eithrio Dyffryn House o ffin yr Ardal Gadwraeth. Mae'n adeilad rhestredig Gradd II ac felly'n cael budd o amddiffyniad heb statws Adeilad Rhestredig.

**Argymhelliad 5: Bod y ffin yn cael ei diwygio i eithrio Dyffryn House a'i gwrtil o'r Ardal Gadwraeth.**

5.1.8 Yn olaf, mae'r ffin sy'n bodoli'n eithrio datblygiadau tai mwy diweddar i'r de orllewin a'r gogledd orllewin o Wdig Hill, ond mae'n cynnwys adeiladau unigol ar hyd Wdig Hill i fyny at ac yn cynnwys Capel Ebenezer, Carndeifo ac Arosfa ar waelod Precelly Crescent, a'r mwyafrif o'r eiddo ar hyd Ffordd Glanymor.. Argymhellir newidiadau i'r ffin yn yr ardal hon i gynnwys eiddo ychwanegol i'r rheiny mae'r Ardal Gadwraeth eisoes yn eu cynnwys, gan gynnwys eiddo i'r de o Precelly Crecent gan gynnwys Oxford House, Craig Yr Eos a Chefn-eithin.

**Argymhelliad 6: Bod y ffin yn cael ei diwygio i gynnwys yn ychwanegol y tir i'r gogledd orllewin o Wdig Hill, hyd at ac yn cynnwys Highridge a Berry Hill.**

5.1.9 Mae'r diwygiadau ffin arfaethedig yn cynyddu maint yr Ardal Gadwraeth i 31.80 hectar, gan lunio ffin dynnach o amgylch yr ardaloedd o ansawdd arbennig o ran amgylchedd pensaernïol a hanesyddol wrth gynnwys tir ychwanegol sy'n cyfrannu at leoliad yr Ardal Gadwraeth. Er mwyn cadw a gwella cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod datblygiadau'r dyfodol yn rhoi sylw i'r hyn sy'n bodoli eisoes, deunyddiau, arddull, manylion, ffurf, graddfa, llinellau'r toeon ac adeiladau fel eu bod yn gydnaws â'r hyn sydd o'u cwmpas. Dylai golygfeydd pwysig a mannau agored a nodwyd wrth Werthuso Cymeriad yr Ardal Gadwraeth gael eu cadw a'u gwella.

## 6. Crynodeb o'r Materion dan sylw

6.1.1 Mae’r gwerthusiad wedi nodi nifer o faterion sy'n cael effaith andwyol ar gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth. Y materion hyn fydd wrth wraidd cynigion rheoli ar gyfer yr Ardal Gadwraeth iawn, gan nodi cyfleoedd posibl, pwysig ar gyfer gwella a gwarchod yr ardal.

***Safleoedd ac adeiladau negyddol / niwtral***

6.1.2 Mae'r gwerthusiad wedi nodi adeiladau a safleoedd penodol 'negyddol' h.y. yr adeiladau a’r safleoedd hynny sy'n tynnu oddi ar gymeriad a golwg arbennig yr Ardal Gadwraeth ac sydd felly’n cynnig cyfle ar gyfer eu gwella. Yn ogystal, ar y cyfan, ychydig iawn mae datblygiadau mwy modern wedi’i gyfrannu i gymeriad yr ardal, o ran ei gadw na’i wella. O’r herwydd, mae llawer o'r adeiladau mwy modern yn yr Ardal Gadwraeth wedi’u nodi naill ai fel adeiladau neu safleoedd negyddol neu niwtral.

***Colli manylion pensaernïol a mân addasiadau i adeiladau hanesyddol***

6.1.3 Mae llawer o'r adeiladai nas rhestrwyd, a rhai o'r adeiladau rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth, yn dioddef yn sgil colli manylion pensaernïol gwreiddiol a deunydd adeiladu. Yn wahanol i adeiladau rhestredig, fel arfer gall newidiadau i adeiladau heb eu rhestru, yn yr Ardal Gadwraeth, gael eu gwneud o dan hawliau datblygu a ganiateir, heb yr angen am ganiatâd cynllunio, oni bai bod Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn ei le. O ganlyniad, mae canran sylweddol o'r adeiladau sydd heb eu rhestru yn yr Ardal Gadwraeth wedi colli nodweddion traddodiadol, ac mae hynny’n gwanhau cymeriad a golwg cyffredinol yr ardal. Mae’r golled gynyddol o ddeunyddiau adeiladu a manylion gwreiddiol yn amharu ar gymeriad a golwg yr ardal.

***Cynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau (Adeiladau mewn Perygl)***

6.1.4 Mae nifer o adeiladau hanesyddol sydd angen gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio cyffredinol, yn arbennig yng nghanol y dref. Yn ogystal, mae nifer o’r adeiladau rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth hefyd yn dangos arwyddion o esgeulustod, dadfeiliad a dirywiad oherwydd diffyg cyllid neu gynnal a chadw ac mae’r rhain yn difetha cymeriad yr Ardal Gadwraeth. Nid oes unrhyw adeiladau rhestredig 'mewn perygl' ac mae dau adeilad neu strwythur sydd wedi’u nodi fel adeiladau 'bregus' yn yr Ardal Gadwraeth, sydd ar Gofrestr Adeiladau Mewn Perygl y

Cyngor[18]. Mae'n bwysig i'w cyflwr gael ei fonitro a, phan fydd ar gael, blaenoriaethu cyllid ar gyfer yr adeiladau hynny a nodwyd ar Gofrestr Adeiladau mewn Perygl y Cyngor Sir fel rhai sydd mewn perygl mawr neu'n fregus.

***Rheoli datblygiadau newydd***

6.1.5 Nid yw rhai datblygiadau modern yn cyd-fynd â chymeriad hanesyddol na golwg yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn wir yn achos estyniadau bychain a modurdai yn ogystal â chynlluniau datblygu mwy.

***Tir y cyhoedd***

6.1.6 Mae'r gwerthusiad yn dangos bod, ledled yr Ardal Gadwraeth, achosion lle mae tir y cyhoedd wedi'i gynllunio, ei adeiladu a'i gynnal yn wael. Mae llawer o'r manylion hanesyddol ar dir y cyhoedd wedi cael eu tynnu ac mae dulliau neu ddeunyddiau yn eu lle naill ai'n amhriodol neu'n anghydnaws. Mater pwysig arall yw goruchafiaeth parcio ceir ar y stryd yn yr Ardal Gadwraeth sy'n cael effaith andwyol ar ei chymeriad a'i golwg.

***Mannau agored, tirlunio a rheoli coed***

6.1.7 Tra bo'r gwerthusiad wedi nodi'r mannau agored a gwyrdd pwysig o fewn yr Ardal Gadwraeth, mae yna strydoedd sydd ag ychydig neu ddim tirlunio. Er bod cymeriad yr Ardal Gadwraeth yn drefol yn bennaf, mae tirlunio priodol yn cynnig cyfleoedd i wella llawer o'r mannau cyhoeddus a strydoedd trwy ychwanegu gwead, lliw a chynyddu bioamrywiaeth.

[18] Ym mis Medi 2014

# 7. Cynigion Rheoli

7.1.1 Mae'r Gwerthusiad Cymeriad hwn wedi adnabod y nodweddion sy'n cyfrannu at gymeriad arbennig a gwahanol yr Ardal Gadwraeth, a'r hyn y dylid ei gadw a'i wella. Mae'r cynigion rheoli canlynol yn adeiladu ar y nodweddion negyddol sydd hefyd wedi'u nodi, er mwyn darparu cyfres o faterion ac argymhellion ar gyfer gwella a newid. Bydd yn bwysig i Gyngor Sir Benfro roi'r argymhellion canlynol ar waith fel rhan o'i strategaeth reoli ar gyfer Ardal Gadwraeth Wdig.

7.1.2 Bwriad y Cynigion Rheoli canlynol yw sicrhau bod cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth yn cael ei gadw a'i wella, trwy ddarparu cyfres o argymhellion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol yn seiliedig ar y materion a godwyd yng Ngwerthusiad yr Ardal Gadwraeth.

7.1.3 Mae'r cynigion yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella a pholisïau i osgoi newid niweidiol; mae nifer o'r rhain yn gyfrifoldeb i'r Cyngor Sir. Mae'r cynigion wedi'u hysgrifennu gyda'r ymwybyddiaeth bod adnoddau'r Cyngor ar gyfer rheoli'r Ardal Gadwraeth yn brin, ac felly bod angen eu blaenoriaethu. Mae cyfyngiadau ariannol ar y Cyngor yn golygu bod y cynigion y mae'n gyfrifol amdanynt yn debygol o gymryd mwy o amser i'w gweithredu nag sy'n ddymunol.

7.1.4 Bydd y Gwerthusiad Cymeriad a'r Argymhellion Rheoli yn eistedd ochr yn ochr â'r polisïau cadwraeth yn y Cynllun Datblygu Lleol ac yn ategu ei nod o ddiogelu a gwella Ardaloedd Cadwraeth y Sir. Dylai'r Gwerthusiad Cymeriad a'r Cynigion Rheoli fod yn destun i gael eu monitro a'u hadolygu yn rheolaidd.

***Safleoedd ac adeiladau Negyddol / niwtral - cyfleoedd ar gyfer gwella***

7.1.5 Mae'r gwerthusiad wedi nodi adeiladau a safleoedd 'negyddol' sy'n tynnu oddi ar gymeriad a golwg arbennig yr Ardal Gadwraeth ac sydd felly'n cynnig cyfle ar gyfer eu gwella.

7.1.6 Cynnig:

- Sicrhau bod adeiladau neu safleoedd negyddol / niwtral yn cael eu hailddatblygu gyda datblygiadau cyfoes a ddyluniwyd yn dda, sydd naill ai'n cynnal neu'n gwella cymeriad unigol ardaloedd o fewn Ardal Gadwraeth Wdig. Mae'n rhaid i unrhyw ddatblygiad newydd ystyried nodweddion a chymeriad pwysig yr ardal fel y'u hamlinellwyd yn y ddogfen hon. Dylid gwrthsefyll unrhyw ddyluniadau adeilad gwael neu amhriodol.

***Colli manylion pensaernïol a mân addasiadau i adeiladau hanesyddol***

7.1.7 Mae rhai o'r adeiladau nas rhestrwyd, a rhai o'r adeiladau rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth, wedi dioddef yn sgil colli manylion pensaernïol gwreiddiol a/neu ddeunydd adeiladu. Yn wahanol i adeiladau rhestredig, fel arfer gall newidiadau i adeiladau heb eu rhestru, yn yr Ardal Gadwraeth, gael eu gwneud o dan hawliau datblygu a ganiateir, heb yr angen am ganiatâd cynllunio, oni bai bod Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn ei le. O ganlyniad, mae nifer o'r adeiladau sydd heb eu rhestru yn yr Ardal Gadwraeth wedi colli nodweddion traddodiadol, ac mae hynny'n gwanhau cymeriad a golwg cyffredinol yr ardal. Mae'r golled gynyddol o ddeunyddiau adeiladu a manylion gwreiddiol yn amharu ar gymeriad a golwg yr ardal.

7.1.8 Cynnig:

- Annog perchenogion eiddo i wrthdroi addasiadau anghymarus ac ailosod nodweddion pensaernïol fel ffenestri, drysau a waliau terfyn ayyb ar adeiladau hanesyddol yn arddull a defnyddiau'r gwreiddiol, yn enwedig ffenestri pren, simneiau a defnyddiau toeon gwreiddiol.
- Cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn Ardal Gadwraeth Wdig.

***Cynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau (Adeiladau mewn Perygl)***

7.1.9 Nid oes unrhyw [19]adeiladau rhestredig 'mewn perygl' ac mae dau adeilad neu strwythur sydd wedi'u nodi fel adeiladau 'bregus' yn Ardal Gadwraeth Wdig, ar Gofrestr Adeiladau Mewn Perygl y Cyngor. Mae'n bwysig i'w cyflwr gael ei fonitro a blaenoriaethu cyllid ar gyfer yr adeiladau hynny a nodwyd ar Gofrestr Adeiladau mewn Perygl y Cyngor Sir fel rhai sydd mewn perygl mawr neu'n fregus. Mae nifer o adeiladau hanesyddol angen cynnal a chadw ac atgyweirio fel mater o drefn, yn enwedig yng nghanol y dref ac mae nifer o adeiladau rhestredig yn dangos arwyddion o esgeulustod, dadfeiliad a dirywiad oherwydd diffyg cyllid neu gynnal a chadw, ac mae'r rhain yn difetha cymeriad yr Ardal Gadwraeth.

7.1.10 Cynnig:

- Parhau i ddiweddaru Cofrestr Adeiladau mewn Perygl 2014, sef cofnod o adeiladau rhestredig o fewn yr Ardal Gadwraeth sydd mewn perygl oherwydd esgeulustod a dirywiad. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw adeiladau 'mewn perygl' ac mae yna ddau adeilad 'bregus'.
- Monitro cyflwr yr holl adeiladau hanesyddol o fewn yr Ardal Gadwraeth, adrodd ar unrhyw ganfyddiadau a chynghori pa gamau y dylid eu cymryd, yn ôl yr angen. Os yw cyflwr adeilad yn achosi pryder, caiff camau priodol eu cymryd i sicrhau dyfodol yr adeilad, gan gynnwys y defnydd o bwerau statudol.

[19] Ar ddyddiad yr arolwg ym mis Medi 2014

***Rheoli datblygiadau newydd***

7.1.11 Nid yw rhai datblygiadau modern yn cyd-fynd â chymeriad hanesyddol na golwg yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn wir yn achos estyniadau bychain a modurdai yn ogystal â chynlluniau datblygu mwy.

7.1.12 Cynnig:

- Caiff cynigion ar gyfer datblygu eu hasesu yn ôl eu heffaith ar gymeriad a golwg yr ardal fel y nodir yng Ngwerthusiad yr Ardal Gadwraeth, Cyfarwyddyd Erthygl 4 ynghyd â pholisïau perthnasol o'r Cynllun Datblygu ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.
- Bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cydymffurfio â'r polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Sir Benfro (mabwysiadwyd yn 2013) ac unrhyw gynlluniau datblygu diweddarach.

***Tir y cyhoedd***

7.1.13 Mae effaith tir y cyhoedd ar brofiad yr Ardal Gadwraeth a'i chymeriad o'r pwys mwyaf. Gall colled nodweddion hanesyddol a defnydd anghydnaws o ddeunyddiau a dulliau fod yn andwyol i gymeriad a golwg.

7.1.14 Cynnig:

- Gweithio gydag adrannau cynnal a chadw, priffyrdd a datblygwyr preifat i sicrhau gwaith dylunio, adeiladu a chynnal tir y cyhoedd o ansawdd uchel, gan ddefnyddio deunyddiau priodol sy'n cydweddu â chymeriad a chyd-destun hanesyddol yr Ardal Gadwraeth.
- Bydd y Cyngor yn ystyried cynnal archwiliad o'r holl arwyddion ffordd a chelfi stryd yn yr Ardal Gadwraeth gyda'r bwriad o sicrhau dull mwy syml a chydlynus, yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn 'Streets for All', gan gynnwys dileu eitemau nad oes eu hangen, a dodrefn stryd o ansawdd da, heb lawer o waith cynnal a chadw ac mewn safle da.Bydd y Cyngor yn ystyried paratoi canllawiau ar gyfer tir y cyhoedd.

***Mannau agored, tirlunio a rheoli coed***

7.1.15 Mae'r gwerthusiad wedi nodi pwysigrwydd mannau agored a gwyrdd yn yr Ardal Gadwraeth, ond mae'r rhain yn lleoliad yr Ardal Cymeriad yn bennaf mae yna strydoedd sydd ag ychydig neu ddim tirlunio. Mae tirlunio priodol yn cynnig cyfleoedd i wella llawer o'r mannau cyhoeddus a phreifat yn y dref gan ychwanegu gwead, lliw a chynyddu bioamrywiaeth.

7.1.16 O ran coed, er nad ydynt yn nodwedd benodol o ganol y dref, mae coed ar hyd Ffordd y Cei, New Hill a Phant-yr-ychain yn gwneud cyfraniad positif at gymeriad a golwg yr ardal. Mae grwpiau o goed ar diroedd y gwesty a thai mwy hefyd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth, llawer ohonynt mewn perchnogaeth breifat a gallai'r Cyngor Sir helpu i sicrhau eu goroesiad

tymor hir trwy ddarparu canllawiau i berchnogion ynglŷn â'u gofal.

7.1.17 Cynnig:

- Sicrhau bod tirlunio priodol yn ffurfio rhan annatod o ddyluniad unrhyw ddatblygiad newydd gan gynnwys gwaith ar dir y cyhoedd o fewn yr Ardal Gadwraeth. Ni ddylid rhoi caniatâd i gynigion datblygu oni bai bod eu dyluniad yn gwella tirlunio a bioamrywiaeth y safle.

- Bydd y Cyngor yn ystyried paratoi canllawiau ar gynnal a gofalu am goed yn yr Ardal Gadwraeth.

***Wynebau siop, arwyddion a hysbysebu***

7.1.18 Yn gyffredinol ceir nifer o wynebau siop hanesyddol mewn cyflwr da yn yr Ardal Gadwraeth, fodd bynnag collwyd yr arwyddion a baentiwyd a bellach nid yw llawer ohonynt mewn defnydd manwerthu.

7.1.19 Cynnig:

- Bydd y Cyngor yn ystyried paratoi Canllawiau Hysbysebu/Arwyddion a Wynebau Siop.
- Bydd yn ofynnol i newidiadau yn y dyfodol gadw wynebau siop sydd o ddiddordeb hanesyddol neu draddodiadol.

## 8. Monitro

8.1.1 Bydd yn ofynnol monitro ac adolygu’r Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth a'r Cynllun Rheoli yn rheolaidd er mwyn cwmpasu newidiadau datblygu ac unrhyw flaenoriaethau a chynigion newydd. Gallai arolwg ffotograffig newydd o’r Ardal Gadwraeth, wedi’i ddyddio, fod yn offeryn allweddol i fonitro newidiadau – gwnaed cofnod ffotograffig yn 2015.

8.1.2 Gall diweddariadau rheolaidd wedi’i seilio ar wybodaeth am Gynllunio / Adeiladau Rhestredig / GCC nodi’r rhan fwyaf o newidiadau datblygu, a gall ymchwil hanesyddol pellach i’r Ardal Gadwraeth fod yn fuddiol. Gellir defnyddio mapiau hanesyddol, lluniadau, paentiadau neu ysgythriadau a’r nifer trawiadol o hen ffotograffau yn sail wybodaeth ar gyfer adnewyddu manwl gywir o eiddo a threfluniau treftadaeth.

### Arolwg Ffurfiol

8.1.3Dylai'r ddogfen hon gael ei hadolygu bob pum mlynedd o ddyddiad ei mabwysiadu'n ffurfiol. Bydd angen iddi gael ei hasesu yn erbyn deddfwriaeth, a pholisi cenedlaethol a lleol sydd ar waith adeg yr adolygiad. Dylai'r adolygiad

gwmpasu'r canlynol:

- Arolwg o'r Ardal Gadwraeth gan gynnwys arolwg ffotograffig llawn i gynorthwyo camau gorfodi posibl;
- Asesiad o'r graddau y mae argymhellion wedi cael eu gweithredu, a pha mor llwyddiannus mae hyn wedi bod;
- Nodi unrhyw faterion newydd sydd angen mynd i'r afael â nhw, neu sydd angen gweithredu neu welliannau pellach;
- Cynhyrchu adroddiad byr yn manylu ar ganfyddiadau'r arolwg ac unrhyw gamau angenrheidiol;
- Cyhoeddusrwydd a hysbysebu.

# Rhan 2: Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Wdig

## 1. Crynodeb o Ddiddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth

1.1.1 Yn wreiddiol roedd Wdig yn harbwr pysgota ac mae'n drefol ei natur yn bennaf. Mae'r adeiladau yn Fictoraidd yn bennaf ac yn tramwyo'r llethrau serth uwchben ardal yr harbwr ac yn y craidd hanesyddol gan ffurfio terasau o adeiladau. Mae topograffi lleol wedi dylanwadu'n gryf ar batrwm y strydoedd a'r mannau agored yn y dref. Mae wynebau siop Fictoraidd yn nodweddu'r craidd hanesyddol hefyd - bellach mae llawer mewn defnydd preswyl a ddatblygodd o ganlyniad i ehangiad cyflym y porthladd fferis. Mae 10 o adeiladau rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth.

1.1.2 Mae'r harbwr naturiol i'r de ddwyrain o dref Wdig yn chwarae rôl sylweddol wrth ddiffinio cymeriad a lleoliad yr Ardal Gadwraeth. Sefydliad terfynfa Rheilffordd y Great Western a harbwr yn Wdig (a elwir yn Harbwr Abergwaun yn fasnachol) ar ddiwedd y 19eg Ganrif a dechrau'r 20fed Ganrif oedd ysgogiad allweddol twf yn y dref, ac felly dyma ffactor trechol yn ei chymeriad hanesyddol.

1.1.3 Un o nodweddion cryf yr ardal yw'r ystodau mawr o dir serth heb ei ddatblygu, ardaloedd o greigiau agored a llystyfiant naturiol fel eithin a grug. Mae'r clogwyn ei hun yn nodwedd weledol bwysig o'r Ardal Gadwraeth ac wedi cyfyngu datblygiad y dref. Mae effeithiau gweledol a ffisegol y llethrau arfordirol yn golygu ei fod yn nodwedd amlwg yng nghymeriad a golwg yr ardal.

1.1.4 Mae'r nodweddion hyn yn cynnwys nifer o nodweddion allweddol sy’n sail i ddiddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth.

## Adnabod Materion Cadwraeth

### 1.1 Amodau Cyffredinol (Dadansoddiad SWOT)

1.2.1 Er bod mwyafrif yr adeiladau hanesyddol a threfluniau pwysig yn dal i fod, mae yna nifer o faterion i’r dyfodol y dylid rhoi sylw iddynt. Mae’n rhaid i’r Cynllun Rheoli hwn adeiladau ar gryfderau lleol a rhinweddau cynhenid penodol yr Ardal Gadwraeth, er mwyn sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer y dyfodol yn cael sylw. Mae’r pryderon a’r problemau cyfredol wedi’u nodi mewn dadansoddiad ‘SWOT’ (cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau) gyda manylion pellach isod.

1.2.2 Dyma grynodeb o’r materion allweddol sy’n effeithio ar reolaeth yr Ardal Gadwraeth:

**Cryfderau:**

- Porthladd pysgota hanesyddol â chysylltiadau cryf ag angori diogel a datblygiad fferi modern
- Mae lleoliad penrhyn Pencaer a'r tirffurf naturiol yn darparu cefndir ac yn dylanwadu ar ffurf a gosodiad y strydlun
- Adeiladau hanesyddol sydd, i raddau helaeth wedi cadw eu cymeriad traddodiadol ac yn creu ymdeimlad o le cryf
- Adeiladau arwyddocaol sy'n rhoi pwyntiau ffocws clir o fewn yr Ardal Gadwraeth
- Ail-agor gorsaf rheilffordd Wdig
- Cadw cyfleoedd siopa lleol
- Mynediad at hamdden ffurfiol ac anffurfiol trwy hawliau tramwy cyhoeddus, gan gynnwys tramwyfeydd cul neu 'vennels', y Llwybr Cenedlaethol, ar hyd y glannau yn y Parrog, ardaloedd chwarae, caeau chwarae a llwybr Rhos Wdig.
- Mynediad at gyfleusterau cymunedol gan gynnwys Canolfan y Ffenics.
- Agosrwydd at borthladd fferis Abergwaun y mae Stena Line yn ei weithredu

**Gwendidau:**

- Effaith gronnus ansawdd gwael addasiadau, estyniadau, deunyddiau newydd a manylion i lawer o adeiladau hanesyddol wedi arwain at golli cryn nifer o nodweddion pensaernïol a deunyddiau gwreiddiol, gan niweidio cymeriad arbennig a golwg yr ardal;
- Diffyg cynnal a chadw a gofal priodol ar gyfer manylion treftadaeth;
- Mae nifer o'r adeiladau rhestredig a rhai heb eu rhestru mewn cyflwr gwael;
- Adeiladau arwyddocaol diffaith nad ydynt yn cael eu defnyddio;
- Atgyweirio / adfer a datblygiad anghydnaws i adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth;
- Diffyg cydlyniant a dyluniad da o ran tir y cyhoedd

**Cyfleoedd:**

- Gwella'r gwaith o gynnal a chadw a rheoli adeiladau treftadaeth;
- Rhagor o adfywio safleoedd allweddol a threfluniau yn sensitif;
- Parhau i uwchraddio tir y cyhoedd gan ddefnyddio agwedd sensitif tuag at gydlyniad a dyluniad y tir hwnnw'n gyffredinol, er mwyn atgyfnerthu a gwella cymeriad hanesyddol y dref;
- Adeiladu ar gyfleoedd ar gyfer ymweliadau ar y cyd rhwng y porthladd fferis a thref Wdig a datblygiad marina arfaethedig;
- Cyfleoedd buddsoddiad a chyflogaeth o farina arfaethedig Abergwaun;
- Cyflawni cydbwysedd priodol rhwng cynnal mannau agored anffurfiol a chyfleoedd ar gyfer bioamrywiaeth.

**Bygythiadau:**

- Gwrthwynebiad i reolaethau priodol ar gynnal a chadw ac addasu adeiladau hanesyddol;
- Dyluniad amhriodol adeiladau llenwi, estyniadau, wynebau siop ac addasiadau newydd;
- Rheolaeth wael dros welliannau penodol yn achosi dirywiad yn yr adeiladau a thir y cyhoedd neu'n effeithio'n negyddol ar hynodrwydd lleol;
- Cau neu israddio'r porthladd fferis neu orsaf Wdig;
- Mewnlenwi ac estyniadau yn yr ardal adeiledig sy'n erydu'r cymeriad gofodol hanfodol;
- Newid i lefel y môr neu fwy o ddigwyddiadau storm sy'n gofyn am fwy o gynnal a chadw yn y Parrog neu'r porthladd fferis;
- Newidiadau niweidiol i gymeriad yr ardal a achosir gan ddatblygiad a sensitif;
- Pwysau amgylcheddol a datblygu sy'n deillio o ddatblygiad y marina.

## 1.2 Materion Cadarnhaol ac Asedau

1.2.1 Mae'r canlynol ymhlith y materion treftadaeth cadarnhaol ac asedau sydd angen eu diogelu:

- Cymeriad cyffredinol yr Ardal Gadwraeth wedi'i gynrychioli gan y cyfuniad o'i amgylchedd adeiledig a naturiol, sy'n cofnodi ac yn cynrychioli hanfod ei chymeriad, gan gynnwys y berthynas y mae ei dopograffi a strydlun, ei leoliad coediog a rhostir a'i leoliad arfordirol yn ei chreu.

- Adeiladau unigol o bwysigrwydd hanesyddol, sydd â'r potensial i fywiogi'r strydlun, fel Eglwys Sant Pedr, Capel Ebenezer ac adeiladau crefyddol eraill, eiddo Rosslyn, a Gwesty Fishguard Bay. Mae 10 adeilad rhestredig yn gwneud cyfraniadau sylweddol at gymeriad yr Ardal Gadwraeth.

- Grwpiau arwyddocaol o adeiladau sy'n ffurfio strydluniau integredig ac wynebau cryf o amrywiaeth mawr ac yn rhoi ymdeimlad o reolaeth a diffiniad i'r mannau trefol nodedig a'r gofodau. Mae Ffordd y Cei a Main Street sy'n cynnwys wynebau siop hanesyddol yn darparu enghreifftiau.

### 1.3 Materion Negyddol a Phroblemau

1.3.1 Mae'r canlynol ymhlith y materion negyddol a'r problemau o fewn yr Ardal Gadwraeth:

- Adeiladau diffaith, nad ydynt yn cael eu defnyddio sy'n tynnu oddi ar rinweddau gweledol yr amgylchedd treftadaeth; nid ydynt ychwaith yn annog buddsoddiad newydd mewn adeiladau cyfagos a'r ardal yn gyffredinol. Mae diffyg cynnal a chadw yn golygu bod ffabrig yr adeiladau hyn yn dirywio'n gyflymach, a hynny wedyn yn llesteirio unrhyw raglenni adfywio, fel yn Rhiw'r Orsaf.

- Mae rhai o'r siopau yn wag ac mae rhai eraill yn wag ar y lloriau uwch. Gall y diffyg budd economaidd arwain at gynnal a chadw gwael ac atgyweirio amhriodol ac mae hyn yn effeithio ar amgylchedd gweledol a ffisegol y dref.

- Mae addasu ac atgyweirio gwael yn golygu bod llawer o'r rhinweddau treftadaeth traddodiadol wedi'u colli a hynny'n amharu ar gymeriad yr adeiladau ac ar drefluniau hanesyddol. Mae effaith cronnus cymaint o newidiadau bach yn cael effaith arwyddocaol ar adeiladau unigol ac ar strydluniau ehangach.

1.3.2 Mae angen rheoliadau statudol, yn enwedig wrth ystyried y canlynol:

- newid ffenestri codi pren a rhoi ffenestri fframiau UPVC ac o ddyluniad gwahanol yn eu lle;
- colli manylion a deunyddiau treftadaeth gan gynnwys gwaith atgyweirio o ansawdd isel;
- y defnydd o rendr a gorffeniadau wal eraill anaddas ar gyfer adeiladau treftadaeth;
- gosod drysau ffrynt newydd gyda dyluniadau a gorffeniadau anaddas;
- tynnu mowldinau treftadaeth a manylion eraill;
- tynnu simneiau a photiau;
- ffenestri anaddas a gwael o ran maint, a ffenestri dormer;
- gosod erialau a dysglau lloeren.
- lleoliad a maint anaddas offer ynni adnewyddadwy

## 2. Canllawiau Polisi ac Egwyddorion Dylunio

### 2.1 Egwyddorion Dylunio

*2.1.1 Mae 'Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru*

*mewn Ffordd Gynaliadwy' CADW Mawrth 2011*, yn nodi chwe egwyddor allweddol. Yr egwyddorion hyn yw sail yr argymhellion polisi a rheoli sy'n cael eu nodi yn y ddogfen hon.

**Egwyddor 1 - Rheolir asedau hanesyddol er mwyn cynnal eu gwerth**
Gwaith y ddogfen hon yw adnabod y materion allweddol a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli'r ardal;

**Egwyddor 2 - Mae deall arwyddocâd asedau hanesyddol yn hollbwysig**
Mae Gwerthusiad Ardal Gadwraeth Wdig yn adnabod, disgrifio ac yn lleoli cymeriad a gwedd gwahanol rannau o'r ardal;

**Egwyddor 3 - Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd a rennir**
Mae Adran 2 y Cynllun Rheoli yn adnabod polisïau a chanllawiau dylunio ar gyfer dyfodol holl adeiladau a mannau o fewn yr Ardal Gadwraeth;

**Egwyddor 4 - Bydd pawb yn gallu mynd ati i gynnal yr amgylchedd hanesyddol**
Yn ogystal â'r canllawiau yn adran 2, gweler Adran 5. Rhaglen Weithredu - Canllawiau ynghylch Cyfranogiad Cymunedol;

**Egwyddor 5 - Rhaid i benderfyniadau ynghylch newid fod yn rhesymol, yn dryloyw ac yn gyson**
Adran 4 – Mae'r Argymhellion Rheoli yn nodi'r gweithredoedd allweddol sydd eu hangen i gefnogi gweithdrefnau cynllunio cyfredol yr Ardal Gadwraeth;

**Egwyddor 6 - Rhaid cofnodi penderfyniadau a dysgu'r gwersi sy'n deillio ohonynt**
Adran 4.5 – Mae Deall Cadwraeth yn rhestru dulliau i ddarparu gwybodaeth i'r gymuned a'r awdurdodau.

**2.2 Cyd-destun Datblygiad yr Ardal Gadwraeth**
Mae'r ddogfen **Gweledigaeth i Sir Benfro hyd 2020** yn anelu at greu:

> *"...lle diogel a deniadol i fyw a gweithio ynddo, ac i ymweld ag ef gydag amgylchedd morol a daearol o ansawdd uchel. Caiff ei seilio ar rwydwaith integredig o gymunedau cynaliadwy gyda dyfodol hir dymor sy'n cynnal diwylliant, iaith, treftadaeth a thraddodiadau amrywiol Sir Benfro."*

2.2.1 Mae gan Wdig y potensial i chwarae rôl allweddol yn y broses o wireddu'r weledigaeth

## 2.3 Polisi Datblygu ac Egwyddorion Dylunio Ardal Gadwraeth

2.3.1 Mae dynodiad Ardal Gadwraeth yn cyflwyno rheolaeth dros ddymchwel ac yn rhoi rheolaeth gryfach dros ddatblygiad gyda'r nod o gynnal, cadw a gwella diddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth. Bydd unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer datblygu o fewn Ardal Gadwraeth angen Caniatâd Ardal Gadwraeth. Dylid sicrhau bod darluniadau manwl ar gael i gefnogi'r holl geisiadau ynghyd â manylion tirlunio arfaethedig, lle bo hynny'n angenrheidiol. Bydd hynny'n galluogi'r awdurdodau i asesu'r cynnig yn llawn ac i ystyried ei effaith ar yr Ardal Gadwraeth. Dylid darllen y rhain ynghyd â'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a fabwysiadwyd.

2.3.2 Mae polisïau yn ymwneud â chynnal yr amgylchedd hanesyddol o fewn Cyngor Sir Penfro ar gael yn y CDLl a fabwysiadwyd ar 28 Chwefror 2013. Mae'r CDLl yn parhau i bwysleisio ac atgyfnerthu pwysigrwydd Polisïau Cadwraeth y sir, ac yn cyflwyno canllawiau eglur a blaenoriaethau.

2.3.3 Bydd angen cysylltu gweithrediad polisi a chanllawiau dylunio, generig a lleol, ynghyd â chyngor dylunio i'r Ardal Gadwraeth gyfan ac argymhellion arbennig, gyda'r Cynllun Datblygu fel canllawiau cynllunio atodol. Bydd angen diogelu'r asedau cadarnhaol a ddisgrifiwyd yn adran un, tra bydd angen datrys neu gyfyngu ar y problemau negyddol.

## 2.4 Canllawiau Dylunio er mwyn Gwella Adeiladau Presennol

2.4.1 Mae newidiadau modern amhriodol yn gallu effeithio'n niweidiol ar gynildeb, cydbwysedd a maint drychiad adeiladau a hefyd yn gallu bod yn niweidiol i ffabrig adeiladau hanesyddol. Mae'r canlynol ymhlith y nodweddion gwreiddiol sydd dan fygythiad o newidiadau o'r fath: wynebau siopau, ffenestri codi pren, drysau a fframiau drysau, canllawiau haearn bwrw, rheiliau, offer dal dŵr glaw, a simneiau a photiau simnai. Felly, mae'n bwysig bod perchenogion eiddo a phreswylwyr yn magu agwedd gadarnhaol tuag at atgyweirio ac ailosod y nodweddion hyn.

2.4.2 Mae'r nodiadau canlynol yn amlygu'r prif ystyriaethau mewn perthynas â rheoli datblygiadau a chynnal neu ailosod cydrannau treftadaeth o fewn yr Ardal Gadwraeth. Mae'r gwefannau canlynol, gan Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol, Cymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol, Historic England a Cadw[20] yn darparu cyngor ychwanegol am sut dylid cyflawni gwaith atgyweirio a newidiadau.

[20] Cyfeiriadau gwefan yn gywir ym mis Tachwedd 2015

- www.ihbc.org.uk/page55/ihbc_publications/index.html
- http://www.maintainyourbuilding.org.uk/main/
- https://historicengland.org.uk/advice/technical-advice/buildings/maintenance-and-repair-of-older-buildings/
- http://www.maintenancematterswales.org/

2.4.3 Deall effaith unrhyw newidiadau yw'r allwedd i sicrhau bod yr amgylchedd adeiledig yn cael ei chynnal a'i chadw'n briodol. Ni ddylid ymgymryd ag unrhyw waith heb sefydlu:

- Pam ei fod yn angenrheidiol;
- Beth mae'n ceisio ei gyflawni; ac
- A oes posibilrwydd o unrhyw ganlyniadau niweidiol.

2.4.4 Mae hyn yn golygu bod yn rhaid asesu pob safle yn nhermau ei gyfraniad i gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth, ei werth hanesyddol, y math o adeiladu a pherfformiad technegol, gan gynnwys presenoldeb diffygion neu unrhyw fygythiadau eraill i'w ffabrig. Dylid ceisio cyngor arbenigol ar bob prosiect mawr, gan bensaer, syrfëwr adeiladau neu gynlluniwr sy'n brofiadol o ran gweithio ag amgylcheddau hanesyddol. Hyd yn oed yn achos y prosiectau symlaf, mae'n hanfodol deall sut mae adeilad penodol yn 'gweithio' o ran ei hunan ac mewn perthynas â'i leoliad. Dylid sicrhau bod cynllun cadwraeth cynhwysfawr a manwl yn ei le cyn dechrau ar unrhyw waith ar adeiladau mwy o faint ac adeiladau o werth hanesyddol eithriadol. Nid yw dynodiad ardal gadwraeth yn rhwystro newid ond yn hytrach yn ffurfio fframwaith y gall y dref ddatblygu o'i fewn heb golli unrhyw nodweddion sy'n ei gwneud yn arbennig.

**Cynnal a chadw**

2.4.5 Cynnal a chadw cyson yw'r ffordd orau a mwyaf economaidd o ofalu am ffabrig adeilad. Cyfrifoldeb y perchenogion a'r preswylwyr yw gofalu am adeilad. Bydd adeilad sy'n cael gofal yn cadw ei werth ac ni fydd angen atgyweiriadau drud. Diogelu'r adeilad rhag effeithiau dŵr a lleithder yw'r mater pwysicaf. Toeon, cwteri a phibau dŵr dylid eu hatgyweirio'n gyntaf. Dylai perchenogion adeiladau mawr ystyried creu cynllun cynnal a chadw yn seiliedig ar archwiliadau gweledol blynyddol ac arolwg manwl bob pum mlynedd.

***Atgyweirio a Chynnal a Chadw***

2.4.6 Dylai cynnal a chadw rheolaidd leihau'r angen am waith atgyweirio sylweddol i bob adeilad. Dylid bob amser asesu'n gyntaf os oes modd atgyweirio nodweddion gwreiddiol. Fodd bynnag, bydd rhai elfennau wrth reswm yn dod i ddiwedd eu hoes, a bydd yn rhaid ystyried pa ddeunyddiau traddodiadol a thechnegau atgyweirio dibynadwy y dylid eu defnyddio. Os na wneir hyn, bydd gwerth hanesyddol adeiladau unigol yn diflannu a gyda hynny, diddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Pwrpas

atgyweirio unrhyw adeiladau o fewn yr ardal gadwraeth yw rhwystro, neu o leiaf arafu, y broses ddirywio heb niweidio neu addasu nodweddion sy'n cyfrannu i'w pwysigrwydd hanesyddol / pensaernïol.

2.4.7 Mae'r egwyddorion atgyweirio canlynol yn fan cychwyn da ar gyfer deall egwyddorion ac athroniaeth atgyweirio adeilad hanesyddol:

- *Lleihau Ymyriad:* Mae'n rhaid sicrhau nad oes mwy o ymyriadau na'r hyn sy'n hollol angenrheidiol i sicrhau goroesiad tymor hir yr adeilad.
- *Osgoi difrod diangen:* Mae dilysrwydd adeilad hanesyddol yn dibynnu ar gyfanrwydd ei ffabrig. Bydd cael gwared â ffabrig hanesyddol a rhoi ffabrig newydd yn ei le, waeth pa mor ofalus y gwneir hyn, yn effeithio'n niweidiol ar olwg adeilad, yn lleihau ei werth fel ffynhonnell o wybodaeth hanesyddol ac yn erydu arbenigrwydd lleol.
- *Dadansoddi achos y diffygion:* Mae atgyweirio neu ailosod deunydd pydredig heb ddeall pam mae angen ei ailosod yn gallu arwain at broblemau pellach.
- *Gadael i'r adeilad 'anadlu':* Mae'r rhan fwyaf o adeiladau modern wedi'u gwneud o ddeunyddiau caled, cryf ac anhydraidd. Maent yn dibynnu ar rwystrau ffisegol fel cyrsiau gwrth leithder a philenni, waliau ceudod a chladin i gadw lleithder allan. Mae adeiladau hanesyddol a thraddodiadol yn wahanol iawn. Mae gan lawer ohonynt waliau solet ac mae'r rhan fwyaf ohonynt o ddeunyddiau mandyllog sy'n amsugno lleithder ac sydd wedyn angen i'r lleithder hwnnw anweddu, hy, 'anadlu'. Bydd atgyweirio adeiladau o'r fath gyda deunyddiau caled, anhydraidd yn achosi niwed i ffabrig sydd o bosibl wedi goroesi am gannoedd o flynyddoedd. Mae'n bwysig iawn defnyddio deunyddiau o ansawdd uchel yn unig, gyda thechnegau dibynadwy. Mae'n bosibl meddwl yn y tymor byr bod deunyddiau rhad, modern fel plastig yn cynnig manteision, ond bydd dyfodol hir dymor cymeriad a golwg yr ardal yn dioddef. Mae angen defnyddio deunyddiau traddodiadol a fydd yn diflannu i'r cefndir gydag amser a thywydd. Dylid bob amser asesu pa waith atgyweirio, adfer a gwella sy'n angenrheidiol o fewn cyd- destun yr adeilad cyfan; nid yw'n ddigonol ystyried blaen yr adeilad neu wyneb siop yn unig.

## Toeon

2.4.8 Mae toeon ardal drefol yn gallu ffurfio nenlinell a phroffil gweledol strydlun ac yn rhan bwysig o'i hunaniaeth. Mae'r cyfuniad o ddeunyddiau, manylion, ffurf a maint yn creu'r 'het' sy'n eistedd uwchben yr adeilad ac sy'n bwysig i'w gymeriad. Er nad yw llawer o'r manylion bob amser i'w gweld o lefel y stryd, mae topograffi Wdig yn golygu bod modd edrych dros y toeon o wahanol rannau o'r ardal ac o wahanol rannau o'r ardal. Mae cysondeb, unffurfiaeth a chyfanrwydd y toeon gwreiddiol wedi'i golli wrth i bobl ddefnyddio deunyddiau

gwahanol a dymchwel simneiau a photiau simnai. Mae'r golled i'w gweld yn glir pan fydd enghreifftiau gwreiddiol yn dal i'w gweld ochr yn ochr â'r adeiladau sydd hebddynt. Wrth reswm, mae'r to yn rhan hanfodol o adeilad, gan amddiffyn yr adeilad rhag y tywydd, ac o'r herwydd, dyma un o'r rhannau mwyaf allweddol sydd angen cynnal a chadw rheolaidd ac atgyweirio. Felly, mae angen manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i adfer a gwella'r to, fel rhan o'r gwaith arferol o ofalu am yr adeilad.

### *Defnyddiau Toeon*

2.4.9 Llechi naturiol o Gymru yw'r prif ddefnydd ar doeon adeiladau traddodiadol yn Ardal Gadwraeth Wdig, a dylid defnyddio llechi o'r un math wrth atgyweirio neu adfer unrhyw doeon. Dylid defnyddio morter calch naturiol wrth osod unrhyw gribau, ymylon a manylion eraill. Ni ddylid defnyddio clipiau plastig neu debyg. Nid yw teils concrit a chlai yn briodol ar adeiladau treftadaeth. Heblaw am edrych yn fwy garw, maent yn pwyso cryn dipyn yn fwy na'r defnyddiau llechi gwreiddiol a hynny yn ei dro yn achosi problemau i'r strwythur pren sy'n cynnal y to. Mae mewnforio llechi naturiol sy'n cyd-fynd â lliw llwyd neu glas arbennig y llechi Cymreig gwreiddiol yn ateb mwy cost-effeithiol ond mae'n bwysig chwilio am lechi sy'n dod o chwarel safonol er mwyn osgoi problemau hir dymor wrth i'r llechi hindreulio. Er ei bod yn anodd weithiau gwahaniaethu rhwng llechi artiffisial newydd a rhai naturiol, mae llechi artiffisial yn hindreulio mewn ffordd wahanol a thros amser, fe ddaw'n amlwg eu bod yn wahanol i'r llechi gwreiddiol. Os rhoddir deunydd inswleiddio yn y to, dylai fod ar lefel y nenfwd neu rhwng y trawstiau, cyn belled â bod awyriad digonol (trwy dyllau dan y bondo, ac nid awyrellau penodol wedi'u gosod yng ngoledd y to).
Bydd deunydd inswleiddio ar ben y trawstiau yn codi proffil y to ac yn achosi problemau posibl ger y bondoeau a hefyd lle mae'n ffinio ag adeiladau cyfagos. Fodd bynnag, mae cyflwyno llawer o ddeunydd inswleiddio mewn adeiladau hŷn yn gallu achosi cyddwysiad a hynny wedyn yn arwain at bydredd.

### *Ffenestri to a dormer*

2.4.10 Os oes rhaid wrth ffenestri to neu ddormer mewn llofftydd sydd wedi'u troi'n ystafelloedd, dylid eu gosod ar gefn yr adeilad gan eu bod yn amharu ar nenlinell ddi-dor y toeon ar yr ochr sy'n wynebu'r stryd. Dylid osgoi ffenestri dormer newydd lle bynnag bo hynny'n bosibl, gan eu bod yn effeithio'n andwyol ar broffil y to, a graddfa a chydbwysedd ffurf a maint yr adeilad. Lle bo ffenestri dormer gwreiddiol yn bodoli, dylid osgoi unrhyw newidiadau i'w cyfraneddau a'u maint cyffredinol. Dylid ystyried defnyddio fersiynau modern, gwydr dwbl o ffenestri to haearn bwrw gwreiddiol cynnar (gan sicrhau bod y cyfrannedd a'r maint yn gywir, ynghyd â bar fertigol) er mwyn cadw cymaint ag sy'n bosibl o gymeriad y to.

***Simneiau a Photiau Simnai***

2.4.11 Mae cyrn simneiau a photiau simnai yn ychwanegu at ddiddordeb y nenlinell a’r strydlun. Dylid cadw simneiau a’u hatgyweirio gyda photiau clai newydd yn ôl yr angen. Mae’n bosibl y bydd yn rhaid i syrfëwr strwythurol archwilio sadrwydd rhai simneiau uchel. Os yw'r corn simnai wreiddiol wedi cael ei leihau o ran maint (gyda slabiau concrit yn aml ar ei ben), yna dylid ei ailadeiladu i’w uchder gwreiddiol. Os nad oes tystiolaeth o batrwm y corn gwreiddiol yn bodoli, dylid cadw’r steil mor syml ag sy’n bosibl, gan roi cyrsiau corbelaidd bargodol ar ei ben. Os yn bosibl, dylid osgoi defnyddio brics concrit ac ni ddylid rendro cyrn simnai. Dylid gosod sêl blwm (yn yr uniad rhwng yr arwyneb fertigol a defnydd y to) rhwng y simnai a’r to yn y dull traddodiadol ac yn unol â chanllawiau’r Lead Sheet Association.

***Cwteri a phibellau dŵr***

2.4.12 Dylid ystyried defnyddio cwteri haearn bwrw (neu alwminiwm bwrw) traddodiadol wrth atgyweirio adeiladau treftadaeth. Dylid bob amser ddefnyddio cwteri hanner cylch syml ar adeiladau cynnar. Mae cwteri hanner cylch a chwteri patrwm ogee yn addas i adeiladau diweddarach. Ychydig iawn o gwteri a phibellau dŵr gwreiddiol sydd ar ôl, gyda’r mwyafrif helaeth wedi’u disodli gan Upvc neu mewn ychydig o achosion gan alwminiwm allwthiol. Fodd bynnag, nid yw’r deunyddiau hyn mor gadarn â haearn bwrw neu alwminiwm bwrw ac nid ydynt cystal am wrthsefyll effeithiau tywydd garw. Dylid atgyweirio cwteri sydd wedi’u difrodi neu sydd ar goll, i rwystro dŵr rhag treiddio i mewn i adeiladau ac achosi niwed (dde uchod). Mae dyluniad blêr nwyddau dŵr glaw a deunyddiau o ansawdd gwael yn cael effaith negyddol ar olwg yr adeilad.

***Ffenestri a gwydriad***

2.4.13 Ffenestri yw ‘llygaid’ adeilad ac o’r herwydd maent yn rhan ganolog o gymeriad tŷ. Mae’r ffenestr godi ddwbl yn nodweddiadol o fwyafrif yr adeiladau a adeiladwyd cyn dechrau’r ugeinfed ganrif. Yn yr ardal hon, mae ffenestri gasment ochr neu grog yn nodweddiadol o adeiladau mwy diweddar yn unig. Yn ddieithriad mae newidiadau i faint agoriad y ffenestri neu’r ffenestri eu hunain yn effeithio’n niweidiol ar wyneb yr adeilad. Dylid osgoi defnyddio awyrellau diferu, gan eu bod yn effeithio’n niweidiol ar gymeriad adeiladau.

2.4.14 Dylid ceisio, bob amser, cadw a thrwsio ffenestri codi gwreiddiol, oni bai bod hynny’n hollol anymarferol. Anaml iawn y bydd yn rhaid gosod ffenestri newydd. Mae dirywiad fel rheol yn digwydd ar rannau gwaelod ffenestri, a gellir asio darnau newydd o goed at yr hen goed. Mae’r gwydr coron neu silindr gwreiddiol yn deneuach ac yn fwy anwastad ei arwynebedd na gwydr modern. Mae’n rhoi adlewyrchiadau mwy

cynnil a lle mae'r gwydr gwreiddiol yn dal i fodoli, dylid ei gadw. Mae gwydr modern yn drymach, ac mae'n debygol y bydd angen pwysau sash trymach i wrthbwyso'r ffenestr. Os oes rhaid gosod ffenestr newydd yn hytrach na thrwsio'r un wreiddiol, dylai'r ffenestr newydd fod yn un pren a'r dyluniad yr un fath â'r gwreiddiol. Dylid hefyd cadw siliau cerrig gwreiddiol lle bo hynny'n bosibl. Os na ellir trwsio'r sil garreg, y dewis gorau yw hen sil garreg wedi'i hadfer, sy'n cyd-fynd, neu sil concrit o'r un maint.

***Pyrth a drysau***

2.4.15 Mae llawer o'r materion sy'n berthnasol i ffenestri a'r gwydriad hefyd yn berthnasol i byrth a drysau. Lle bo hynny'n bosibl, dylid cadw a thrwsio drysau pren traddodiadol. Os oes rhaid defnyddio drysau newydd, dylid sicrhau eu bod yn debyg i ddyluniad y drysau gwreiddiol, neu'n sicr eu bod yn gweddu'r cyfnod adeiladu gwreiddiol. Tra bod patrymau drysau traddodiadol yn fwy amrywiol na phatrymau ffenestri, mae yna rai egwyddorion cyffredinol o bwys. Ar y cyfan, nid oedd gwydr yn cael ei osod yn y prif ddrws blaen os oedd ffenestr linter uwch ei ben, er i rai perchenogion yn niwedd oes Fictoria a'r cyfnod Edwardaidd roi gwydr addurnedig neu farugog yn lle rhai o'r paneli pren uchaf. Mae'n rhaid cadw, trwsio a chynnal ffenestri linter ac unrhyw nodweddion ategol eraill bob amser. Mae dyluniad ac arddull y gwaith haearn hefyd yn bwysig, a dylai gyd-fynd â dyluniad ac arddull y drws gwreiddiol. Dylid osgoi dolennau lifer allanol.

***Mynediad i'r anabl***

2.4.16 Mae'n angenrheidiol darparu mynediad i'r anabl, er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth hygyrchedd. Dylid bob amser sicrhau bod y rheoliadau a'r canllawiau a geir yn y Ddeddf Gydraddoldeb a Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu yn cael eu dehongli'n gywir yn achos Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth. Lle bo gwaith o'r fath yn digwydd, dylid gwneud hynny'n sensitif gan roi'r un sylw i brif egwyddorion maint, dyluniad, deunyddiau a saernïaeth ag a wneir i'r adeilad cyfan. Argymhellir y dylid ymgynghori'n gynnar gydag adran rheoli adeiladu Cyngor Sir Benfro.

***Lefel y Stryd***

2.4.17 Mae ansawdd adeiladau ar lefel y stryd yn arbennig o bwysig yn yr ardaloedd masnachol lle mae adeiladau'n aml yn cael eu hadeiladu'n dynn wrth gefn y palmant ac mae'r cyfuniad o wynebau siop, arwyddion, canopïau ac estyll tywydd yn ffurfio argraff weledol ddominyddol cymeriad ardal.

***Atgyweirio ac adfer wynebau siop traddodiadol***

2.4.18 Mae'r wyneb siop traddodiadol yn ffurfio ‘ffrâm’ ar gyfer arddangosfa'r ffenestr, sy'n cynnwys yr astell dywydd uwchben, panel islaw'r linter a philastrau i'r ddwy ochr. Dylai cyfraneddau pob cydran ffurfio cyfansoddiad cytbwys. Gall mynediad i'r adeilad fod yn ganolog neu i un ochr gan ddibynnu ar led yr adeilad. Dylai grisiau addurnedig mewn drysau wedi'u gosod yn ôl gael eu cadw a'u hatgyweirio. Dylai'r astell dywydd gael ei gorffen ar y brig â mowldin cornis a'i chynnwys ar y ddwy ochr gan gynhalbost neu gorbel, sy'n gweithredu fel pen colofn y pilastrau. Bydd y defnydd o deils ar baneli islaw'r linter yn helpu i wrthsefyll dŵr ac yn darparu manylion traddodiadol.

2.4.19 Dylid cadw wynebau siop traddodiadol, neu gydrannau sy'n goroesi, a'u hatgyweirio lle bo hynny'n bosibl, gan gynnwys mewn achosion lle nad yw'r eiddo bellach yn cael ei ddefnyddio fel eiddo manwerthu. Efallai bod nodweddion gwreiddiol wedi'u cuddio o dan wynebau diweddarach. Pan fydd wynebau siop wedi cael eu colli'n llwyr ond mae tystiolaeth ffotograffig o'u dyluniad gwreiddiol yn bodoli, replica manwl fyddai mwyaf priodol. Pan na fydd unrhyw dystiolaeth o'r dyluniad gwreiddiol yn bodoli, gellir defnyddio dyluniad modern sy'n dilyn egwyddorion 'fframio' gwreiddiol.

2.4.20 Pan fydd adeiladau ar wahân wedi cael eu cyfuno i ffurfio un uned, dylai pob adeilad gael ei wyneb unigryw ei hun i gynnal rhythm a chyfrannedd y strydlun. Ni ddylai'r un astell dywydd barhau ar draws y ddau ffasâd. Dylid isrannu’r ffenestr yn fertigol i gynnal cyfraneddau sy'n nodweddiadol i'r adeilad a'r cyd-destun.

### *Estyll tywydd, arwyddion, canopïau a llenni*

2.4.21 Mae dimensiynau a chyfraneddau'r astell dywydd yn gydran hanfodol o gymeriad ac ymddangosiad cyffredinol y wyneb siop. Yn gyffredinol, ni ddylai'r astell dywydd fod yn ddyfnach na 400mm a dylid ei chadw ymhell islaw lefel ffenestri'r llawr uchaf neu ffenestri bae sy'n estyn allan. Mae llythrennau wedi'u paentio â llaw neu wedi'u gosod yn unig yn well ac fel arfer ni ddylen fod yn fwy na 225mm o ran uchder. Dylid osgoi arwyddion persbecs, plastig neu flwch. Gall arwyddion sy'n estyn allan sydd wedi'u dylunio a'u crefftau’n dda fywiogi'r strydlun, ond fel arfer mae symbolau'n fwy effeithiol nag ysgrifen. Dylid annog llenni a chanopïau cod adwy, heb lythrennau, a dylent fod o leiaf 2.1 metr uwchben lefel y ddaear.

### *Goleuo*

2.4.22 Yn gyffredinol dylid osgoi goleuadau sy'n gysylltiedig ag arwyddion yn yr Ardal Gadwraeth. Efallai y gellir caniatáu goleuadau i lawr arwahanol neu oleuadau ar arwydd sy'n hongian yn destun i gymeradwyaeth fanwl.

### *Peintwaith*

2.4.23 Tra bod stwco a rendr bob amser wedi'u peintio neu liwio, anaml iawn y byddai hynny'n digwydd i frics, cerrig a theils. Dylid peintio gwaith pren mewn lliwiau cryf, tywyll, gan osgoi lliwiau llachar a / neu gyferbyniadau cryf. Dylid peintio gwaith haearn yn ddu, gwyrdd tywyll neu efydd-biws dwfn. Yn gyffredinol, fe fydd defnyddio ychydig o liwiau yn fwy llwyddiannus ac yn creu edrychiad mwy cydlynol a chynnil. Mae gan rai o'r gwneuthurwyr paent mawr liwiau treftadaeth arbennig gan gynnwys Dulux, Farrow a Ball a Crown, sy'n fan cychwyn da i'r gwaith o ddewis lliwiau. Cynghorir perchenogion i ymgynghori gyda swyddogion yr ACLl i sicrhau bod lliwiau addas yn cael eu dewis i adeiladau o fewn yr ardal gadwraeth.

### *Waliau terfyn a rheiliau*

2.4.24 Er bod yr adeiladau'n gyffredinol wedi'u hadeiladu'n dynn i gefn y palmant yn ardaloedd manwerthu'r dref, ac felly nad oes angen unrhyw derfyn, mewn llawer o'r ardaloedd oedd, neu sy'n cael eu defnyddio at ddibenion preswyl a masnachol mae waliau terfyn a rheiliau'n hynod o bwysig gan eu bod yn cyfrannu at gymeriad ac ansawdd cyffredinol y strydlun. Dylid rhoi sylw arbennig i sicrhau nad yw waliau terfyn a rheiliau'n cael eu tynnu a'u dymchwel er mwyn gwneud lle i barcio ceir ar dir yr adeilad.

## 2.5 Polisïau ar gyfer datblygiad newydd o fewn ardaloedd treftadaeth

2.5.1 Ni fu llawer o ddatblygiad 21ain ganrif yn yr Ardal Gadwraeth. Disgwylir y bydd cynigion ailddatblygu sensitif a phriodol ar gyfer safleoedd priodol yn gwella cymeriad ac ansawdd yr ardal pan fyddant yn dod i law.

2.5.2 Yn gyffredinol, lle cynigir datblygiad newydd a / neu estyniadau, mae'n bwysig eu bod yn dilyn egwyddorion cadarn dylunio trefol, yn ogystal â defnyddio manylion priodol mewn perthynas â'r cyd-destun hanesyddol. Dylai'r holl ddatblygiadau newydd o fewn yr ardal gadwraeth fod yn:

- Cynnal ac atgyfnerthu patrwm arbennig datblygiad traddodiadol, gan gynnwys patrymau stryd, mannau agored a choed, terfynau plot a mathau o derfynau;
- Ystyried llinellau adeiladu presennol a chyfeiriadaeth datblygiad sydd yno eisoes;
- Ymateb i rythm a dyluniad israniad y strydlun ac adeiladau unigol yn nhermau bylchau ac agoriadau sy'n ymrannu'r ffasâd;
- Atgyfnerthu cymeriad a graen arbennig ardal cymeriad canol y dref, trwy ddeall y mathau ac arddulliau o adeiladau a geir yno, ynghyd â'u nodweddion a'u

deunyddiau. Dylid osgoi datblygiadau pastiche sy'n ceisio efelychu'n arwynebol nodweddion hanesyddol mewn adeiladau newydd;

- Parchu maint a graddfa'r adeiladau cyfagos. Mae'n hanfodol sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn gwrthdaro gydag adeiladau sydd yno eisoes o ran uchder, lefelau'r lloriau, maint y ffenestri a drysau, maint cyffredinol a siâp y toeon;
- Cynnal a chadw golygfeydd allweddol o fewn yr Ardal Gadwraeth, i mewn i'r Ardal a hefyd allan o'r Ardal; a
- Lle bo hynny'n bosibl, cyfyngu effaith gweledol cerbydau wedi'u parcio a mannau parcio ceir ar y strydlun a thirwedd strydoedd ac adeiladau hanesyddol.

2.5.3 Lle y bwriedir creu datblygiad newydd mewn ardaloedd sydd gerllaw'r Ardal Gadwraeth, fe fydd yr un mor bwysig rhoi gofal ac ystyriaeth i effaith y dyluniad a'r manylion trefol. Lle bo hynny'n briodol, dylai pob datblygiad newydd barchu'r egwyddorion a restrir uchod, gan roi sylw arbennig i:

- Sicrhau bod y datblygiad newydd yn parhau gyda'r raddfa, ffurf a deunyddiau lleol er mwyn atgyfnerthu cymeriad pensaernïol arbennig y cyd-destun cyfagos;
- Ystyried effaith y datblygiad newydd ar olygfeydd allweddol; a
- Sicrhau bod cynlluniau ffyrdd a threfniadau parcio newydd yn effeithio cyn lleied â phosibl ar ansawdd strydluniau'r ardal. Mae angen cynlluniau, dyluniadau a thirlunio sensitif i gyfyngu ar y defnydd o darmac a rhesi o geir wedi'u parcio;

2.5.4 Mae'n bosibl y bydd dyluniadau cyfoes o ansawdd uchel yn briodol i'r Ardal Gadwraeth, ond rhaid gofalu nad oes unrhyw ddatblygiadau anghydnaws o ansawdd isel.

# 3. Canllawiau Penodol ar gyfer Adeiladau, Safleoedd Arwyddocaol a Thir y Cyhoedd

## 3.1 Dyluniad Tir y Cyhoedd

3.1.1 Mae nodweddion amrywiol Wdig yn adlewyrchu hanes a datblygiad arbennig gwahanol ardaloedd, a hefyd eu maint, lleoliad, cynllun a phatrymau defnydd, boed yn hanesyddol ac yn gyfoes. Mae trin yr ardaloedd rhwng yr adeiladau yn hanfodol bwysig i ansawdd a chymeriad cyffredinol ardal, a dylid dilyn egwyddorion dylunio trefol cadarn. Dylid rhoi sylw i'r materion penodol canlynol:

- Cyd-destun – rhaid gwerthfawrogi lleoliad a hunaniaeth ardal, ynghyd â defnyddio deunyddiau a manylion priodol i ymateb i, ac i atgyfnerthu, cymeriad lleol y man dan sylw.
- Creu gofodau a mannau – mae natur agored neu gaeedig gofod, ynghyd â'i faint, ffurf a graddfa, yn helpu i roi cymeriad a hunaniaeth i'r man, ac yn atgyfnerthu materion fel diogelwch, sicrwydd, cysur, amrywiaeth a diddordeb.
- Annog gweithgaredd - mae wynebau blaen sionc yn helpu i ysgogi gweithgaredd a bywiogrwydd ar y strydoedd yn ogystal â sicrhau goruchwyliaeth naturiol o ofod neu stryd.
- Amrywiaeth a diddordeb – fel yr adeiladau mewn strydlun, mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i diroedd y cyhoedd, o ran cysondeb ac amrywiaeth, er mwyn creu ystod o gyfleoedd a lleoliadau ar gyfer defnyddwyr a gwahanol grwpiau cymdeithasol.

3.1.2 Uno yn hytrach na chystadlu gyda'r amrywiaeth eang o ddeunyddiau a dyluniadau a ddefnyddir ar yr adeiladau ddylai fod y nod er mwyn llunio tiroedd cyhoeddus syml a threfnus. Wrth gwrs, mae sicrhau newidiadau mawr i'r dref yn afrealistig yn y tymor byr, ond dylid ffurfio strategaeth tymor byr, tymor canolig a thymor hir cyfannol ac integredig sy'n datgan y weledigaeth ar gyfer yr ardal. Fel rhan o'r agwedd hon, mae celf gyhoeddus yn darparu mecanwaith uniongyrchol i alluogi tiroedd y cyhoedd i ymateb i dreftadaeth a chymuned Wdig a Sir Benfro.

# 4. Argymhellion Rheoli

## Gwneud penderfyniadau gan gynnwys rhestriad lleol, newidiadau i ffiniau a Chyfarwyddiadau Erthygl 4

### 4.1 Rhestru lleol yn yr Ardal Gadwraeth

4.1.1 Pwrpas dynodi Ardal Gadwraeth yw darparu gwarchodaeth ychwanegol ar gyfer yr adeiladau niferus nad oes ganddynt nodweddion unigol sy'n addas ar gyfer Rhestriad Statudol llawn. Mae'r eiddo canlynol a'r grwpiau canlynol o adeiladau o fewn yr Ardal Gadwraeth wedi'u nodi yng Ngwerthusiad yr Ardal Gadwraeth fel bod yn anrhestredig ond yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal gadwraeth a gellid eu hystyried ar gyfer eu cynnwys ar restr leol:

- Tafarn y Rose and Crown, Rhiw'r Orsaf
- Eiddo The Lynch a La Serena, Ffordd y Cei
- Fferyllfa Myrtle
- Capel Bedyddwyr Goedwig
- Preswylfa, Main Street
- Capel Ebenezer
- Clement Road Rhifau 1-6
- Rose Cottages, New Hill

### 4.2 Ailasesu ffiniau'r Ardal Gadwraeth

4.2.2 Yn wreiddiol dynodwyd Ardal Gadwraeth Wdig yn 1975. Mae Gwerthusiad yr Ardal Gadwraeth yn nodi bod "*cyfiawnhad dros gadw ffiniau'r Ardal Gadwraeth fel ag y maent, fodd bynnag ceir nifer o ardaloedd nad ydynt bellach yn deilwng o gael eu cynnwys yn yr Ardal Gadwraeth.*"

### 4.3 Cyfarwyddyd Erthygl 4 a Datblygiad a Ganiateir

4.3.1 Gall Cyfarwyddiadau Erthygl 4 gael eu gosod gan awdurdodau cynllunio lleol i reoli rhai newidiadau i anheddau a fyddai fel arall yn awtomatig yn 'ddatblygu a ganiateir' dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 a heb fod angen caniatâd cynllunio. Defnyddir y rheoli cynllunio ychwanegol hwn lle byddai bygythiad i gymeriad ardal o bwysigrwydd cydnabyddedig.

4.3.2 Dylid nodi mai dim ond ar gyfer anheddau ac nid eiddo masnachol, mae Cyfarwyddyd o'r fath yn berthnasol, gan nad oes gan ddefnydd masnachol yr un hawliau datblygu ag eiddo preswyl.

4.3.3 Ym mis Chwefror 2016 cadarnhawyd Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer datblygu preswyl o fewn Ardal Gadwraeth Wdig. Mae eitemau o waith y mae caniatâd cynllunio yn ofynnol ar eu cyfer yn cynnwys:

- Newidiadau i neu ddymchwel rheiliau neu waliau ffin flaen;
- Darparu llawr caled mewn gerddi blaen;
- Ymestyn, gwella, ailosod neu newid drychiadau sy'n wynebu'r stryd, gan gynnwys newidiadau i ddrysau allanol, ffenestri a phortshys;
- Newidiadau i doeon;
- Newid neu gael gwared â simneiau a photiau;
- Gosod dysglau lloeren, erialau teledu ac offer ynni adnewyddol;
- Nwyddau dŵr glaw;
- Adeiladu portshys ac estyniadau ochr; a
- Pheintio rendr a gorffeniadau eraill

4.3.4 Mae effeithiolrwydd Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn gofyn am arolwg ffotograffig fel gwaelodlin ar gyfer cyflwr hysbys yr eiddo. Rhaid i hwn gael ei ddiweddaru o leiaf bob tair blynedd gan mai dim ond yn erbyn tystiolaeth o newidiadau heb eu hawdurdodi sydd wedi'u gwneud o fewn y pedair blynedd flaenorol y gellir cymryd camau gorfodi.

Mae cyfarwyddiadau Erthygl 4 yn fwy tebygol o fod yn effeithiol os yw'r canlynol yn digwydd:

- Bod yna gofnod ffotograffig dyddiedig o'r eiddo perthnasol at ddibenion tracio unrhyw newidiadau dilynol;
- Bod canllawiau'n cael eu darparu ar gyfer perchenogion cartrefi ynghylch sut mae'r cyfarwyddyd yn effeithio arnynt, gyda chyngor am atgyweirio a newid priodol;
- Bod yr awdurdod lleol yn ymgymryd â monitro rheolaidd ar gyfer cydymffurfiaeth a gorfodaeth briodol;
- Bod yr angen am y cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei adolygu os bydd amgylchiadau'n newid

Dychwelyd i baragraff 1.3.3

## 4.4 Monitro a Gorfodi:

4.4.1 Bydd gofyn bod monitro ac adolygu rheolaidd o Werthusiad Cymeriad a Chynllun Rheoli'r Ardal Gadwraeth er mwyn cwmpasu newidiadau datblygu ac unrhyw flaenoriaethau a chynigion newydd. Gallai arolwg ffotograffig newydd o'r Ardal Gadwraeth, wedi'i ddyddio, fod yn offeryn allweddol i fonitro newidiadau. Bydd diweddariadau rheolaidd, wedi'u seilio ar wybodaeth am Gynllunio /Adeiladau Rhestredig / GCC nodi'r mwyafrif o newidiadau datblygu. Bydd ymchwil hanesyddol pellach o'r Ardal Gadwraeth yn fuddiol. Gellir defnyddio mapiau hanesyddol, lluniadau, paentiadau neu ysgythriadau a hen ffotograffau yn sail wybodaeth ar gyfer adnewyddu manwl gywir o eiddo a threfluniau treftadaeth.

### 4.5 Deall Cadwraeth

4.5.1 Mae gwybodaeth a dealltwriaeth leol yn gwbl ganolog i reolaeth hirdymor, sy’n seiliedig ar gadwraeth. Mae Cyngor Sir Penfro yn awyddus i sicrhau bod:

- sgiliau cadwraeth priodol ar gael yn yr awdurdod a'r gymuned;
- ymwybyddiaeth a dealltwriaeth briodol o werth ardaloedd cadwraeth;
- safonau cadwraeth yn cael eu gweithredu er mwyn sicrhau diogelu a gwella; a
- bod perchnogion yn deall eu cyfrifoldebau.

Gall yr amcanion hyn gael eu cwrdd drwy ystod o ganllawiau a rhannu gwybodaeth.

### 4.6 Anghenion Adnoddau

4.6.1 Bydd angen cyllid cyfalaf ychwanegol er mwyn sicrhau safonau treftadaeth priodol ar gyfer gwariant cyhoeddus a phreifat ar yr amgylchedd adeiledig. Yn gyffredinol mae camau gweithredu a chanlyniadau bwriadedig yn fwy tebygol o gael eu gweithredu pan ddarperir cymorth grant. Bydd cyfleoedd ar gyfer cyllido yn parhau i gael eu harchwilio a’u hymchwilio drwy weithio  mewn partneriaeth gyda meysydd gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill.

4.6.2 Bydd gwarchodaeth barhaus o’r Ardal Gadwraeth, sy’n addas i’w chyd-destun treftadaeth, yn gofyn am ragor o ganllawiau polisi a chanllawiau technegol manwl. Mae angen penodol am ganllawiau ychwanegol ynghylch egwyddorion allweddol, gydag enghreifftiau o arfer dda’n cael eu nodi, gan gynnwys gorffeniadau addas, offer trin dŵr glaw, a thriniaethau ffenestri a drysau. Bydd hyn yn annog atgyweirio, amnewid a deunyddiau addas.

### 4.7 Asesiadau Effaith Cydraddoldeb

4.7.1 Mae Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol neu Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn rhan bwysig o ymrwymiad y Cyngor i hybu cyfle cyfartal i’r holl ddinasyddion. Mae angen i’r Cyngor ystyried amrywiaeth wrth ddatblygu, cyflenwi ac adolygu polisïau a gwasanaethau er mwyn sicrhau ein bod yn cwrdd ag anghenion ein dinasyddion i gyd. Mae Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn darparu proses systematig o wneud hyn ac felly byddant yn helpu i wella cyflenwi gwasanaethau ac arfer cyflogaeth. Bydd angen Asesiad Effaith ar gyfer gweithredu unrhyw un o’r polisïau arfaethedig ar gyfer rheoli’r Ardal Gadwraeth.

## 4.8 Cynaliadwyedd

4.8.1 Yn aml mae adnewyddu ac ailddefnyddio adeiladau presennol yn fwy cynaliadwy na dechrau o'r dechrau gyda safle wedi'i glirio, ac mae'n fwy tebygol o gael llai o effaith ar yr amgylchedd. Mae angen rhoi sylw i gwrdd â gofynion Bioamrywiaeth.

4.8.2 Er bod adeiladau sydd yn Ardal Gadwraeth Wdig wedi'u heithrio o gwrdd â gofynion rheoliadau adeiladu ynghylch effeithlonrwydd egni, gellir gwella'r ffactorau hyn heb dynnu oddi ar gymeriad yr adeilad neu'r ardal gadwraeth yn ei chyfanrwydd. Mae meysydd lle gellir gwella effeithlonrwydd amgylcheddol ac effeithlonrwydd egni gydag adeiladau hanesyddol yn cynnwys:

- ystyried cynaliadwyedd amgylcheddol mewn adnewyddiadau hanesyddol drwy ddylunio priodol;
- Gwelliannau effaith isel i aerdynnrwydd gan ddefnyddio offer atal drafft a llenni trwm o amgylch ffenestri a drysau, blocio simneiau segur a defnyddio gwydr eilaidd neu, er enghraifft, Histoglass – gwydr dwbl tenau (10mm) wedi'i ddylunio'n arbennig ar gyfer ei osod i mewn i fframiau pren a metel sydd yno eisoes, heb newid mân fanylion y barrau gwydr; lle mae'n briodol, defnyddio technoleg egni adnewyddadwy;
- defnyddio paentiau, farneisiau a gorffeniadau eraill sy'n seiliedig ar ddŵr neu olew naturiol; mae hyn yn rhoi buddion iechyd a buddion cadwraethol;
- adnewyddu yn hytrach nag amnewid nodweddion hanesyddol;
- Defnyddio defnyddiau ynysu naturiol sy'n anadlu ac yn osgoi cynnydd lleithder;
- defnyddio cyflenwad lleol o lafur a deunyddiau;
- cyfyngu ar wastraff drwy ailddefnyddio deunyddiau, fel llechi, brics a phren; a
- Gweithio gyda thîm bioamrywiaeth mewnol CSP i annog dull gwybodus a chadarnhaol o weithio gyda bywyd gwyllt i sicrhau bod pob project yn yr ardal gadwraeth yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf ynghylch gwarchod bywyd gwyllt.

4.8.3 Mae cyhoeddiad Cronfa Dreftadaeth y Loteri, *Planning Greener Heritage Projects*[21]*,* Chwefror 2009, yn cynnwys canllawiau a gwybodaeth am amrywiaeth eang o agweddau ar gynaliadwyedd mewn perthynas ag adeiladau treftadaeth a darparu adeiladau newydd o fewn cyd-destun treftadaeth. Mae'r wybodaeth yn ymdrin â thestunau megis:

- Effeithlonrwydd egni;
- Egni adnewyddadwy;
- Dŵr;
- Deunyddiau adeiladu;
- Gwastraff adeiladu;

[21] Ar gael ar wefan CDL, hlf.org.uk yn Saesneg a Chymraeg

- Pridd, gan gynnwys mawn;
- Pren;
- Bioamrywiaeth; a
- Chludiant ymwelwyr.

4.8.4 Gall effeithlonrwydd ynni leihau biliau, lleihau'r defnydd o danwydd ffosil a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Yn gyffredinol, fodd bynnag, adeiladwyd adeiladau hanesyddol i anadlu ac maent wedi'u gwneud o ddeunyddiau all gael eu difrodi gan ddulliau modern, neu bydd y cymeriad yn newid yn sylweddol. Mae adnewyddu adeilad yn rhoi'r cyfle i wella effeithlonrwydd ynni. Dylid trafod gyda'r Cyngor Sir unrhyw fesurau fydd yn effeithio ar adeiladau rhestredig neu rai o fewn ardal Cyfarwyddyd Erthygl 4.

4.8.5 Mewn egwyddor dylai'r mesurau effeithlonrwydd ynni wneud cyn lleied o newidiadau â phosibl. Dylai'r deunyddiau a'r dulliau fod yn debyg i wead traddodiadol yr adeilad. Gall dylunio gofalus a rheoli sympathetig helpu i ddiogelu dyfodol cynaliadwy ar gyfer adeiladau hanesyddol.

# 5. Rhaglen Weithredu

## 5.1 Adnoddau ar gyfer gweithredu yn yr Ardal Gadwraeth

5.1.1 Bydd Cyngor Sir Penfro (CSP) yn monitro ac yn adolygu'r adnoddau sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal yr amgylchedd hanesyddol a rheoli'r Ardal Gadwraeth. Lle mae cyllid priodol ar gael, bydd CSP yn cydlynu gwaith o'r fath gyda'r holl asiantaethau sydd ynghlwm â hyn er mwyn cyflawni'r nodau treftadaeth ac i sicrhau effaith fuddiol dull, wedi'i arwain gan gadwraeth, o ymdrin â datblygu economaidd ac adfywio.

5.1.2 Mae rheoli a mewnbwn sgiliau amserol gan yr holl asiantaethau sy'n gweithio yn yr Ardal Gadwraeth yn hanfodol ar gyfer gweithredu'r rhaglen, sicrhau monitro a gorfodi effeithiol, paratoi canllawiau technegol a hysbysu'r gymuned. Bydd angen cyllid cyfalaf ychwanegol i sicrhau safonau treftadaeth priodol ar gyfer gwariant cyhoeddus a phreifat ar yr amgylchedd adeiledig. Mae llawer o'r camau gweithredu a chanlyniadau bwriadedig hyn yn fwy tebygol o gael eu gweithredu pan ddarperir cymorth grant a bydd cyfleoedd ar gyfer cyllido yn parhau i gael eu harchwilio a'u hymchwilio drwy bartneriaeth â meysydd gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill.

## 5.2 Crynodeb o'r Cynllun Gweithredu

Nodir y camau gweithredu canlynol ar gyfer gweithredu buan i hybu'r ymwybyddiaeth o gadwraeth a chyflawniadau cadwraeth yn Ardal Gadwraeth Wdig:

**Polisi a Strategaeth Cynllunio:**

- CSP i fabwysiadu'r Cynllun Gwerthuso a Rheoli Ardal Gadwraeth

**Cyfranogiad y gymuned:**

- Hyfforddi a Datblygu Staff Cadwraeth;
- Cynyddu ymwybyddiaeth o gadwraeth;
- Datblygu gwefan Gadwraeth CSP;
- Cyhoeddi Bwletin(au) Cadwraeth; a
- Sicrhau bod y Cynllun Gwerthuso Cymeriad a Rheoli Ardal Gadwraeth ar gael yn lleol.

**Mesurau Cynllunio:**

- Cwblhau fersiwn terfynol o'r Rhestr Leol ddrafft i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd;
- Gweithredu Strategaeth Adeiladau mewn Perygl ar gyfer yr Adeiladau Rhestredig hynny sydd mewn perygl neu dan fygythiad
- Nodi Ardaloedd sy'n Sensitif yn Archeolegol fel y bo'n briodol

**Fframwaith ar gyfer Safonau Dylunio:**

- Paratoi rhaglen ar gyfer paratoi nodiadau canllawiau cynllunio ychwanegol ar faterion cadwraethol;
- Sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer mesurau gorfodi, a'u pwysigrwydd, yn cael eu deall a'u gweithredu ledled CSP;
- Hyrwyddo Nodiadau Canllawiau Cynllunio a 'Cynnal a Chadw!' Cadw ar y wefan; a
- Pharatoi briffiau datblygu sy'n benodol i safle, lle mae'n briodol.

## 5.3 Monitro

5.3.1 Dylai cynnydd gyda gweithredu argymhellion y Cynllun Gwerthuso Cymeriad a Rheoli Ardal Gadwraeth gael ei fonitro a'i gofnodi.

## 5.4 Arolwg Ffurfiol

5.3.2 Dylid adolygu'r ddogfen hon bob pum mlynedd oddi o ddyddiad ei mabwysiadu'n ffurfiol. Bydd angen iddi gael ei hasesu yn erbyn Deddfwriaeth, a pholisi cenedlaethol a lleol sydd ar waith adeg yr Adolygiad. Dylai'r adolygiad gwmpasu'r canlynol:

- Arolwg o'r Ardal Gadwraeth gan gynnwys arolwg ffotograffig llawn i gynorthwyo camau gorfodi posibl;
- Asesiad o'r graddau y mae argymhellion wedi cael eu gweithredu, a pha mor llwyddiannus mae hyn wedi bod;
- Nodi unrhyw faterion newydd sydd angen mynd i'r afael â nhw, neu sydd angen gweithredu neu welliannau pellach;
- Cynhyrchu adroddiad byr yn manylu ar ganfyddiadau'r arolwg ac unrhyw gamau angenrheidiol;
- Cyhoeddusrwydd a hysbysebu.